# COLOFN Y BARDD

GAN JOHN HOWELL

Presented to

The Library

of the

University of Toronto

by

Prof. Fred Norris Robinson

3/-

LCelt
H5495co

806029

# COLOFN Y BARDD:

SEF

AWDLAU, CYWYDDAU, AC ENGLYNION,

AR WAHANOL DESTYNAU, MOESOL A CHREFYDDOL,

GAN

JOHN HOWELL,

PENCOED, MORGANWG.

535893
10 3. 52

WREXHAM:
ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET.

HARVARD COLLEGE LIBRARY
MAY 29 1939
From the gift of
Professor F N Robinson

## AT Y DARLLENYDD.

---

Gan fod y gelfyddyd farddonol yn myned yn fwy-fwy ar gynydd yr oes bresenol, a bod darllenwyr cynyrchion yr Awen wedi amlhau yn fawr o fewn y deng mlynedd ar ugain diweddaf, daeth i'm meddwl, cyn diweddu fy nyddiau ar y ddaear, y priodoldeb o gasglu gwaith barddonol fy oes yn llyfr, a'i anfon i'r cyhoedd.

Rhedodd fy mwriad yn gryf ar yr Awen cyn fy mod yn ugain mlwydd oed. Yn fuan ar ol hyny daeth crefydd a'i dyledswyddau i flaenori yn fy serch; ac yn mhen ychydig daeth gofalon bywyd i hawlio eu lle hwythau; a rhwng y ddau diddyfnwyd y meddwl mewn rhan fawr oddiwrth farddoniaeth, a gadawyd hi am flynyddoedd, er cryfed oedd y duedd atti.

Yn mhen ychydig flynyddoedd ymeflais eilwaith yn yr Awen, a chefais fod y serch atti yn hynod gryf drachefn. Dechreuais gyfansoddi ar gyfer eisteddfodau, a myned i rai o honynt; ond gwelais nad oedd y lleoedd hyny yn fanteisiol i fywyd crefyddol. O ganlyniad, ymgysegru i grefydd, a gadael pethau ereill er ei mwyn, a enillodd y dydd yn fy mwriad, a da iawn genyf hyny. Gadewais farddoniaeth bron yn llwyr wedi hyn am ddeng mlynedd ar ugain, heb wneyd nemawr o ddim arni.

Yn y blynyddoedd diweddaf, daeth rhyw feddwl ynof i gasglu gwaith fy oes yn nghyd, a'i wellhau, yn gystal a

chyfansoddi rai darnau newyddion ; a dyma efe yn awr o flaen y cyhoedd i roddi barn arno.

Er fod prydyddiaeth rydd yn fwy darllenadwy gan y cyffredin, ac yn llawer mwy rhwydd i gyfansoddi, eto ar y maes arall y treuliais i fy llafur, oddiar ryw anwyldeb mawr at y gynganedd a'i chywreinrwydd, er cymaint yr anhawsder ei gweithio, a chadw y synwyr heb ei dywyllu.

Ni fwriedir y llyfr hwn er mwyn gwneyd elw o hono. Ond amcan yr awdwr yw, iddo fod yn fath o Golofn Goffadwriaethol o hono, trwy ddangos fod y fath un wedi bod yn oesi yn nghanol y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn Sir Forganwg.

JOHN HOWELL.

PENCOED, MORGANWG,

*Mai 5ed*, 1879.

# CYNWYSIAD.


TUDAL.

Rhagymadrodd .. .. .. .. .. .. 3
Y Mab Bychan .. .. .. .. .. .. 7
Y Wlad Well—*Cywydd* .. .. .. .. .. 14
Cyfarchiad at Ieuengtyd yr Oes .. .. .. 22
Addola Dduw .. .. .. .. .. .. .. 23
Cywydd ar y Sabboth .. .. .. .. .. 26
Awdl ar Adgyfodiad y Meirw .. .. .. .. 35
Ariangarwch .. .. .. .. .. .. 47
Diwedd Oes .. .. .. .. .. .. .. 49
Awdl Marwnad Syr John Nicholl . .. .. 53
Canu yr Oes .. .. .. .. .. .. .. 57
Y Chartists yn 1840 .. .. .. .. .. 58
Myfyrdod ar y flwyddyn 1875 .. ... .. .. 59
Galwad ar rieni i anfon eu plant i'r Ysgol Sabbothol 61
Coffadwriaeth am y Parch. Richard Thomas, Llysyfronydd, Morganwg .. .. .. .. .. .. 64
Y Fynwent .. .. .. .. .. .. 65
Diolchgarwch i'r Milwriad Edmonds, o'r Bontfaen .. 67
Y Gweithdy, a Chyfraith Newydd y Tlodion .. .. 70
Gwagedd yw Mebyd ac Ieuengtyd .. .. .. 72
Awdl Marwnad y gwir Barch. William Bruce Knight, Deon Llandaf .. .. .. .. .. 73
Cenfigen .. .. .. .. .. .. .. 83
Y fynwes lân heddychol ei pherchen .. .. .. 84
Awdl ar y Methyglyn,—diod yr Hen Gymry .. .. 89
Arch Noah .. .. .. .. .. .. 94

| | TUDAL. |
|---|---|
| Awdl Farwnad y diweddar Ioan Powys .. .. .. | 96 |
| Jubili y Feibl Gymdeithas yn 1854 .. .. .. | 104 |
| Daniel Jones, Llythyr-gludydd o Benybont i Bencoed | 106 |
| Awdl ar y Gauaf .. .. .. .. .. .. | 107 |
| Trosglwyddiad Cristionogaeth i Ynys Prydain .. .. | 118 |
| Anerch i Lyfr Barddonol Mr. William Jones, Caerphili | 122 |
| Englynion i'r Goleu Dyrau *(Lighthouses)* .. .. | 124 |
| Cywydd ar Ddameg yr Hauwr .. .. .. | 126 |
| Englynion Coffadwriaethol y Parch. David Howells, o Abertawe .. .. .. .. .. .. .. | 136 |
| Diolchgarwch am Gynhauaf y flwyddyn 1845 .. | 138 |
| Awdl ar Fywyd a Nodweddiad y Brenin da Josiah .. | 140 |
| Englynion Coffadwriaethol am y Parch. John Elias, o Fôn .. .. .. .. .. .. .. | 160 |
| Anerchiad i Lyfr Prydyddiaeth Dewi Haran .. .. | 162 |
| Minau arferaf Weddi .. .. .. .. .. | 163 |
| Coffadwriaeth am y Parch. John James, Penybont, Morganwg .. .. .. .. .. .. | 166 |
| Y Tafod—*Cywydd* .. .. .. .. .. | 168 |
| Y Bardd yn ei Glefyd .. .. .. .. .. | 177 |
| Marwolaeth fy Ngwraig .. .. .. .. | 179 |
| Trem olaf y Bardd ar y byd .. .. .. .. | 181 |
| Bedd-argraffiadau, &c. .. . .. .. .. | 184 |

# COLOFN Y BARDD.

## Y MAB BYCHAN.

(CYFRES O ENGLYNION.)

Mab bychan a gwan yn geni,—a'i le,
Dan lawer o anfri;
Cenad nef, un o'n cnawd ni,
Y dyn addawyd ini.

Gwers bwysig er hysbysu—ei ddyfod,
Drwy ddwyfol ragdraethu,
Canfyddwyd cyn ei feddu,
Nodiad o'i ddyfodiad fu.

Trwy Dduw at yr Iuddewon,—amlygwyd,
E roddwyd arwyddion
O'i dd'od drwy addewidion,
Ar gref sail di ail Duw Ion.

Ansigledig ddysgwyliadau,—daenwyd
Am dano drwy 'r oesau;
Hynaws sôn o'dd ei neshau,
Gynt ydoedd gan y tadau.

Dilwythwyd prophwydoliaethau,—cynar
O'u cynwys a'u beichiau;
Deuoedd breg a diwedd brau,
Gwasgedig ar gysgodau.

Adegwyd ei enedigaeth—i'r dim,
Drwy dymhor yr arfaeth;
E dorodd dydd, drwyddo daeth,
Hin heulog i'r ddynoliaeth.

Seryddwyr doethwyr cyd-deithiant,—o dir
Y dwyrain prysurant,
Pen y daith pan y daethant
I Fethl'em, a'r gem a gânt.

Y dyn bach mewn cadachau,—gẁyn gleinion,
A'r meinion rwymynau;
Y Mab a'i fam ddinam ddau,
Y Brenin ar y bronau.

Ha! forwyn wyt anfarwol,—dy hanes
Ro'w'd ini 'n rhyfeddol;
Diau 'e gaid yn dy gol
Etifedd o'r had dwyfol.

Nid dyn bach o dan bechod—a'i flinder,
Aflendid diddarfod;
Ond pur ei natur a'i nôd,
Yn ŵr fydd yn rhyfeddod.

Bu galw ar y bugeiliaid,—rhyw yngan,
Drwy angel bendigaid;
O'r wybrenau geiriau gaid,
Nes ofni gwelwi 'r gwyliaid.

Y gwyliaid o un galon,—ymunent
Er myned yn union,
Ar drem i Fethl'em faethlon,
Yr hen dref yr haddef hon.

Bu golwg ar y bugeiliaid—yn ddefnydd
Llawenydd eu llonaid;
Drwy yr hanes gynes gaid,
Hwyl lamai 'r Bethlehemiaid.

I'w cysur yno cawsant—wirionedd
Yr hanes a glywsant;
Y Mab bychan gwan a gânt,
I'w llawddu yn eu llwyddiant.

Mair a Joseph, mam yr Iesu,—gaid yno,
Gydunawl gariadlu;
A'r angylion loewon lu,
Frwd dylwyth efo'r teulu.

I galed dynged angau—torf aethlyd,
Trwy Fethl'em a'i chyrau;
Ddiblantwyd, bwriwyd i'r bau,
Orfodaeth ar fywydau.

Y gŵr Joseph, ei wraig, a'r Iesu,—oll
Aent allan fel teulu;
Hyd y cyfnos rhaid cefnu,
Rhag Herod a'i ddyrnod ddu.

Arweiniwyd ei rieni,—a'r Iesu,
Yn frysiog heb oedi,
Hebryngwyd, troswyd y tri,
Un oedd ddyn newydd eni,

Hwnt i'r Aifft, yr hynt hir hon,—o'u goror
I gyrau gwlad estron
Mewn gwir barch, ar arch yr Ion,
Ymroisant heb ymryson.

Drwy newid yr annuwiol—lyw Herod,
Ail wawriai 'n fanteisiol
I'r teulu wynebu 'n ol,
I fro eu gwlad foreuol.

Ufudd Fab o'i fodd a fu,—yn wastad,
At alwad y teulu;
I'w riaint, a'r ceraint eu,
Parch oes a roes yr Iesu.

'N awr ac eilwaith argoelion,—o Dduwdod
Cuddiedig ei Berson,
Drydaniai drwy y dynion,
A'i hanes ef dynai son.

Simeon nis amheuodd,—ar unwaith
Yr hanes a gafodd;
Yn barchedig breicheidiodd
Wrth ei fron y werthfawr rodd.

Ei frodyr oe'nt hwyrfrydig—o galon,
I goelio yn frysig,
Am ei raddau mawreddig,
Hynaf frawd yn un o frig.

Ar wyl y pasc, yn wrol pan,—nad oedd
Ond deuddeg mlwydd cyfan,
Aeth yno, gwnaeth ei hunan
A'i enw 'n fawr yn hyn o fan.

Dilenwyd i oleuni,—addefwyd,
Ei ddwyfol Fawrhydi;
Yn eithaf rhwydd aeth ei fri,
A mawr-son am ei wersi.

Gwreichion o'r Duw goruchaf,—a'i nerthoedd,
Yn ei wyrthiau welaf;
Wrth wledda yn Cana, caf
Foliannu ei wyrth flaenaf.

Ar ol hyn yr ail hanes—a gawn,
A gynwys ryw gofres
O'i weithiau, cynlluniau lles,
Hufenodd yn ei fynwes.

Diwygiodd a'i weinidogaeth,— ganoedd
O'r genedl drwy 'r dalaeth;
Planu crefydd newydd wnaeth,
Yn ddiwedd hen Iuddewaeth.

Ymdaenodd son am dano,—y tewion
Finteioedd ddoent ato;
Ffurfient gylch o'i amgylch o,
Yn gron-dorf arno 'n gwrando.

Y deillion a'r diallu,—a nifer
O'r anafus deulu,
Y blinderog lwythog lu,
Aent drosodd at yr Iesu.

Fe roddodd i'r efryddion,—diallu,
Rad welliant yn union;
A thafodiaith i fudion,
Tan nawdd Duw, caent newydd dôn.

Mae hanesion ei gymwynasau—rhyfedd,
Yn rhifo miliwnau;
Ei heddwch ef oedd iachau,
Y dinerth o'u cadwynau.

Ond ar ol mwynder helaeth,—i'r eiddil,
Er haeddu canmoliaeth;
Ei alon yn ëon wnaeth,
Gasineb i'r gwasanaeth.

E ddodwyd cyhuddiadau,—anwirbeth
Yn erbyn ei foesau;
Tynu gwŷr yn dystion gau,
Yn fradwyr hyf haeriadau.

Craffu, manylu yn helaeth,—wnaethant,
Gan nithio'i athrawiaeth;
Twyllwr drwg i'w golwg aeth,
Yn euog o annuwiaeth.

Ond wedi berwi o'u bwriad—drosodd,
Drwy ysawl gynhyrfiad,
Cynllwynig fu'r cynlluniad,
Gelynawl, gyfrwysawl frad.

O ganol enwau 'i ganlynwyr,—aeth un
'N wrthwyneb i'w frodyr,
Prisio 'i werth mewn pres i wŷr,
Echryswyllt frwdwyllt fradwyr.

Ond er ei ddal drwy ddwylaw—y fyddin,
Ni feiddiwyd ei dreisiaw;
Pob dynol elynol law,
Oedd ddi rym idd ei rwymaw.

Ymrwymiad i'w Dad a'i dododd—o dan
Y cadwynau gafodd;
Ufudd fu, drwy ryfedd fodd,
A'i ddwylaw ni ddialodd.

Drwy 'r grog a'r dreiniog driniaeth—dderbyniodd
Ar ei ben ysywaeth,
Addfwyn un, dioddef wnaeth,
Dan boeredd dyn a bariaeth.

Llwyr ddial llaw 'r Iuddewon,—oedd arno,
Drwy ddyrnod echryslon;
Ceg waeddai y cigyddion,
Dialus eu digus dôn.

Poenfawr a drudfawr droedfa,—i'w fywyd,
Fu awyr Calfaria;
Gresyn gwel'd y Duw-ddyn da
Yn rhwym gan y rhai yma.

Ond drwy hyn o drueni,—a chwysaw,
Y chwyswaed galedi;
Gweithiwyd, ennillwyd i ni,
Ryddhad o wlad tylodi.

Gweithiwyd Iawn, i lawn foddloni—'r Duwdod,
Rhaid ydoedd tafoli,
Y gwerth yn ol ein gwarth ni,
A'r dyled briodoli.

Dyled dyn dalwyd yno,—y Duw-ddyn,
Mewn dioddef aeth dano;
Caled fu ei dynged o,
Traws haeddiant tros ei eiddo.

Ei rydd ddigerydd gariad,—un ochrog,
Yn nechreu 'r dewisiad;
Y berw hwn a roes barhad,
Anfarwol yn ei fwriad.

Cof rhyfedd o'r cyfrifiad—orwasgai,
Ar ysgwydd ein Ceidwad;
Gofyn deddf, gyfiawn ei Dad,
Dawelodd a llawn daliad.

Drwy waed dilwgr, drud dalodd,—y Duw-ddyn,
Da 'i haeddiant fe 'n prynodd;
Dyn a'i fai i'w dwyn o'i fodd,
A'i gamwri gymerodd.

Moliant, gogoniant ganwaith,—am lunio
A gweithio 'r fath gaethwaith;
Dwyn i ben, a gorphen gwaith,
Y gweledig galedwaith.

Ei ben haeddaiol erbyn heddyw,—gafodd,
Uwch gafael dynolryw;
Aeth yn ol i fythol fyw:
Un Bôd a'r Duwdod ydyw.

Hanes gawn o'i esgyniad—i'r nefoedd,
A'r nwyfus gynhyrfiad,
Ydoedd ar luoedd y wlad,
'N addfedu ei ddyfodiad.

Mewn rhwysgfawredd rhyfeddawl,—goriachus,
Fu 'r grechwen fuddugawl,
Telynu, amenu mawl,
Hyd fryniau y wlad freiniawl.

Y funud hon, o'i fyn'd yno—'n wallus
Ni all ein hangofio;
Plant daear drig ar ei go',
A meddwl am ei eiddo.

Ha! weithian, y gwan eginyn—welir,
Heb waeledd yn Dduw-ddyn;
O'i fyn'd ef yn fwy na dyn,
Rho'w'd hyder i'r credadyn.

Ow! foroedd anarferol—agorodd
O gariad trag'wyddol;
I'n dwyn ni a Duw yn ol,
I wedd iachus heddychol.

O f' enaid! hyn a fynaf,—wneyd drosto,
Byw iddo tra byddaf:
Wed'yn yno ato af,
Unwedd fod pan addfedaf.

---

## Y WLAD WELL.

(CYWYDD.)

Ha! wlad deg dy olud di,
A'th dir sy'n gwir ragori,
Ar drysor daear isod,
Doniau 'r hyn sydd dan y rhôd,
Gem wisgiad digymysgedd,
O burdeb, yw 'th wyneb wedd;
Hirfaith undaith gyfandir,
Yn estyn ddiderfyn dir:
Ireiddwedd ddiddiwedd ddol,
Faes eirian anfesurol;
Ansawdd llawn, hinsawdd y lle,
Fan hyfryd dan y nwyfre;

Mynychu er mwyn iechyd,
Ei phurwedd wna bonedd byd;
Hwy fynent hir fwyniant hon,
Ei heulwawr a'i hawelon.
Ni all hydref na llwydrew,
Na dryghin, oer hin, neu rew,
I'r haddef hon gyrhaeddyd,
Na gwel'd fyth ryw galed fyd.
Tir hinon, nid taranau,
A mellt uwchlaw 'r gwellt yn gwau,
A'r swn yn echrys enyn,
Arswyd Duw hyd dros y dyn.
Dydd byr, na gwewyr gauaf,
Na diwedd ar dywydd haf,
Na dim oeraidd dymhorau,
Neu arw beth o fewn i'r bau.
O'i chynyrch, ceir ychwaneg,
Yn y tir fwy na chnwd teg,
Rhyw orlwyth llawn o ffrwythau,
Toreithiol ar ol yr hau:
Edrych Duw ar ymdrech dyn,
Yn waddolog gwna 'i ddilyn;
Ni ddigwydd un aflwydd haf,
Drwg niwed ar gynhauaf;
Ni rhaid, fel er gochel gwaeth,
Gynilaw ar gynaliaeth:
Llawnder ar gyfer gofyn,
A bwrdd hael i bob rhyw ddyn;
Heddyw rhydd y ddaear hon
Hir doraeth i'r brodorion;
Hebryngir bara angel,
I'r dyn, ymenyn a mêl.
Ei choedydd, nid ychydig,
Ac ynddynt trwyddynt y trig
Y doniog lu adeiniawl,
Rhai swynus melus eu mawl;

A'r banau cyferbyniol,
Yn adsain y rhai'n ar ol.
Y llwyni 'n geni gwinwydd,
A pherthi 'n rhoi ffrwythau 'n rhydd;
Diberig yw 'r goedwig i
Wr eiddil fyned drwyddi;
Anghenfil, neu fwystfil fo,
Yr un ni welir yno,
Yn aros er dangos dig,
Neu wenynen wenwynig;
Na neidr ddu i darfu dyn,
I ochelyd ei cholyn.

Di-ail wlad, heb dylodion,
Na gŵr rhwym drwy gyrau hon;
Pawb yn gytun yn un hawl,
Gaed drwyddi yn gydraddawl,
Heb anaf ar neb yno,
Dyna fraint y lydan fro:
Hoenwedd feib o luniaidd faint,
Iach heinyf, di-faich henaint,
Ni welwyd hyd y wlad hon,
Y briglwyd a'i beryglon;
Heb un gŵr o gyflwr gwan,
Rhai 'n edrych o'r un oedran;
O union dwf, yno 'n deg,
A'u hireidd-der yn rudd-deg;
Ac urdd eu gwisg hardd ei gwedd,
Fel clôg ddihalog heulwedd.

Unbenaeth lywodraethawl,
Yw 'r dalaeth helaeth ei hawl;
Y deiliaid oll yn dilyn,
Un gyfraith drwy effaith hyn:
Dim cwyno, na beio 'n bod,
Na dwrdio un awdurdod;

Cariad Duw yw pynciau 'r dydd,
Hyn gaf yn benaf beunydd;
Hyd y ffyrdd, nid siarad ffol,
O wefusau anfoesol;
Gwlad-ddysg ei therfysg a'i thân,
Wersylla o'r drws allan,
Rhyw bennod annerbyniol,
Yw cecrus ddadleüs lol.
Ar ryw bwngc o ddirfawr bwys,
I'r genedl drwy ei gynwys,
Dal agos gydolygiad,
Ac unol lef cawn y wlad:
Gwarth ddynion yn gwrthuno,
Yn llafar y frawdgar fro,
Ni cheir neb yn ochri 'n ol,
Yn hunanaidd anunol;
Dilëwyd pob dadleuon,
A'u chwerw lef o'r haddef hon.

Adferiad i'w difyrion,
Gwastadol, yw 'r swynol son,
Am waed yr Oen, y medr o,
Drosodd, eu sanctaidd drwsio:
Yr hen gynes hanes hir,
A led rwydd ail adroddir,
Yn hwylus felus filwaith,
Yn ddi rëol fythol faith;
Ceir ysbryd brwd y croesbren,
Yn mynu bod yma 'n ben;
Dim arall yn dymhorol,
I asio 'r oes ar ei ol,
A phob un yn hoffi bod
O'r unfarn am yr Hanfod.

Gwarafun dysgu rhyfel,
Na dwyn drwg na gŵg dan gêl;

Y ddyfais ni oddefir,
I droi at hon drwy y tir;
Lle heb ocrwyr treiswyr traws,
Na lladron eon lled-draws,
Yn ol anfucheddol chwaeth,
Na chyrddau at chwar'yddiaeth:
Bro heddwch, heb arwyddion
Oernad dig neu erwin dôn,
Na gelyn yn erbyn neb,
Megis sôn am gasineb.

Caniadau 'r wlad cun ydynt,
Tonau 'r oes, rhai tyner y'nt;
Eu lleisiau, seiniau swynawl,
Y'nt lwythog, feichiog o fawl.
Anturia y cantorion,
Fil eu rhif, i foli 'r Iôn;
Rhinweddau 'r awenyddwyr,
O frwd serch efrydus wŷr;
Yn feirdd o'r uchaf urddau,
A'u dawn wedi llawn wellhau,
Yn hyddysg gynganeddwyr,
Gorenwog, awenog wŷr:
Holl odlau, emynau mawl,
Y bwrdd ddynion barddonawl;
Llawn hyddysg eu llenyddiaeth,
O loewon orchestion chwaeth;
Yn mhell i'r un llinell ant,
Am Dduw, a threfn maddeuant.
Y gair swyngar, Calfaria,
I ddyn daeth newyddion da,
Drwyddo i'r byd fe dreiddiodd,
Yn mhwynt yr Iawn, maint y rhodd;
Fyth ddigon gyfoethoga,
Deulu 'r dyn, diail yw 'r da:
Darn yw i dori newyn,
Esyd Duw at eisiau dyn;

Anniflant feddiant a fydd,
I'w ddodi ef yn ddedwydd.

Ond penaf lawnaf linell,
O olud hael y wlad well,
Yma 'n wir y bernir bod
Llys dedwydd, llwys y Duwdod.
Gorsedd rydd ein Dofydd da,
Fryn anfoel ei freninfa;
Yr enwog, gyfoethog fan,
Cadeiriog, gyd o arian;
A dihalog wŷn deulu,
Mawreddus olygus lu,
'N ysbrydion o bigion byd,
A hufen o'r rhai'n hefyd;
Trigfan yr Hen Ddihenydd,
Preswylfod diddarfod ddydd,
Uchaf Frenin breninoedd,
Rhyw bellder cyn amser oedd;
Di ail yn ei fodolaeth,
Hanu 'n wir o'i hunan wnaeth;
Meddalhau mae 'r meddwl hwn,
Mewn synwyr am na soniwn,
Ar len drwy fy awen fach,
Yma ganiad amgenach;
Ni chama fy nychymyg
I gyntedd y mawredd myg;
Y neuadd aur newydd hon,
Uwch hanes yw ei cheinion,
Brig gariwyd pob rhagorion
O hir fwynhad i'r fan hon.
Dangosaf, adroddaf dras,
Neu folawd hon fel dinas:
Ei henw da yw Gwynfa 'r gwawl,
Neu y nefoedd hynafawl;

Man chweg, perffeithrwydd tegwch,
Yw ei phryd fflamllyd a fflwch ;
Eirian fan, yr hynaf fainc,
A swyddfa 'r wen orseddfainc ;
Addurnawl eistedd arni,
Yn ei swydd wna 'n Harglwydd ni.
Muriau uchel mawr-wychion,
Ro'w'd yn gylch o amgylch hon,
Ni fyn trawsion fyn'd trosawdd,
Trech yw y clo trwch y clawdd :
Os syllaf, dengys allan
Amryw byrth i'r muriau ban,
A'r rhai'n ar wedd arianwawr,
Y lliwiau gorau eu gwawr.
Perthynai i'r pyrth unwedd
Angylion gwỳnion eu gwedd ;
Di eiddil wyliedyddion,
Gyda'u Duw yn geidwaid hon.
Os awn i mewn, synu mwy
A wnawn gan orlawn arlwy,
Yr hen westwyr yn eistedd,
Fyrdd o lu wrth fwrdd y wledd ;
Agweddau y gwahoddwyr,
O'r un wisg oreuon wŷr ;
Yn ganaid bawb eu gynau,
Heb wahaniaeth archwaeth, a'u
Tuedd o unwedd anian
I lithrig gu, blethu 'r gân
I gyd o'r un danllyd dôn,
Hyfryd deilwng frawdolion ;
O un enaid enynawl,
Di hen feib, yn dân o fawl,
Iddo Ef ddioddefai
Hyd eirias boen dros eu bai,
Afrwydd iawn a fu rhyddhad
Y tylwyth drwy rym taliad ;

E fynai 'i braidd, ni fu 'n brin,
Drud bryniad drwy waed Brenin,
A'u tynu ato 'i hunan,
I'r nefol, wynfydol fan,
Mal gemau perlau parlawr,
Gwỳn eu gwisg yn gain eu gwawr.
Y grymysawg ŵr Moses,
A gaf yr uchaf o'r rhes,
Beryf hen, yn brif ynad,
Dedwydd is-lywydd y wlad;
Yr hwn fu yn arweinydd
Yn yr anial ddyfal ddydd:
Ac ereill fu 'n rhagori,
Gyda 'r saint mewn braint a bri;
Gwŷr enwog, galluog llawn,
A thoraeth o ferthyrawn,
Dyrfa fawr, dirif o faint,
Anarfog un o orfaint:
Di ail le yw 'r ardal hon,
A thalaeth perffeitholion;
A'r rhai'n i gyd o'r un gân,
Enynawl, a'r un anian,
Mewn hael fri a'u llestri 'n llawn
O'r mawl hyd yr ymyliawn;
Ysbrydion gwỳnion y gwawl
A thafod y iaith ddwyfawl
Melysant ganmol Iesu
Yn ddiorphen lawen lu.

Yn fanwl O fy enaid,
Brysia, darpara heb baid,
Hoenus fodd, hyd einioes fer
Ymestyn am gymhwysder,
I gartrefol fythol fod,
Yn yr unfan a'r Hanfod.

## CYFARCHIAD AT IEUENGTYD YR OES.

Ofni Duw yn fwy na dyn—yw 'r rhinwedd,
A gorona bob-dyn:
Cynyddu, tyfu at hyn,
Sydd alwad oes i'w ddilyn.

Och mebyd, chwi y meibion—yn selog
Preswyliwch yn Sion:
Er rhyddid oes, rhodded Iôn
Wir grefydd i'r gwyryfon.

Na chyrhaedded chwar'yddiaeth,—i'ch calon
Uwch coledd gwybodaeth;
Na foed i chwi fwydo chwaeth,
Ar garu gwag ragoriaeth.

Rhagoriaethau gau i gyd,—yw cynyrch
Cae hunan uchelfryd;
Gwylder,—nid balchder byd,
Duedda at ddedwyddyd.

Nid dull y corff, na dillad—sidanaidd,
Esyd union godiad;
Ond rheidiawl yw fod rhodiad
Cywir, at foddloni 'r wlad.

Na fyddwch byth yn feddwon,—nid diogel,
Ymhel a'r ymylon;
Diafrad fwriad a fo,
Na flaswch wan felusion.

Cashau caniadau cnawdol—fo ichwi,
Neu fuchedd annuwiol;
Gyda 'r grechwen lawen lol,
Na suddwch yn fasweddol.

Yn gynil iawn, o ganlyniad—gwyliwch,
    Rhag gwaelu 'ch cymeriad;
  Gwir ddidwyll lan gerddediad,
  Difrychau ar lyfrau 'r wlad.

'Nawr er byw ar wàr y byd,—i gychwyn,
    Rhaid gochel seguryd;
  Celloedd llawn a gawn i gyd,
  O dan dô y dyn diwyd.

Byw heb gusanu 'r bibell—a wneloch
    Wan eilun y llogell,
  Foesau gwael, caf eisiau gwell
  Ar bobun drwy ei babell.

Mwy cynar bo'ch amcanion—i fwydo'ch
    Dyfodol gysuron,
  Cyn dyfod dyrnod garw dòn,
  Ing henaint a'i angenion.

Arferwch yn bur forau—â chrefydd
    A'i chryfion fwynderau:
  Anrhydeddus roi dyddiau
  Goreu 'r oes i gario 'r iau.

---

## ADDOLA DDUW.

Nerth i ddal wrth addoli—hyd einioes
    Duw anwyl dod ini;
  Am werth y nef cymorth ni
  O hyd fel i dy foli—

Mewn llais, nid dyfais tafod—neu feddwl
    Wna foddio cydwybod,
  Mewn hwyl byw, dymunol bod
  Y galon hyd ei gwaelod.

Fe geir yn brawf o gariad—crefyddol,
A'i rasol arosiad,
Ac ofn Duw, y cyfiawn Dad,
Yn buredd dan y bwriad.

Dirgelaidd dir y galon—a fyddo
Yn feddiant mwy ffrwythlon,
Braenarer, dihuner hon,
O g'ledwch i'w gwaelodion.

Adolwyn, beth a dalaf—i fy Nuw?
Fy niolch offrymaf;
Mewn gwir barch ei gyfarch gaf,
A byw iddo tra byddaf.

Gwedd dduwiol yn gweddio—fo arnaf,
O irnaws, dan deimlo
Fy ysbryd yn fywyd fo,
Yn dwyn offrwm dyn effro.

Arwyddion geir o heddwch,—a boddiant
Os bydd cyfeillgarwch;
Cyd-rodio hyd dro di drwch,
O gyrhaedd oerfelgarwch.

Rhof fawrbarch drwy fy arbed,—am hiroes,
A'm harwain mor belled;
Aneirif yw 'r rhif a red
I fanylion fy nyled.

Tynerwch at anwiredd,—a gwenu
Yn gynil ar lygredd;
Ni rhydd Duw ryddid a hedd
I was afiachus fuchedd.

Mwy o allu cymhelliol,—yn gryfach
I grefu 'n wastadol;
Neu ofyn nerth, at fyw 'n ol
Pur rodiad mwy ysbrydol.

Rhith ddilyn wrth addoli—wan eiddil
Na oddef hyn imi;
Ar fy Naf, erfynaf fi,
Lawn nerth i lynu wrthi.

Nid y gau dduwiau 'r ddaear—di allu,
Rhai deillion a byddar;
Ond gwrthrych yn edrych ar
Y tru adyn fo'n trydar.

Dyn bywiog, gwresog, arosawl—fyddwyf,
Am faeddu dull ffurfiawl;
Yn caru emynu mawl
A dawn enaid enynawl.

Dad goreu, dod dy gariad—fo'n ddyfnach,
Yn gryfach, drwy gerfiad;
A mynu hwn, er mwynhad,
Fo'n amlach yn fy nheimlad.

Ar ol oes o addoli—yn oeraidd
Anwrol fod wrthi;
Mwynhad mawr fydd myn'd a mi
I dwym aelwyd y moli.

Wedi esgyn fry a dysgu—tônau
Y tyner foliannu;
Ni dderfydd y cywydd cu,
Na thymhor yr anthemu.

Diolch am waed i olchi—fy enaid
O'i fewnol fudreddi;
A'r nef fawr yn rhan i fi,
A'i gwinoedd i'm digoni.

## CYWYDD AR Y SABBATH.

Y Duw mawr anghydmarawl!
I'th enw mwy y perthyn mawl;
Rhyw bellder cyn amser wyt,
A dedwydd erioed ydwyt;
Yn ben anymddibynawl,
Yr holl fyd yw hyd dy hawl;
I ddynion wyt dirion Dad,
A Chrëwr heb ddechreuad.
Ydwyt gyntaf, uchaf ŵr,
Yn fawreddog ddeddfroddwr;
Nefoedd in' yw ufuddhau
Yn drylwyr dy reolau.

Duw Iôn yn wir foddlon fu,
Y dydd ar ol diweddu,
Ei orchestol wyrthiol waith
O greu anian gywreinwaith,
I orphwys Iôn dwys un dydd,
A llawn ddigrifu 'n llonydd;
O brysur lafur ei law
Ar y Sabbath rhoes heibiaw,
I roi da gym'r'adwyaeth
Farwn y nef i'r hyn wnaeth.

Elfenau y sylfaeniad
A ryngodd ei fodd yn fâd;
Bwriadodd beri wed'yn
Roi mewn deddf er mwyn y dyn
Reol grefyddol i fyw,
Didor awdurdod ydyw,
I rwymo pawb drwy ammod
Iddo fyth i ufudd fod;

Er mawl i'w orseddawl swydd,
Mynai Iôr er mwyn arwydd
Ar y saith, drwy gyfraith gu,
Roi dydd i'w anrhydeddu.

Ffrwyth trefniad bwriad borau
Ewyllys Iôn er lleshau
Dynion yn gyffredinawl,
O fewn holl derfynau 'i hawl
O'i dyner fryd am danynt,
Gwnaeth ddarpar yn gynar gynt,
Y Sabbath yn ddydd seibiant
Ar gyfer blinder ei blant.

Bu iddo neillduo 'r dydd
Drwy ei gau yn dragywydd,
Yn adeg wir bennodawl
Iddo fyth yn ddydd o fawl:
Dyledus iawn dâl ydyw,
Unol i radd dynolryw;
Nid yw'r swm ond rhesymol,
A gwael i neb gilio 'n ol:
E fedr y Duw anfeidrawl
Fynu hyn o'i gyfiawn hawl,
Sef i ddyn ddwys ufuddhau
Ar alwad ei reolau.

Wedi dyfod y diafol
Isod gyda phechod ffol,
Trwy is fodd i'n trawsfeddu,
Mewn aml rith ei felldith fu,
Daeth lludded a'i galed gur
I mewn atom i'n natur;
Dyna 'r dydd aeth defnydd dyn
Yn fethedig fyth wed'yn:
E fu 'r oll o'i lafur o
Yn geryddol gur iddo.

Yn wyneb pob rhyw anhwyl,
Onid gwych yw diwrnod gwyl?
I ddodi nawdd adnewyddiad
I egwan llesg yn wellhad,
Drwy orphwys o bwys hir boen,
Er diwedd ar y dihoen;
A gweini meddyginiaeth
I atal cur natur wnaeth;
A lladd effeithiau lludded,
Y mwyth hwn oll ymaith 'hed;
Boreu Llun pawb ar wellhad
O dan wedd adnewyddiad,
Wynebgryf mewn bywiogrwydd,
Tra 'n neshau at drin eu swydd;
A'u dillad yn myn'd allan,
Crysau a boledau 'n lan,
Yn barchus bawb i'w orchwyl
Awchus aent mewn iachus hwyl.

Yn ail daw yn ol y dyn
Iach gysur ych ac asyn,
I'w cyrff rhoi'r adeg gorphwys;
I'r ych gael o rych y gwys
Ei foch rwym o faich yr iau,
A dattodiad y tidau,
A myned a'i galed gur
I'w welyfod o'i lafur.

Yr un fath y Sabbath sydd
Yn wyl hyd ein heolydd,
Ni esyd un ei asyn
Ar waith, i daith nid â'r dyn
Y dydd hwn, rhaid iddo ef
Edrych am aros adref;
Melus i garnau 'r milyn
I arbed gwaith yw'r byd gwyn.

Deddf y Llywydd sydd yn sail
Er nefoedd i'r anifail;
Dymunawl ydyw 'r mwyniant,
A chymhwys yw'r gorphwys gant.

Gwthier pob offer gweithiaw
Heddyw yn llwyr o'dd ein llaw;
Y ddaneddog ôg o'i gwaith,
Y drol a'r aradr eilwaith,
Gwibier hwynt y gaib a'r rhaw,
Na ddalied dyn a'i ddwylaw;
Offer gwaith na chaffer gan
Ennillwyr cyflog allan;
I gwr llwyn a fo gerllaw
Ar rybudd rhoi'r hwy heibiaw;
Ymdrechir at loewi 'r wlad
Oll trosodd ar well trwsiad,
Golchi fydd o gylch a'i fath
Yn syber cyn y Sabbath:
Mae yn nhuedd menywod,
Yn agos bawb, geisio bod
Yn treulio 'u nerth trwy lanhau,
Yn addurn eu hanneddau,
Y Sadwrn a osodir
I drin y tai drwy ein tir;
Yn ceinio 'r rhai'n cyn yr wyl
Anerchant hyn o orchwyl,
Adferiad i'w difyrwch
Yw harddu 'r lle, hyrddio 'r llwch.

Ow! nid yw dydd y Duw da
I'r dynion at rodiana,
Y gweilch balch o gylch y byd
Yr unfodd a'r rhai ynfyd,
Gwamalant yn gymylau,
Ddynion ar neges'on gau,

Yn rhif mawr hyd lawr y wlad,
Hyll yw eu dull a'u dillad;
Difoes tost hyd faes y tir
Yw'r ofera arferir;
Segura'i maes a gorwedd
Yn rhydlyd, gysglyd eu gwedd;
Yn debyg i rai dibarch
I Dduw Iôn, ei ddydd a'i arch.

Torf arall ynt arferol
Flasu aberthu i'w bol;
Mynu gloddest mewn gwledda,
Yn gynar darpar y da;
Mynu deg mwy na digon
Goreu a bras ger eu bron;
Ymroi at gael amrywiaeth,
Cydbwys a chymhwys i'w chwaeth;
Ni thâl ond y detholiawn
Yn faeth i'r arlwyaeth lawn:
Dyna fwriad niferi
Weithion o'n boneddion ni.

Pwynt teilwng mewn penteulu,
Gwellhad drwy'r arferiad fu,
Yw mynych edrych ar ol
Ei holl eiddo 'n llywyddol;
Rheolau da ar aelwyd,
Tad a mam yw'r cam a'n cwyd;
Llaw y rhai'n all lywio'r oes
O'i thynfa at warth anfoes;
Rhoi halen mewn rheolaeth,
Gan y tad yn wastad wnaeth;
Angori ei gyngorion
Ar eu hyd i fryd y fron;
Llad drysor lled arosol,
Ydyw 'r rhai'n o hyd ar ol;

Wrth fagu mae dysgu dyn
I'w ddodi yn dda wed'yn:
Arweiniad doeth rhiaint da
Yn ddilyth fyth ni fetha.

Lluniad hen llawn daioni,
O lys nef ddyd les i ni,
Yw'r dydd Sabbath rhaid addef,
Dwthwn yw dan fendith nef:
Mynai Duw er mwyn y dyn
O'i hynawsder lawn estyn
Iddo fanteision addas,
Yn ol ei waredol râs.

Bendigai, santeiddai 'r Tâd
Y dydd hwn er dyddaniad,
Drwy fod yn ollyngdod llawn
I deulu y duwioliawn;
Yn ddiau Iôn addawodd
Roi ysbrydol nefol nawdd
Ar ei ddydd, er cynydd cu
I râs canlynwyr Iesu.
Dydd rhyddid—heddyw roddir
Fwyniant teg o fewn ein tir;
Rhaid agor gwaredigaeth
Y dydd hwn o'r diwedd ddaeth,
A rhoddi pawb yn rhyddion
Drwy 'r wlad ar alwad yr Iôn:
Ni faidd un anufyddhau
I Dad yr awdurdodau,
Y mae'r alwad mor helaeth,
O enau Duw ini daeth;
Pob graddau, pawb gyrhaeddir,
O'i waith Ef ar fôr a thir.

Dirif lu yn dyrfa lawn
O'u gafaelog ofalawn:

Y caethion a'r gweision gwaith
Clöedig mewn caledwaith,
Daw gwarant Iôn digerydd
I ddwyn y rhai'n heddyw 'n rhydd;
Y dwthwn hwn cyd-deithiant,
At Iôn i Sion neshant
Gwŷr o achau goruchel,
D'ledog a chyfoethog fel
Eu gilydd, o un galon,
Aml eu rhif yn moli 'r Iôn;
Drwy gydfod mewn cymod cu,
Ni flinant ei foliannu:
Yn gynes hwy gydganant,
Dybl'u cynganeddu wnant;
Duw Iôn eu plaid yn eu plith,
O'i fwynder yn rhoi 'r fendith.

Dyma'r dydd dedwydd y daeth
Anwylyd y ddynoliaeth,
Yn foreu mewn rhwysfawredd,
Hynod wyrth! o byrth y bedd,
I wlad hedd o'r cyntedd cau,
Yn flaenaf o filiynau;
'Nol gorphen diben ei Dâd
Yn ei fwynaidd anfoniad;
Weithion ei elynion lu
E ddichon eu heddychu,
A'n dwyn ni a Duw yn ol,
Drwy ei Iawn yn dra unol.
Drwy 'n tir arwyddir heddyw
Godiad byd drwy Geidwad byw:
Yn nghol hon Efengyl hedd,
Trwy agoriad trugaredd,
Buan daeth y bendithion
Yn mhob modd addawodd Iôn;
Nwyfau gras efo groesaw,
Drwy rad arlwyad ei law,

Yn ddibaid at raid y tru,
A ddeilliant i'w ddiwallu.
Marchnad i wlad o d'lodion,
Mewn gair, yw arwyddair hon:
Ni thal aur i'w thelerau,
Na da byd i gyd rhai gau;
Ond perchen angen enaid
A dderbyn yr hyn fo 'n rhaid;
Llawnder ar gyfer gofyn,
Esyd Duw at eisieu dyn.
Gresyn na b'ai gwir eisiau,
Er mawl Iôn yn tra amlhau;
Gydag awch i gyd-gydhwyn
Yn un llu holl deulu dyn,
I brynu bara enaid
Gan Dduw 'r hedd,—digonedd gaid:
Dwg heddyw adeg addas
I enyn gwraidd anian gras;
Ac i ffydd rhyw newydd nerth
Fydd i'w hadenydd dinerth;
Hamdden yn nghanol penyd,
Goflin boen gofalon byd.
Enyd fer i'n difyru
Yn ngwaith Iôn a'i gyfraith gu;
O fynych gynefino
A'r byd, a'i ddull enbyd o,
Yr ydym yn ein rhodiad
Yn llaesu gwedd mewn llesgâd:
Ymboeni yma beunydd,
Trapherthu nes fferu ffydd;
Bydoli 'r bywyd eilwedd,
Dirywio, gwywo 'n mhob gwedd;
Gwaelu o ben bwy gilydd,
Anwech daith yn y chwe' dydd;
Ond dwthwn i'n gwrteithiaw
Fydd y seithfed ddydd pan ddaw;

Gwres adwedd grasau ydyw,
Nawdd i bob rhinweddau byw;
Gwiw enaint meddyginiaeth,
Yn ei gôl i dduwiol ddaeth;
Cawn flâs ar gymdeithasu
Gyda 'r saint ein ceraint cu;
A sail am ail ymweliad
Yn y tŷ o wên y Tad:
Ar ei ddydd er dedwydd dâl
I drueiniaid yr anial,
Egyr ddrws trugaredd rhad,
Ag arogl gwin ei gariad;
A dwg i'r golwg eilwaith
Arlwy gwledd diwedd y daith;
Nes dwyn ffydd ar newydd naid,
Ar well hoen drwy 'r holl enaid.

Bryd y derfydd rhoi dydd Duw
I'w drin dan draed yr annuw?
Drwy gynal pob drygioni,
Gwrthyn iawn—gwarth yw i ni;
A chamu dros orchymyn
Rheol Duw ar ol y dyn.

Tueddiad at santeiddio
Deddf fy Nuw yn fyw-reddf fo
Yn dy was, a dewisiad
Weithion o ddwy fron ddi-frâd,
I'th garu 'n saith gywirach,
Dros enyd y bywyd bach.

## AWDL AR ADGYFODIAD Y MEIRW.

Tyred awen tua 'r diwedd,—i roi,
Wrth reol gwirionedd,
Hanes amlwg mewn symledd
O'r adgyfodiad o fedd.

Ha! wirionedd rhyfeddaf,—yn ddiau
Ei ddeall nis medraf;
Eto ei anwylo wnaf,
Duw mwyach nid amheuaf.

O ddyn! diderfyn yw d' yrfa,—ni ddaw
Byth ddiwedd i'th redfa;
Dy bechod ni'th ddifoda,
Angau 'i lid dy newid wna.

Dy eni i bob dihoenedd,—gefaist,
Drwy gyfyng anhunedd;
Wyt hefyd yn etifedd
I wae 'r byd angau a'r bedd.

O! bechod wyneb uchel,
Y rhwygydd dig'wilydd, gwel
Y brad tost wnaethost yn ol,
Trwy ddwyn y natur ddynol
I gyflwr euog aflan,
Ochus fodd heb iachus fan,
Drwg geir o'r traed i'r coryn,
Diried yw dirywiad dyn;
Ar dy ledol marwolaeth
A'i ddychryn ar ddyn a ddaeth.

Och! o farwolion weithion a wthiwyd
I fol y ceufedd, rhyfedd a rifwyd

Deiliaid pob gorawr, i lawr faluriwyd
A'n haml deyrnau, o'u seddau ddiswyddwyd,
Yr holl oesau arllwyswyd—i'w beddau,
I ogof angau hwy a gyfyngwyd.

Prysuraf, af i ofyn
Mewn syndod am wybod hyn:
A'i yn eu beddau 'n drag'wyddol byddant,
Gaethion angau, wrth rwymau 'i orthrymiant,
Yn mherfedd y graian, fan difwyniant,
Oll yn dawel, oer isel arosant:
A'i yno i ango' ant,—farwol haid,
A diobaith ddeiliaid, y bytholant?

Nage yn ddiau, rhyw forau adferir
Yspail angau, a'u rhwymau ddirymir;
Yr holl farwolion yn rhyddion roddir,
O diroedd a moroedd fe'i cymerir
I fyny, ac fe unir—eu sylwedd,
I loewaf adwedd fe'i hail fywydir.

E all llaw y Duw Hollalluog,
Er ei fawl yn wyrthiawl a nerthog,
Alw ar y meirwon maluriog—o'r llawr,
Hen gwsg orawr dynion gwasgarog.

Sylwaf hyn, mai sylfaenol—oreunaws
Wirionedd Crist'nogol,
Yw 'r adgyfodiad o fol—daear dòn,
Lawn o feirwon, i le anfarwol.

Diwrnod mawr rhyfeddodau,—tra hynod
Trwy anian yn ddiau;
Llawn bygythiawn ac aethau,
Fydd y dydd sydd yn neshau.

Nerthcedd y nefoedd yn wir
Yn wasgedig ysgydwir;
Hen safle 'r byd hwn syflir—bob rhan,
A chaerau anian a ddychrynir.

Arwyddion mawrion gymerant—le, drwy
Wlad yr awyr ddiflant;
O'r wybr y sêr a brysurant,
I wyll angof ymollyngant,
Yn eu rhodau mwy ni rhedant,
A'u cylchoedd oll yn awr gollant:
Yr haul a'r lloer addoer ant,—a diwawl
Yn hollawl tywyllant.

Rhyw nodau dychrynedig,
Dangosawl o ddwyfawl ddig,
Fel hyn geir yn rhagflaenu
Wyneb twn y dwthwn du;
Gofwyawl olygfëydd
Uwch ben drwy'r ffurfafen fydd;
Annedwydd ddefnydd ofnau,
Mil o hwynt yn amlhau;
Elfenau olaf anian,
Awyr a thir, dŵr a thân,
Yn awr aent o'u deddfau 'n rhydd,
Tawdd geulant idd eu gilydd;
Ac arswydus groes ydynt,
Angherddawl elynawl ynt,
Gorafaelawg ryfelant,
Mewn terfysg yn gymysg ant.

Och! arswydus ac ofnus gyfnod,
Gwedd ddieithr olwg ddaeth ar waelod,
Yn ddiochel fel oddiuchod,
Yn llwyr dd'rysu llu 'r ddaear isod;
Nodwedd y diwedd sy'n dod,—hyn welir,
'N awr addefir fod barn ar ddyfod.

Mewn twrw mae naturiaeth
Dan gur y creadur aeth,
Anifail a dyn hefyd
Fel hyn bawb yn flin eu byd,
Gan ddychryn yn erfyn ar
Hen dewion haenau daear
O'r golwg eu dirgelu,
Rhag trallod y diwrnod du:
Gwaeddant am le' i ymguddiaw,
Ymwylltant, brysiant mewn braw,
Heb lan na man na mynydd
I neb ffoi lle na bo ffydd.

Caf ferw yn mhob cyfeiriad,—hynodawl,
Ofnadwy ddysgwyliad;
Rhyw annedwydd, newydd nâd,
Yn gwysio 'r ymddangosiad.

Wrth weled gwyrthiau olaf,
A chyhoedd fawr nerthoedd Nâf,
E dreuliai daearolion—a'u gallu
A gollant bawb weithion;
Ant fel us arswydus sôn,
Yn llegach mewn llewygion.

Wedi dangos a gosod—arwyddion,
Mawreddus o'r diwrnod;
Wele 'r angel di del yn dod,—gyda brys,
I roddi 'r wys i'r ddaear isod.

Udgorn floedd yn cyhoeddi
Derwyn groch daranawg gri,
Trwy' r wybren uwch ben y byd
Yn ddidaw, gan ddywedyd,—
"Deffrowch weithion rai llonydd,
O'ch cyflwr caeth, daeth y dydd
Olaf hwn i ail fywhau
Diyngan ddeiliaid angau.

O'r gwely obry dadebrwch,—oer fan
O'r fynwent prysurwch;
Trwy y llawr o'r tyrau llwch
Mewn enyd ymuniawnwch.

Diengwch ddeiliaid angau,—agorwyd
Eich geirwon garcharau;
Ewch ar edyn o'ch rhwydau
I well byd i arall bau."

Drwy y floedd o'r moroedd daw'r meirwon,
A rhaid dinoethi 'r tònau weithion;
Chwilir dyfroedd y llynoedd llawnion,
Daear a gwaelod ei dirgelion,
Gwysir, hebryngir ger bron—mewn eiliad,
Efo'r alwad yr holl farwolion.

Chwilir a dadymchweliad
Weithian i gladdfau pob gwlad,
Mynyddoedd, llanoedd, llwyni,
Daear a'i holl dyrau hi;
O'r ffosydd a'r cernydd cau,
Ac hefyd o'r ogofau;
Rhaid dwyn pawb o'r had dynol
I'r wyneb, heb neb yn ol;
Aneirif lu, deulu dyn,
Bywydir hwy bob hedyn.

Ail fynir o'r elfenau—niferoedd
O farwol sylweddau;
Lliosog yr holl oesau,
Y dydd hwn i'w hadweddhau.

Daw allan o'r pridd-dyllau
Adda a'i had, gadd eu hau
Yn gynar is daear don,
I glöedig waelodion;

Cynyrch oesau borau 'r byd,
Hen brifion ein boreufyd ;
Dyladwy deulu Eden,
Fu ar eu prawf efo 'r pren,—
Adda ac Efe gyfyd,
Yr hen bâr rhieni byd,
O garchar daear deuant,
Eu trwsio a'u gwisgo gant ;
Cant afael eu cyntefig
Anwyl gyrph, yn ail i gig ;
Y waedd hon wna ddihuno
Pob byddar is daear do.

Daw newid i dŷ Noah,
Ar ei wyth a'i dylwyth da ;
Yr ail had ar ol i hau,
Y gwledydd a'u treigliadau ;
Llwyr buro nid llai 'r bwriad,
A throi y llwyth ar wellhad ;
A lledanu gwell dynion,
Ddiwair had i'r ddaear hon.

Bedd Moses heb hanes oedd,
Arosai hyd yr oesoedd ;
Ond ha ! wela dyma 'r dydd
Eir i mewn Hor y mynydd,
Olreinir i le 'r Ynad,
Yr enwog gadeiriog dâd,—
Efe ei hun 'nol ei fywhau,
Ddaw allan o'r priddellau.

Fe ddodwyd aml fedd-adail
Ar dir na syflir mo'i sail
Am oesau yma isod ;
Di ddiwedd bron hyd ddydd brawd ;
Anfonent hwnt am fynor
I dir y'mhell draw y môr ;

E fynir dysclaer feini
Godidog ac enwog i
Adeirio coffadwriaeth
Dynion am orchestion chwaeth,
Neu am bypyr filwyr fu
Gwroniaid, wnai 'r byd grynu:
Mynegant am enwogion
Oedd ar hyd y ddaear hon
O oes i oes, dangosant
Enwi, a dynodi wnant
Fod yno yn fud danynt
Y sawl fu 'n rhagorawl gynt;
Ond ysywaeth daeth y dydd
Agorir eu magwyrydd,
I gael y gwŷr digwl gynt,
Y dynion roddwyd danynt;
Ei lef lôn wna ail fywhau
Y fonwent a'i therfynau.

Y meirw yn Nghrist a gymerant—y lan,
  Yn flaenaf deffröant;
O gwsg unig esgynant,
Ac i ŵydd eu Harglwydd ant.

Fal llu aneirif a llawen,—yn bur
  Mewn bwriad a diben;
Ant yn awr i bwynt y nen,
Yn eilfyw o'r un elfen.

Bydd unwedd y byw ddynion,—yr had da,
  Rhai duwiol a ffyddlon;
Rhyddheir hwy o'r ddaear hon,
A thŷr eu llyfetheirion.

Diniwed gant newid gwell,
Heb wibio o'r hen babell,
A dringant, nid drwy angau,
O fol byd i nefawl bau:

Duw Iôn wiria dynerwch
Ei air yn lle eu troi 'n llwch,
Yn ol rhyw ryfeddol fodd
Ar d'rawiad hwy wneir drwyodd.

Heb y dreth heibio i drothwy—y bedd,
Lle byddai mawr dramwy;
Adre ant,—trwyddedir hwy—i ganol,
Byd awyrol, i arbed dirwy.

Rhyfeddawl y cyfarfyddant—a'u Rhi,
I'r awyr esgynant;
Ato 'n ddiofn ëofn ant,
A gwedd ei olwg ddaliant.

Bythol ddefnydd pur lawenydd
I'r gweis dedwydd yw 'r gwastadol;
Unol foliant mewn nefol-dant,
Tyner fwyniant annherfynol.

E fydd y dydd diweddaf
Yn gyhoedd fawr nerthoedd Naf;
Efe wna ddwyn i fywyd
Yr holl oesoedd, bobloedd byd;
Caiff Addaf eu cyff heddyw
Ddrych llawn o'i feibiawn yn fyw.

'Fe wel eu rhif fel yr ôd,
Ei had ef oll yn dyfod,
Yn ddynion newyddion wedd,
O fol ceufedd fel cafod.

Eu naturiol blant a'i ŵyrion—y rhai 'n,
A'r holl ddiscynyddion;
Dirif fydd y dyrfa hon—o bobloedd
Yr holl oesoedd, yn eu harllwysion.

Darluniad o'r ail unaw
Arnom fydd, rhyw ddydd a ddaw:

Daw 'r enaid o ryw annedd
Bell, lle bu at bwll y bedd,
A'i ddiwyg, os yn dduwiawl,
Fydd oll drosto 'n gwisgo gwawl.
Dwyn boddus gydnabyddiaeth
Wna a'i gorff, oedd gynau 'n gaeth ;
Eu golwg ar eu gilydd
Unol faith anwylo fydd.
Craff drasir y corff drosodd,
Blaen ac ol drwy fanol fodd ;

Mynir gweled mewn argoelion—didwyll
Ryw nodedig brofion
Mai ail ŵr o'r malurion—gyfanwyd
Ac a eilfyddwyd o'r gwael foddion.

Llawn gyfyd llawen gofion—enynawl
Pan unir y person ;
Manylir am hen olion
Hyd y corff yr adeg hon.

Ail edwyn gŵr aelodau
Ei gorff gynt, heb argraff gau ;
Y tafod bach cyntefig,
Yr aelod barod ei big ;
Byw archoll gadd ei berchen
Lawer pryd o'i swrthlyd sen ;
Ond er hyny cawd rhinwedd
Aml dro, o hono a hedd ;
Annerchodd a'i wan eirchion,
Ei lais aeth hyd at lys Iôn ;
Dadleuodd, do, do lawer—
Gordaeru wnaeth ger dor Ner ;
A llwyddodd ei holl weddi,
Daeth i'w rhan ei hamcan hi.
Ganddo mwy i'w foddio fydd
Diniwed dafod newydd.

Rhaid tynu 'i lawr y tŷ 'n lan,
Er gollwng y drwg allan.

Y tŷ i fyny fynir—yr adfail
Drwy ddrudfodd gyfodir
Muriau hwn, 'nol tymhor hir,
I fawredd fe'u hadferir.

Awdurdodol ydyw 'r Duwdod—nerthawl
Dan wyrthiau 'r diwrnod;
Yr hyn a fyn gaiff fod—mewn llywodraeth,
Yn nydd ei arfaeth, yn ddiorfod.

Gwaedd y farn yn gyhoedd fydd
Yn dod drwy dafod Dofydd;
Yr orwaedd hon gyrhaedd hyd
Pob lle bu pebyll bywyd;

Yr ail dorf, ar ol darfod—i'r cyfiawn
O'r ceufedd fyn'd uchod,
Yna, wela, dyrfa 'n dod
Yn olaf o'r hen waelod.

Ow! wele 'r annuwiolion,
Rhy fyr o barch, dyrfa 'r bôn,
Yn gofidus gyfodi,
Ac yn gorfod dyfod i
Farn, yn euog lwythog lu,
Dan bechod yn ebychu;
Yn ddynion gwelwon eu gwedd,
Dan arswyd lôn a'i orsedd.
Yna bydd Barnydd y byd
Yn adrodd hyn o dded'ryd—
"Ewch ar unwaith, chwi 'r anwir,
"I drom gosp, a dirmyg hir:
"Wynebwch i anobaith,
"Cewch yno gyflog eich gwaith;
"Ond deuwch chwi y duwiol,
"Weithian yn fuan ar f'ol;

"Meddienwch yma ddinas,
"Araul le uwch awyr las."

Ha! newydd da, dyma 'r dydd
Y gwelir gyda 'u gilydd,
Y duwiol nefol nifer,
Tyrfa y saint rhif y ser.
Ni feddant was anfuddiol
O ran ffydd, na morwyn ffol
Yn eu mysg, digymysg ynt,
Grasyddion y groes oeddynt;
Yn siriol heb ol y bedd
A'i hir gwsg ar eu gosgedd;
Eu dwyn gant o dan y gwys,
A'u hail gyrff ar ol gorphwys
Fyddant mewn nwyfiant nefawl,
I lan mwy 'n delynau mawl.

Rhai gwresog bywiog buain
O ufudd radd fydd y rhai'n;
Yn edrych o'r un oedran
Bob wyneb, heb neb yn wan;
Yn sanctaidd hoenus ie'nctyd,
A'u grym yn gyflym i gyd.

Dyna 'r byd yn awr i ben,
A dynoliaeth dan haulwen
Wedi darfod bod a byw
Yn ddaearawl y ddeuryw.
Y ddaear werdd, rhyddheir hon
O'i gofwyawl wasgfeuon;
Yr hen fam yr hon a fu
Yn doeth wylied ei theulu:

Gofalodd, dug fywioliaeth—darbododd,
A hiliodd yn helaeth;
Bronau llawn, dibrin eu llaeth
Fu yma i'r hen famaeth.

Ond erbyn hyn, dihoenwyd
Ei grân, a'i llun geir yn llwyd
Drwy henaint—aeth ar waeth wedd,
A ffurfiwyd ffyrdd i'w pherfedd ;
Galwyd am ei golud hi,
A thynwyd o'i gwythieni.

Esgorai 'i hymysgarodd—aur gyfoeth,
    Ar gyfer y bobloedd ;
Meini hon a'i mwnau oedd
Yn drysor hyd yr oesoedd.

Erbyn hyn i derfyn daeth
Eisiau hon, a'i gwasanaeth
'N ol cwblhau bwriadau 'r Iôn,
A llenwi ei gynllunion,
Aeth yn ol andwyol dŷ
A'i noethder fel hen weithdy.

    Yn olaf, hyn a welir
Fel dwyfol sylweddol wir,
Nid breuddwyd hynod bruddaidd,
Neu ddameg gron, ddim ei gwraidd,
Neu gân, ar ol ffug hanes
Wag destun heb lun o les ;
Ond gwirionedd digrynu,
Nerthawl, a sylfaenawl fu.
Defnydd ein cywydd a'n cân
Linellwyd ar len allan,
Gan fwriad o darddiad da,
I werth enaid berthyna.

## ARIANGARWCH.

Y GWIR am ariangarwch—o'i borthi
Aberthir llonyddwch;
Drwy grafu a llyfu 'r llwch,
A dioddef annedwyddwch.

Egwyddor ddidor ddodwyd—yn nheulu 'r
Ddynoliaeth pan bechwyd;
Rhyw ysol gynnyddol nwyd
Yn wreiddfyw ynom reddfwyd.

Diball, anniwall newyn—yn awydd
Egniol ddiderfyn,
Chwanog fyw, ychwaneg fyn,
A mwyfwy yr ymofyn.

Drwy goledd y drwg eilun—gwae i ŵr
A garo 'r fath gynllun,
Ol ei " law," ei ddelw, a'i lun,
Rydd eurliw ar ei ddarlun.

Yn lle bod yn llai bydol,—a newid
Yn niwedd oes ddynol,
Mae 'r duedd ryfedd ar ol
Ei heneiddio 'n gynnyddol.

Swyn erys yn swn arian—yn rhywfodd,
O'u trafod a'u tincian;
O honynt ceir, mwyniant cân,
Am ddyddiau i ymddyddan.

Blys rhyfedd yw 'r blas ar rifaw—yr aur,
A'r arian, a'u lleisiaw;
Mwynhad i'r llygad a'r llaw
Yw eu symud a'u swmiaw.

Y dyn suddo dan wasyddiaeth—arian
Gan arferu ocraeth,
Yr un gŵr a wneir yn gaeth
I'r eilun a'i reolaeth.

O'i fodd y dyn ni feiddia—hyd agos
Roi digon i'w gylla;
Arbed, nid gweled gwala
Rhaid addef, fydd ef o'i dda.

Un o flaenaf elynion—y duwiol
Yw 'r duedd ddiddigon;
Marwhau y dymer hon
Hyd elor, wna duwiolion.

Dwyn golud yn y galon—ysywaeth,
A groesawi 'r mammon;
Am eu ffydd ni rhydd yr Iôn
Fyth enw i'r fath ddynion.

Un o lanaf eilunod—y duwiol
Yw 'r dewis gudd bechod
Yn wir fai, prin gwneir ei fod
Er rhoddi arno 'r ddyrnod.

Nid yn llai na bai mewn bywyd—duwiol
Yw tuedd gybyddlyd;
Gwirir byw ar garu 'r byd
Yn hunanbeth sy'n enbyd.

Lle byddo gras, llabyddir—ei fwyniant
A'i lwyddiant a leddir;
Pob rinwedd a'i anwedd îr
Fodd heinif a ddihoenir.

Difrodir da fwriadau,—byr roesaw
Ga'r breision rinweddau;
Mynu gwel'd wna 'r mammon gau
Groes osod y grasusau.

Y ddelw aur, haeddol yw hi—i'r golwg
Ar gael ei haddoli;
Dilyn hon sydd dâl i ni,
Mor rwydd ymgrymir iddi.

Byw ar gyfoeth lle bo'r gwyfyn—oesawl
Yn ysu y gwreiddyn;
Nid yw hwna dda i ddyn,
O'i gael mae iddo golyn.

Gwylio, gweddio yn ddiwyd—fyddwyf,
Gan feddwl am eilfyd;
Fy ail beth fo hel y byd,
Ei gyfoeth, a'i rwysg hefyd.

Mae golud llawn ymgeledd—a'i deithi
Yn gweini digonedd;
Cynar bwyf, cyn awr y bedd
Gyfranog o'i fawr rinwedd.

---

## DIWEDD OES.

Diwedd oes, a dyddiau haf—fy einioes
Derfynwyd, daeth gauaf
Weithian, rhyw wan gyfran gaf,
Y rhelyw a'r rhai olaf.

Y dyddiau gorau hawddgaraf—gollais,
Argyllaeth a deimlaf;
A than haul, byth ni welaf
Ond rhyw weinion olion haf.

Craff unwaith mewn corff heini—heb wendid,
Buander ro'w'd imi,
Pob llafn yn ysgafn wisgi,
Adail un ddi ail oedd hi.

Darpariaeth Duw yw 'r peiriant—hwn gefais
Yn gyfan i'm meddiant;
Er gwellhau rhwygiadau gant,
Iddo ymwthiodd methiant.

Af i arwel'd gwedd forau—fy wyneb
A'i fanwl rosynau,
A gwreiddiol gochni 'r gruddiau
Yn gwbl hardd, ac heb leihau.

Yn wridgoch fochgoch fachgen—e'm gwelwyd,
A'm golwg yn llawen,
Heb archoll, ac yn berchen
Eurawg bert fodrwyog ben.

Erbyn heddyw mae 'r boneddwr—yn un
O wahanol gyflwr;
Olion gaf, ac eilun gŵr
Yn anhoenus wan henwr.

Gwaelu, y gallu gollwyd—a rhanau
O'r wyneb groengrychwyd;
Weithion y lliw aeth yn llwyd,
A chyn harddwch anurddwyd.

Ond bellach waethach mae weithion—genyf
Ryw genedl o ŵyrion;
Gwaeth eilwaith seithwaith yw sôn
Rhai ereill yn orŵyrion.

Cysgodau 'r oriau hwyrol—rhai diflant
Daenasant yn nosol;
Cymylog, niwlog yn ol
Yw 'r nen, a'r awyr nawnol.

Weithion argoelion gwaeledd—a daenwyd
Hyd wyneb fy annedd;
Diffygio, gwywo wnaeth gwedd
Ei thegwch i waeth agwedd.

O radd i radd arwyddion—ymwasgant
    Drwy 'm hesgyrn, a'm dwyfron;
  Ar bob llaw mae 'r babell hon
  O rywle 'n colli 'r hoelion.

Fy nod, fu oes fy nhadau—i'w chwenych
    Gychwyniad fy nyddiau;
  Wedi 'r terfyn hyn gwblhau
  Maes arall yw 'r mesurau.

Wrth edrych o barth oedran—i feini
    Y fynwent sydd yman,
  Gwelaf enwau degau dan
  Sef hanner oes fy hunan.

Mor deneu y mae 'r dynion—gwronfawr
    Digrynfeib talgryfion
  A welwyd hyd y wlad hon,
  Ar y maes yn rymysion.

I'r golwg daw argoelion—y diwedd,
    A'i dywyll beryglon;
  Mi welaf yr ymylon
  Dieithr yw, y daith hir hon.

Brysio myn'd heb aros mwy—yr ydwyf
    Ar redeg i'r adwy;
  Rhyw sugn draeth yw 'r esgyn drwy
  Ow! fynediad ofnadwy.

Mwy fy nghan am fy nghynal—aroso 'n
    Fawl gwresog a dyfal,
  I fy Nuw, fel am fy nal
  Hir einioes yn yr anial.

Byw 'n annoeth erbyn henaint—a methwedd
    Yw maethu blys gymaint;
  Mynu 'r da i'r min a'r daint
  A'u harfer i ryw orfaint.

Byw gwaeth a mwy bygythiol—yw bywyd
Heb awydd byw 'n foesol ;
Byw di nerth yw bod yn ol
Heb duedd bywyd duwiol.

Dyna nôd dyn annedwydd—a therfyn
Chwith yrfa y diffydd ;
Troi 'n hindda tua 'r nawnddydd
Cofier siom i'r cyfryw sydd.

Anafus fod fath nifer—drwy helaeth
Wag dreulio eu hamser,
A'u nwyfiant, oll yn ofer
Yn di foes fyw einioes fer.

Gwrthwyneb i'r gwarth yna—y treuliais
Trwy wylied fy ngyrfa ;
Dilyn ol y duwiol da
Yn dwym a wnes hyd yma.

Da genyf yw 'r digonedd—a gefais
O gyfoeth a mawredd ;
Rhoddion Duw, arwyddnod hedd
Anfonwyd i fy annedd.

Boreu einioes a brynwyd—a gwrol
Weithgarwch arferwyd ;
I'r tŷ fe barotöwyd
O dda 'r bol yn ddwr a bwyd.

Mab diolch mwy heb dewi—a fyddaf
Hyd fedd yn ddiedwi ;
Afrifed yw 'm dyled i
Dduw anwyl am ddaioni.

Da genyf fod ugeiniau—o nifer
Fy nwyfus flynyddau,
Y rhai gwrol a'r gorau
O dyner oed dan yr iau.

Cyfodi caf fy hyder—o well lle
Na llywiad fy amser;
Am y nef a'i mwyn nifer
Gwers fy nysg yw gras fy Ner.

Ar drothwy y môr draethell—y camaf,
Ac yma ar astell;
Diarbed daw o hirbell
Alwad o byrth y wlad bell.

Nid dymunol, ond rhaid myned—i'r daith
Ar y dydd er garwed,
Methu pallu er pelled
Y wys fawr ddiroesaw red.

Trwy henaint, 'n ol tirio yna—ar nawf
I'r nefol orphwysfa;
Seiniaf glod i'r Duwdod da,
Byth am y mawrbeth yma.

---

## AWDL MARWNAD SYR JOHN NICHOLL, O'R MERTHYR MAWR.

*(Un o brif foneddigion Sir Forganwg. Aeth i Rufain er mwyn iechyd, a bu farw yno.)*

Ergydion a rhwygiadau—y gelyn
Drwg olaf, sef angau,
A waelododd deimladau
Anhawdd iawn eu llawn wellhau.

Y wlad drwy 'r holl waelodion—un ydyw
O nodau hiraethlon,
Drylliedig gan drallodion;
Gwir galed yw tynged hon.

Syr John Nicholl rhagorol, y gwron
Helaeth ei etifeddiâeth a'i foddion,
Por rhyfedd enwog, un o'n prif ddynion,
A uchel safai ger rhai goreuon,
Heddyw sydd, anhawdd yw son—ar lawr bedd,
O risiau mawredd yn rhes y meirwon.

Dyledus yw adeiladu—ei enw
Wr anwyl drwy Gymru;
Ymrhoddodd i'n mawreddu,
Cywrain faen ein coron fu.

Adeiriwn goffadwriaeth—er ei fwyn
Ar faes awenyddiaeth,
O wir newydd saerniaeth—dyma dir
Da, i waelodi 'r adeiladaeth.

Y fad adeilad welir
A'i muriau heirdd dymhor hir,
A'i bri uwch meini mynwent
Goreu fedd Gwynedd a Gwent;
Ei thirion wedd ni thry 'n waeth
Hyd deiroes mewn cadwraeth.

Chwiliwn dilynwn holl du dalenau
Ystod ei fywyd gwastad, difeiau;
Awn, awn i faesydd ei lyfnion foesau,
Ddyn nodedig, lled ddi-wendidau,
A chawn mai hoff iawn coffau—y cyfan,
A geirio weithian ei ragoriaethau.

Y bobl o'i herwydd bawb a alarant,
A'u heilltion ddagrau yn rhydau rhedant,
Am ei wasanaeth yma soniant,
A'i ddiwael rinwedd a olrheiniant;
Ei lyfn oes ail fynwesant—yn helaeth,
Am ei farwolaeth mwy fwy yr wylant.

Colli Syr John weithion wnaeth
Ein dal a niwed helaeth;
Gorddoniog ŵr o ddeunerth,
Yma fu o'r mwyaf werth;
Fel un crafflym cyflym call
A mwy na dau mewn deall.

Meithion hanesion ei gymwynasau,
A hael wasanaeth ei elusenau,
Ei gyfryw hynodawl gyfraniadau,
Wrth eu hagoryd mewn iaith a geiriau,
Eu hyd a lanwant ein tudalenau,
O na feddianwn fil fwy o ddoniau,
Weithion i'w ffyddlon goffau—er mwyn cant,
O'r rhai ni wyddant am ei rinweddau.

Rhyfeddol mor ddynol ddoeth
E'i cafwyd yn trin cyfoeth;
Dawn i'w osod yn isaf,
Yn y gŵr yn enwog gaf;
Nid oedd rhwd y ddaear hon,
Na'i golud, yn ei galon.

Syr John Nicholl galon gig
A'i law frawdol haelfrydig,
Yn llyn gwnai ei hestyn hi
O'i lys hael i lesoli
Y gwael, drwy roi ymgeledd
Yn llaw y dyn llwyd ei wedd;
Diail ydoedd i dlodion,
Twymgar fu ei frawdgar fron.
Try 'r eiddil trwy ei roddion—yn siriol,
Mal yn nghanol mil o angenion.

Wele braff oruchel bren
Ar wedd y gedrwydden;
O dwf îr mewn hyfryd fan
Ar wastad rhyw wlad lydan;

A'i ysgwydd fry yn esgyn
I fol gwag y nifwl gwyn;
O dano llechai dynion,
Man i fyw fu min ei fôn:
I lawer o deuluoedd
Lle uwch swn, a'u lloches oedd.

Ond ar ganol ei der gynydd—hoewaidd
A'i fwyhäol ddefnydd,
Ar ol rhyw gaddugol ddydd
Rhwyga'i mewn ryw gymynydd.

Traws yrwyd trwy y siroedd—ar unwaith
Yr hanes i'r bobloedd;
Twrw ei gwymp heb attreg oedd
Drwst taran dros y tiroedd.

Niwed aeth a newid wedd
Dros wyneb dau dŷ 'r senedd;
Oernaws hallt yr hanes hon
Drydaniodd drwy y dynion.

Golud hir i'n gwladwriaeth—oll i gyd
Fu 'r llygeidiog benaeth;
Bywiol egniol y gwnaeth
Oes enwog o wasanaeth.

Doeth gynghorwr, cyfarwyddwr,
Hardd foneddwr, gwir ddefnyddiol;
Cynddrychiolydd, craff arweinydd,
A gwyliedydd llesiant gwladol.

I Rufain bell y rhwyfodd—yn achos
Gwan iechyd y teithiodd;
Ow! dyna 'r fan, dan arw fodd
Ar haner oes yr hunodd.

## CANU YR OES.

Cynwrf ar faes y canu,—y lleiswyr
Lliosog yn chwyrnu;
Rhoi poeredd o'u danedd du
Ar nodwedd y beirniadu.

Addfedir at eisteddfodau,—dysgir
Rhyw dasgawl garolau;
Mynent gael i'w mwyniant gau
Ledaenawl glod i'w henwau.

Cantorion Sion ysywaeth—aethant
Yn chwithig eu harchwaeth;
Rhyw wag swn yw 'r gwasanaeth
O'r ffurfiol dynol y daeth.

Celfyddyd i gyd yw 'r gân—ddolenog
Ddilynir yn mhobman;
Anianol yw 'r dynol dân
Wna sythu 'r fonwes weithian.

Darfu 'r hen ganu oedd gynt—o'n cyrddau,
Fu 'n cerdded pawb drwyddynt;
Cryfion awelon o wynt
Yn nyddu dynion oeddynt.

Teryll wastraff troi llestri—y cyssegr
Lle cawsant eu gloewi,
I olynol ail weini
Mewn diffaith frwntwaith di fri.

Llais melus at arllwys moliant—i Dduw
Ro'w'd i ddyn yn feddiant;
Cam arfer ei dyner dant
Wna luddias ran o'i lwyddiant.

Fe ddarfu 'r canu cynes—a glywsom
Drwy 'r eglwysi 'n frwdwres,
Y cynhenid wrid a'i wres
Mor fynych dwymai 'r fonwes.

Synwyr y gair, nid seiniau 'r gân—a geir
Y goreu mewn amcan;
Iaith enaid wrtho 'i hunan
A'i ferw lef a â i'r lan.

## Y CHARTISTS YN 1840.

Och! anferth hyll gychwynfa—ddialus
Wyddelig enynfa;
Rhyw ysol ddidraethol dra
Drwg welir hyd dir Gwalia.

Dynion a chyrn eidionau—heb g'wilydd
Bygylant wrth deiau;
Drwy chwerwon fygythion gau
Hyf frathant ein cyfreithiau.

Dinystrio, tanio ŷd dynion—Ow fradwyllt
Fwriadol gynllwynion;
Ni rhydd Duw in' ei roddion
Eilwaith hyd y dalaeth hon.

Bloeddiant a rhuant drwy 'r awyr—ogylch
Yn rhegawg derfysgwyr;
A phawb yn gryf a phybyr
Fel un gâd fileinig wŷr.

Iselant urddasolion—anmarant
Gymeriad ein mawrion;
A geiriau brwnt ger eu bron
Hallt wthiant eu melldithion.

Erchyll a theryll lythyron—yn fynych
Anfonant at ddynion,
Gyru heb bris ger eu bron
Y gwaethaf o fygythion.

---

## MYFYRDOD AR Y FLWYDDYN 1875,

*Ar ol yr holl lifddyfroedd dychrynllyd a gafwyd, a cholli bywydau dynion ac anifeiliaid lawer.*

Taith hirfaith at ei therfyn—eleni
Olwynodd y flwyddyn,
A rhag gwall un arall yn
Ddidalar dd'ai i'w dilyn.

Adran byr o oedran byd—a'r olaf
A dreuliwyd mewn bywyd
I lawer un welir hyd
Y ddaear heddyw 'n ddiwyd.

Adfeddwl o hyd fyddaf—ailweddu,
Y flwyddyn ddiweddaf,
Trin helynt yr un olaf
A'i throion geirwon a gaf.

Dinoethwyd ini weithion—e ddodwyd
Cuddiedig ddirgelion
Mewn golau, bwriadau 'r Iôn
Drist daenwyd am draws dynion.

Ow! ddifrod drwy lifddyfroedd—gorfodog
Ar fywydau canoedd;
Diluw dwr hyd y wlad oedd
Yn traws dori tros diroedd.

Ydau a gweiriau gariwyd—a phrenau 'r
Dyffrynoedd ddiwreiddiwyd,
Gan nerthoedd y llifoedd llwyd,
Hwy 'n ysgyrion wasgarwyd.

Anifeiliaid yn fyw eilwaith—yrwyd
Yn erwin wyllt ymaith,
I'r ddychrynllyd dyfrllyd daith,
Ardaloedd oer y dylaith.

Hoeddi mynych ddamweiniau—rhaid addef
Wna 'r dyddiol bapurau,
A dien pob pen o'n pau
Fawr lith o farwolaethau.

Llawer llinedd er y llynedd—roddwyd
I arwyddo annedd
O iawn barch ar wyneb bedd
Y gwŷr fydd yno 'n gorwedd.

Y cyflym ddeurym ddewrion—a gollwyd
Er gallu 'r esgeirion;
Gwŷr o fri a hawddgar fron
Gymerwyd i fysg meirwon.

Yn yr arch dan dywarchen—y fynwent
Wrth faner yr ywen
Rho'w'd nifer lawer dan len
Y llynedd oedd wŷr llon-wên.

Mae 'n debyg cyn myn'd heibio—ludded
Y flwyddyn hon eto
Ceir sôn am brifion ein bro
Adwaenem wedi huno.

Ar fyned yr wyf finau—i diroedd
Byd arall fel hwythau;
Buan y caf heb nacau
Fynediad at fy nhadau.

## GALWAD AR RIENI I ANFON EU PLANT I'R YSGOL SABBOTHOL.

Chwi dlodion, a chydwladwyr,
Rhy esgeulus wallus wŷr,
Yn rhiaint plant yrwan
Dowch i gyd gwrandewch y gân.
Annogaeth yw fy neges
Yn ddi lai weinydda les
Nodedig i chwi dadau,
Euog a llesg i'ch gwellhau :
Dal i adsain dyledswydd
Yn groch a gaf ger eich gwydd ;
A diau mae 'n eisiau 'n awr
Y gangen hon o gyngawr.

O ran meddwl dwl yw dyn,
A nesaf i'r llwdn asyn ;
Yn geni heb un gyneddf
Gyddffurfiol a'r ddwyfol ddeddf ;
Cysglyd, dioglyd wagle,
A dall yw 'r deall on'de ;
Y neuadd aur newydd hon,
Döwyd a lleni duon ;
Ni rhydd y pen arwydd pwyll,
Na dim i gyd ond ammwyll ;
Anaddfed yw 'r cyneddfau,
Gwyw eu llun heb eu gwellhau.

Wrth drin anferth drueni
Dyfnder cur ein natur ni,
Ac ystyried dyled dyn
I'w deulu fyddo 'n dilyn,
Yn olynwyr o'i lwynau
A dwyn y rhai'n dan yr iau,

O dadau, bellach doder
Pob dyfais ac ymgais er
Dwyn eich had (gwir fwriad fo)
I leoedd i'w goleuo.
A chychwynwch eich hunain
Yn unol ar ol y rhai'n ;
Na oddefwch i ddiafol
A'i ynfyd ffyrdd anfad ffol,
Fawr lwyddo 'i foreu luddias
Cynydd gwir grefydd a gràs ;
Angorwch eich cynghorion,
Yn ddiwyd i fryd y fron.

Wrth ini holi helynt
Modd y bu hen Gymru gynt;
Gwlad amddifad addefir
O foddion fu hon yn hir,
I weinyddu iawn addysg
Yn rhad er lledaeniad dysg ;
Dallineb du a'i llanwodd,
Tew anwybodaeth a'i todd ;
Ond yn awr hyd glawr ein gwlad
Caf nodau cyfnewidiad,
Moddion bwydo 'n gwybodaeth,
Mawl i Dduw, yn aml a ddaeth.
Cawn addysg a'i weinyddiad
Yn ddigon rhwydd, ac yn rhad.

I dlodion sefydliadau
O 'wyllys Ión i'w lleshau,
Yw 'r Sabbathol Ysgolion
I loewi tir y wlad hon ;
A rhoddi cywir addysg,
A chrefyddol dduwiol ddysg,
I'r i'engtyd i gyd o gylch
Egin ein cenedl ogylch ;

A'u dwyn i iawn adwaen iaith
Y Bibl anwyl bobl uniaith.
O dadau blin yw d'wedyd
Yn rhwth y bai wrth y byd,
Am ddiogi eich ymddygiad
Wrth geisio goleuo 'r wlad;
Anffyddlon mewn daioni
Ceir hyn yn eich erbyn chwi;
Ystyriwch, golygwch les
Tufewnol plant y fynwes,
I beri 'r rhai'n boreu 'r oes
Gychwyn o wanwyn einioes,
A'u tueddiad at addysg
O fwriad da i fawrhau dysg;
'N esgeulus i'w hysgoli
Un amser na chaffer chwi.
Gwasgu is wag esguson,
Ofer yw yr arfer hon;
A rhy wan, O rieni,
Plant ein gwlad yw'ch haeriad chwi;
Di ddal yn y dydd olaf
Par grynu wynebu Naf.

Ni byddai neb heb addysg,
Benyw na mab yn ein mysg,
Pe b'ai ffyddlon gyson gais
A thwymgar ddifeth ymgais
Yn dod i'w plith dadau plant
I ewyllysio llesiant,
I'w heiddo drwy roi addysg
Efo 'u dwyn i yfed dysg.

Eiddigedd am ddiwygio
Beiau mân yn fuan fo,
A newydd ymegniad
Drwy bob goror lanwo'r wlad.
Na fydded anufyddion,
Ar ol dydd yr alwad hon.

## Coffadwriaeth am
## Y PARCH. RICHARD THOMAS, LLYSYFRONYDD, MORGANWG.

*(Gweinidog parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn* 1852.)

Gwr didwyll o gredadyn—a fwriwyd
  At feirw y dyffryn;
Tristwch fydd o herwydd hyn
Hyd elor mwy i'n dilyn.

Hanes brawd dyn ysbrydol—hen weithiwr
  Fu 'n eithaf defnyddiol;
Hir esyd yn arosol
Effaith galar ar ei ol.

Arweinydd llu y Brenin—a d'rawyd
  Direol yw 'r werin;
Y dyn gwyl oedd anwyl in',
A faeddwyd yn y fyddin.

Bu 'n wrol fel banerwr—ar y maes,
  Grymysawg gâdlywiwr
Diarswyd, gwelwyd y gŵr
Yn uchel fel archfilwr.

Gorddoniog ŵr haeddianol—o lwyr barch
  Ar law 'r byd crefyddol;
O'i swydd ef pwy sydd o'i ol
Mewn oes yn fwy mynwesol.

Ymdreuliodd am dro helaeth—fel hynaf
  Flaenor i Drefnyddiaeth;
Dymhor hir yn wir e wnaeth
Oes hynod o wasanaeth.

Ail fawrhawn ei lafur hir—a'i wersi,
Gywir-sant drwy 'n brodir ;
At enw y sant yn y sir
Hyd eiloes parch a delir.

'Nol gorphen o'r hen arweinydd—ei oes
Yn gyson a chrefydd ;
Aeth i wlad perffeithiad ffydd,
O'r gwaeau yn dragywydd.

---

## Y FYNWENT.

Am awr yn mhlith y meirwon—hunedig
Yn synadwy weithion,
Myfyriaf, safaf i son
Am deulu y mudolion.

Lleferydd llu o feirwon—o ddeutu
Sydd ataf yr awrhon ;
Mud draidd eu hymadroddion
A'u naws oer i'r fynwes hon.

Arosaf rhwng y rhesau—i edrych,
Ac adrodd eu henwau,
Gan ddyfal ddal meddyliau
Ar y bedd, yr oroer bau.

O ryfedd pan y rhifaf—y dynion
Adwaenwn i gyntaf,
Y llechau 'n ugeiniau gaf
Yn dwyn eu henwau danaf.

Carem wybod b'le ceir meibion—y lle,
A'r lliaws gwyryfon
Bywiog, calonog, gleinion,
Deulu hardd yr ardal hon ?

Y lleinc ysgafn, lluniog, gwisgi,—weithion
Yn fawrion niferi
Heddyw sydd yn llwyr ddi si,
Yn llwch o dan y llechi.

Yr holl oesau arllwysant—eu dynion,
Hwy 'n feirwon a fwriant,
I fru y bedd erfawr bant,
Bro gyfyng ebargofiant.

Gorëang garchar angau,—lle gwthia 'i
Holl gaethion drwy 'r oesau;
Ac ar eu hol gwna sicrhau
Ei gryfion ddewrion ddorau.

Cawr blwng ni ollwng allan—o'i 'winedd
Yr hoenus, na'r truan;
Gwthia, gorfoda i'r fan
Yn gydradd ryw ac oedran.

Wrth yru i byrth hwyrol—ei garchar,
Bydd gwarchae egnïol
Gyda nerth i gadw yn ol,
Rhag trawsedd ei rwyg treisiol.

Ow! 'r llifoedd dwr a'r llefain—a gwaeddau
Y gweddwon bach druain;
Teimlad mawr yn rhwygaw 'r rhai'n
Dal hefyd i wylofain.

Tua 'r fonwent eir i fyny,—yn llesg
Y llysgant o'r lletty,
Dan lwyth bydd tylwyth y tŷ,
Wrth hebrwng i'r pyrth obry.

Prudd-der a dwyster dysto—y galon
Yn gwelwi wrth wylo;
Natur agos at rwygo,
Dan bwys yn arllwys ei Ho!

I'r fonwent cludir finau—rhyw enyd
Yr unwedd a hwythau;
Mae nos hir i mi 'n neshau,
Yn mhlith yr aml lwythau.

Yma isod am oesau—yn gwirio
Hen gerydd y tadau;
A natur dyn, bryfyn brau,
'N ail fyned i'r elfenau.

Hen warant Eden wirir—a'i chynwys
O drychineb deimlir;
Osgoi allan nis gellir
O gyrhaedd hon gerydd hir.

O! gyfoethog Grist'nogaeth—ti laniaist
Oleuni ehelaeth
Ar y bedd, y cyntedd caeth,
Hyll dywyll dir neillduaeth.

Y fynwent anghyfanedd—a'i cheule
A chwelir yn rhyfedd;
Cyfyd ail fywyd o fedd,
A dyn a edwyn adwedd.

---

## DIOLCHGARWCH I'R MILWRIAD EDMONDS, O'R BONTFAEN,

*Am roi darn o dir yn rhad i adeiladu Ysgoldy i blant tlodion plwyfau Pontfaen, Llanddunwd, a Llanbleiddan, yn y flwyddyn* 1837.

Eto wladwyr tylodion,
O waelod tir y wlad hon,
Drwy dri phlwy', dadau a phlant,
Ymunwch yn y mwyniant;
Sef tref, ac ardal hefyd,
Pont-y-fôn, gyson i gyd;

Ini gael o un galon
Mewn hael fryd dros enyd sôn,
Am ryw ffrwythlon ddaioni,
A'i rad weinyddiad i ni.

Am rinwedd y mae 'r hanes
Fel a llaw yn ngafael lles,
Dylanwad o haelioni,
Un o'n hen foneddion ni.
Nid Sais, ond Edmonds Yswain,
Gŵr o'n bro yw 'r Cymro cain.
Ei fwriad sydd o fawrwerth,
Onid yw o hynod werth ?
Ei newydd ymegniad
Weithion, er goleuo 'n gwlad,
Yn noddi moddion addysg,
Gyda rhad ledaeniad dysg,
Ni ddaw fyth un awydd fwy
Mawledig ganmoladwy.

Yn brawf gwir o brif gariad,
Ei fynwes at les ei wlad,
O'i dda efe addawodd,
Ac yn rhad y cawn ei rodd,
Sef y tir, roes ef yn sail
I ddodi newydd adail ;
Neuadd Ysgol ddyddiol dda,
Tŷ a'i arwydd "Fictoria ;"
Yr hon ged fawr iawn ei gwerth,
A dyben da ei aberth,
Oedd arbenig dderbyniawl,
Heddyw mwy haeddai y mawl.
Gweinyddiad gawn o addysg,
A'n porthi o deithi dysg ;
I lu o had pobl dlodion
Rheidiol les i'r ardal hon.

Daw egin y gym'dogaeth
Drwy bob cwr o'u cyflwr caeth,
I goleddu gwawl addysg,
Fwriad da i fawrhau dysg.

Cofio fydd o'r dydd y daeth
Diwygiad i gym'dogaeth;
Pont-y-fôn er daioni,
I'r fwyn dref ein haddef ni.
Ni chaiff hon na'i chyffiniau,
Yr hen serchog boblog bau,
Ei llenwi a dallineb
Ar led er niwed i neb;
Yn awr caiff yr orawr hon,
Chwanegu ei chynygion.

Swm y gymwynas yma
Mewn angen a'i diben da,
Ar ol heddyw 'n fyw a fydd
O fawr enw i'r cyfranydd.
Am hyn dylem ni dalu
Yn aml ein llef mal un llu;
Nyni, ddynion Llanddunwd,
Gân o fri, ag awen frwd,
Mal arwydd i'r Milwriad
Am ei rodd o ein mawrhad.
O'r tu arall tyr allan
Ar ein hol ragorol gân,
Llanbleiddan oll yn bloeddiaw,
Efo 'r Dref yn hyfryd draw;
Maent o unllais mewn tanllyd
Fawl yn ei ganmawl i gyd.

Boneddwr yn byw 'n addas
Fel dyn, nid un cyndyn cas.
Gwasanaeth megis Ynad
Rydd a'i law i lywiaw 'r wlad.

Ystig bendefig yn dal,
Awdurdod hyd ei ardal.
Yn nghanol ei blwyfolion,
Yn yfed lles hawddfyd llon ;
Fe 'n benaf o neb yno,
A Maer y dref am hir dro ;
Hynaws ddyn, pob hanes dda
A geir am y gŵr yma.

Weithion dylodion wladwyr,
Dra esgeulus wallus wŷr,
Rhy farwaidd yw'ch arferiad,
I wasgu lles a gwellhad ;
I lunio eich olynwyr,
Yn ddynion anweigion wŷr ;
Rhyw dwymgar wrid o ymgais
Fel hyn fyddo 'n cychwyn cais,
Yn fwy unawl fyw ynoch,
Yn llu penderfynu f'och
Wneyd eich eithaf (da chwithau)
At les plant y fynwes fau ;
I'w tueddu at addysg,
Efo 'u dwyn i yfed dysg.

---

## ARSWYD Y WLAD O HERWYDD Y GWEITHDY A CHYFRAITH NEWYDD Y TYLODION,

*A gymerodd le yn* 1836.

I'R wlad adeilad helaeth—a godir
O gadarn saerniaeth ;
Ond yr amcan weithian aeth
Hyd y fro mewn difriaeth.

Dial ydyw ar dylodion,—a thŷ
Caethiwed, medd dynion;
Cwynir, arswydir wrth son
Am y fan gan y gweinion.

Rhyw ellyll teryll at yru—arswyd
Drwy 'r gwersyll o ddeutu;
Anobaith yn wynebu
Weithion ar dylodion lu.

'R hen wragedd druain rhegant—y gweithdy,
Rhyw gaethder a ofnant;
Digon o gawl yw 'r dogn gant;
Anfoddawl i hwn fyddant.

Hyd y wlad gan dylodion—am dano
Llym daenir bygythion;
A'u hir ddanedd rhyw ddynion
Gyfarth ar y gyfraith hon.

Cythreulig gaeth reolau—fe dybir
Fod dibarch driniaethau,
Dynol farn dan haiarn iau
A gorthrymus gerth rwymau.

Gwaradwydd ar greadur—a rhyddid
Yn wreiddiol i'w natur,
Yw lletty 'r gweithdy, a'i gur
Rhwyg oes yw ar ei gysur.

Y segurwyr os gwariant—o'u gwirfodd
Eu gyrfa 'n ddilesiant,
Am hyny y Gweithdy gant,
I wledda 'n ol eu haeddiant.

## GWAGEDD YW MEBYD AC IEUENGTYD.

Yn mhawb gwagedd yw mebyd,—a diddal
Yw dyddiau ieuengtyd;
Nid oes ond anfoes ynfyd,
Llyna 'r brol sy'n llanw 'r bryd.

Cellweirus nid call eiriau—a berthyn
I borthor y genau;
Rhyddiawn goeg adroddion gau
Ddrwg foes ddaw o'r gwefysau.

Trin 'stwr tra anystyriol—dilynant
Lawenydd anuwiol;
Ffurfio crechwen lawen lol,
Drwy hau caniadau cnawdol.

Digrefydd, rhwng dwy grafanc—y gelyn
Y gwelir y glaslanc;
Gwag a gau yw llwybrau llanc,
Dyna awydd dyn ieuanc.

Byw redeg wna 'r bwriadau—i goledd
Pob gwaelion frwnt chwedlau;
Erfyn am gael hir fwynhau
Hyd eu gên o deganau.

Brodyr iach dibryder yw—yr ieuainc,
Direol yw 'r ddeuryw;
Eu harwyddair yw "Heddyw"—
Dyna 'r hyn berthyn i'w byw.

Adfydau y dyfodol—ni fyddant
Yn foddus dderbyniol;
Personau y presenol
Drig yr rhai'n a'r drwg ar ol.

Ymegyr eu dych'mygion—i esgor
 Ar ysgafn gynyrchion;
Yn niwedd eu caneuon
Gwagedd fydd defnydd y dôn.

Siarad wnant ryw sorod noeth—o eiriau,
 Yn orwyllt a phenboeth;
Enynawl chwerthin annoeth,
Heb un darn o ben y doeth.

Difyrwch gwlad oferedd—a yfent
 A hufen gorwagedd;
Yn mhalasau melyswedd
Y trigant—boddant y bedd.

---

## AWDL MARWNAD Y GWIR BARCH. WILLIAM BRUCE KNIGHT, DEON LLANDAF,

*Yr hwn a fu farw Awst 8fed*, 1845.

Mynegu am enwogion—sy' orchwyl
 Gwir serchog i feirddion;
A dilys yw e dâl sôn
Am wŷr o ddoniau mawrion.

Y mae 'r awen a'i hamrywiawl—feibion,
 Drwy fywbarch enynawl,
Yn mhob bro am eilio mawl
I ddynion gwir haeddianawl.

Ond yn awr o dan hiraeth—y canaf
 Mewn cyni ac alaeth;
Am un o'n boneddion aeth
I oer waelod marwolaeth.

O neb gŵr anhebgorol—a gollwyd,
Mewn gallu meddyliol;
Rhyw gof oer hir gaf ar ol—y llawnwerth
Gymro deuwerth gwir gym'radwyol.

Llyna y dyn, Dëon Llandaf—gollwyd,
Argyllaeth a deimlaf;
Daioni ei deithi daf
I oleuni ddilenaf.

Ei dylwyth oeddynt deulu—aneiddil,
Foneddion o Gymru,
Hynod hen wedi hanu
O'r enwogion feibion fu.

Fe wybu 'n iaith o'i febyd,
I enwog radd, bron o'i gryd
Yn hogyn ieuanc yr ymegniodd,
Ei wlad-iaith esgud heb lediaith ddysgodd,
A'i seiniau gwreiddiol ys iawn gyrhaeddodd,
A diwall fwriad o hyd llafuriodd,
Ei fryd yn fyw a redodd—i'n haeg wen
A'i nefol hufen i'w fol a yfodd.

Gan falchder ceir llawer llanc
Mewn awydd llym yn ieuanc,
At drin rhyw iaith estronawl,
I gael dyrchafedig fawl.
Ond y dyn nad adwaeno
Yn eithaf rhwydd iaith ei fro,
Ddylai fod yn ddilai fel
Dan gerydd gan ei genel.

Iaith y tir, ni werthwyd hon
O dŷ a serch y Dëon;
Nid dirmygu y tir a'i magodd,
Enwog frodor, ein haeg efrydodd,
Wrth ei thrafod ei dafod dyfodd,
A'i llenyddiaeth yn llawen noddodd,

Pob peth Cymru fu wrth ei fodd—yn dda,
Yr hen Walia yn fawr anwylodd.

Rhyw hyddysg gyfarwyddwr—i'r anoeth
Fu 'r enwog ddyngarwr;
Ba ail gaf heblaw y gŵr
Yn arweinydd ar wanwr?

Ei fath fel hynafieithydd—o'i golli
Fodd gellir cael eilydd;
Ei enw 'n fawr gan ddynion fydd—mewn ystyr
O flaen ei oeswyr fel hanesydd.

Llaw haelioni a'i holl olwynion,
Gluda haeddianol glod i ddynion,
Dyngarwch dyna goron—ddwg yn ol
Barch chwanegol i'w berchenogion.

Ond dan bob rhinwedd dynol—adwaenid
Fod anian ysbrydol
O'i fewn ef, am fyw yn ol
Tueddiad gwir santeiddiol.

Y Duw mawr digydmarawl,
Gofyn ef drwy gyfiawn hawl
Yn flaenaf ei folianu
Gan ddynion a'r galon gu.
A theilwng fawrwerth alwad,
I'n foli Duw, nefol Dad!
Wrth roi holl ffrwyth yr awen,
Swydd o barch i'r hwn sydd ben;
'Nol dysgu molianu 'r Iôn,
Gwau 'n nesaf gân i'w weision;
Sydd iddynt yn swydd addas,
A mawrhau graddau eu gras;
Nid annuw yw mawl dynion,
Yn ol y rheol aur hon:

Gellir gwau emynau mawl,
I râs brodyr ysbrydawl.
Duw a rifodd, do rywfaint
O raddau yn swyddau 'r saint;
Rhyw ddynion yn Sion sydd
A'u galwad uwch eu gilydd;
Rhai sy'n uwch o ras a nerth,
A'u doniau 'n fwy na deunerth;
Mae 'r rhai'n i arwain ereill,
Bugeilio a llywio 'r lleill.

Duw roes iddynt ar eu swyddau—buddiol
Wahanol wiw enwau;
Y mae yr Iôn yn mawrhau—ei wir fawl
Yn bresenawl drwy ryw bersonau.

E wnaeth rai yn athrawon—arweinwyr
Rhai annoeth i Sion;
A dieiddil wyliedyddion,
I gau 'r ddinas rhag rhyw ddynion,
A bugeiliaid byw o galon,
I'w bur eglwys dan beryglon;
Un a swydd yn mynwes hon—tra 'n y byd
Frawd diwyd fu 'r Dëon.

Nid urddau neu swyddau ddegau ddygant
Glod arbenig os gwael a'u derbyniant;
Y swyddau fel einioes a ddiflanant,
Heb anian rasol anfuddiol fyddant,
Yn ol oes hir ni lesant—i atal cur,
Neu seilio cysur i'r sawl a'u cawsant.

Af i sylwi ar faes ei alwad—fel
Gofalus offeiriad;
Melus son mai i leshad
Dda was fu ei ddewisiad.

O chaf, anfonaf heno—i *Margam
Drwy fawrgais i chwilio
Am iawn swm o'i hanes o—drwy ffyddlon
Holi dynion yr holl wlad hono.

Anturio galw 'r trigolion—ag unllaw,
Gwnaf gynllun yr awrhon
I gasglu, hebryngu ger bron
Oludwyr a thylodion.

O fysg y dorf gymysg hon,
Holaf fil o'i blwyfolion,
A'u barn yn llwyr heb wyrni,
Gywir fodd agoraf fi.

Colli 'r Dëon weithion wnaeth
Ein dal a niwed helaeth;
O meddynt, "Trwm yw addef
Y gwall hir o'i golli ef;
Gan hiraeth gwan i eirio
A llwfr iawn yw dull y fro;
'Does golwg na dysgwyliad
Yma 'n hwy am un mwynhad;
Ond dioddef annedwyddyd,
Dan ein baich yn dwn ein byd;
Buom unwaith bob mynwes,
Drwy 'r plwyf hwn yn grwn mewn gwres,
Law yn llaw yn rhodiaw 'n rhydd
Yn gwylied lles ein gilydd;
Ffynai 'n fawr hyd lawr y wlad,
Gywirdeb a chydgordiad;
Ni chai sen na chasineb
Ar led wneyd niwed i neb;
Bu 'r holl blwyf heb arall blaid
Yn gyttun o un enaid;

* Enw 'r plwyf y bu yn gweinidogaethu ynddo y rhan fwyaf o'i oes cyn ei symud i Landaf fel Dëon.

O dan nawdd ei adain ef
Y llwydda ein holl haddef.
Mynwesawg gymwynaswr
Wrth raid i'n gweiniaid fu 'r gwr;
I'r rheidus fel gwaredwr—meddai fron
A chalon uchelwr.

I ba le cynyg y bobl eu cwynion,
Yr â y llwythog, ac ereill weithion?
Pwy wrendy griau a gwaeddau 'r gweddwon,
A llaw driniaethus ddillada 'r noethion?
Hyny sydd gwae ni yw son—yn llethu
Ac ar balfalu cri ei blwyfolion:

Mal cyfaill mil a'i cofiant
Hir dro, a'i anwylo wnant.

Ei blwy' o'i herwydd bawb a alarant,
Eu heilltion ddagrau yn rhydau redant,
Am ei wasanaeth yma soniant,
A'i dduwiol rinwedd a olreiniant,
Ei lyfn oes ail fynwesant—yn helaeth,
A'i weinidogaeth a fendigant.

Gad'odd ni yn 'sigedig—wrandawyr,
A brodyr briwedig;
Ei enw drwy y plwyf hwn drig
Fel nod anniflanedig."

Troi a 'madael trwm ydoedd,
Gwir rwygiad i deimlad oedd;
Wedi byw mewn undeb hedd
Yn mlaen uwch ugain mlynedd:

Dattod yr amod hir yma—wnaethant,
Dan eithaf anhawsdra;
'R ol mwynhad hir deimlad da
Gorfod wnaeth yr ysgarfa.

Glynu yn llaw Rhagluniaeth,
Fawr y nef yn farw wnaeth.
Gwel'd drwy ei dirgel droion
A'i lygad, a dirnad hon;
Yn ddilai arfaethai fod
Rhyw ddarn hir o'i ddiwrnod
Loewaf ran o'i lafur o
O hyd heb fyned heibio.

Uwch gris o'i ddewis yn Ddëon—gafodd,
Ond gofal mwy 'r awrhon;
Gwiw lesad i eglwys Iôn
Drwy 'r dalaeth wnaeth hyn weithion.

Nid dal arddodiad dwylaw urddedig,
Uchel alwad, neu godiad dysgedig,
Wnaeth ddyrchu 'r Dëon i'r nen arbenig,
O flaen ei frodyr fel yn fawredig;
Ond ei eneiniad yn unig—fel sant,
A'i rywiog lesiant fel gŵr eglwysig.

Athraw mewn gair a gweithred,
O enwog radd union gred;
Un boddlawn, nid cybyddlyd,
Trwy iawn bwyll yn trin y byd;
Ei ffyddlon gyfeillion fu
Yn falch i'w efelychu.

Brawd di ail, neu briod oedd,
I lawer o deuluoedd;
Meddai ofal rhai amddifaid—eiddil,
A gweddwon offeiriaid;
Eu lles hwy yn gynes gaid
O mewn yn nghlwm a'i enaid.

Drwy lwyddiant ei arlywyddiaeth—hirfad
Trysorfa 'r esgobaeth,
Afaelodd yn fwy helaeth,
A'i grym yn ddeurym a ddaeth.

Aur ac arian gan ugeiniau—geisiodd
Drwy gyson gasgliadau ;
Ei araeth oedd fêl eiriau—'n dadleu dros
Werth yr achos a'i wael wrthrychau.

Onid diwarth flodeuyn
A gem teg y' mywyd dyn
Ydyw rhinwedd dirionaf,
Imp nefol ei ganmol gaf.
Lle byddo 'r egwyddor gu
Goraddfed wedi greddfu,
I'r golwg daw o'r galon,
Ni thrig yn unig yn hon ;
Adwaenir mai daioni
Ar waith fydd ei heffaith hi.

Gwnaeth Duw 'r hedd o'i ryfedd ras
A'i enaid fawr gymwynas,
Rhodd iddo, rhwydd yw addef,
Ernes iawn o'i deyrnas ef.
Gwaed y groes, nid oes ond hwn,
Ei les nac esgeulyswn,
A ddichon yn heddychol
Ein toddi 'n un at Dduw 'n ol.
Ei daenellu dŷn allan
Holl chwydd halogrwydd yn lân.
Ei arwydd ef roddai Iôn
Was da, ar ddrws y Dëon.

Galluog gefnog gyfnerth—i'r eglwys,
Fel rhaglaw nefolwerth ;
Gorddoniog ŵr o ddeunerth,
Ini gaid o enwog werth.

Ei ddilesg ddrychfeddyliau—oleuant
Yn loewon syniadau ;
Twf ei ddawn oedd at foddhau
Yn unwedd Dduw a ninau.

Diwyd weini er daioni
I'r eglwysi rywiog lesiant,
Drwy 'r esgobaeth, dan ei driniaeth
A'i areiliaeth hoew yr hwyliant.

Weithion fel Dëon Llandaf
Ei deilwng weithred olaf,
Yn brawf hir o'i brif fwriad
Yn y lle er dwyn gwellhad ;
Gwelodd ddull tŷ 'r Arglwydd Iôn
Yn chwithig ei ddrych weithion ;
Yr hen ddinam fam a fu
A'i thegwch ar waethygu ;
Muriau hon bron hyd eu brig,
Yn dra llwyd a drylliedig.

Fel hyn yn union y Dëon duwiol
Yn dwym ei fynwes mewn gwres gorysol,
A brwdfrydedd eiddigedd ddiwygiol,
A daniai frodyr yn lled unfrydol :
A'i 'n bryder bwriadol—drwy 'r esgobaeth
Am gadwraeth yr hen fam gadeiriol.

Priodol ddarpariadau—a gafwyd
Ar gyfer gwelliadau,
Er diwyg i'r adwyau—drylliedig,
Drwy ychydig o ymdrechiadau.

Fel hyn yn ddernyn addurnol—hyglod
Dai 'r Eglwys Gadeiriol ;
A phob cell yn well yn ol
Uwch gradd na'r tegwch gwreiddiol.

Diau golygai 'r Dëon
Fyw yn hir i fwynhau hon,
Yn niwyg ei gwisg newydd,
Hardd a da ar wedd y dydd ;

A chael myn'd a dychwelyd
Yn gyson i hon o hyd;
A hir fawrhau yr arfer hyn
A'i gadael yn deg wed'yn,
Y deml hawddgar ar ei ol
Yn lan i'r oes ganlynol.

Ond och wedd! erbyn heddyw
Weithion y Dëon nid yw!
Ni ddaeth ysywaeth i'r sant
Ddim haner ei ddymuniant.

Ow! nid yw bywyd duwiol—o'i feddu
Yn foddion effeithiol
I bellhau hen angau 'n ol
Am awr o'i gynllun marwol.

Josiah yn ei dda ydd oedd,
Jehoiadah 'i oes ydoedd;
Mad offeiriad o'r un ffydd,
O'i lwynau a'i olynydd.

Ar y fan uwch tir ei fedd—mae yno
Faen mynor arianwedd,
Byth arno i gofio gwedd—gŵr uchel
Gwas y genel yn ei gwsg annedd.

Heddyw mae yn ddiamheuol—o ran
Yr enaid anfarwol
Yn nhyb y rhai byw ar ol—mewn mawredd
Yn etifedd y mwyniant dwyfol.

Yno 'n ddedwydd hardd breswylydd
Byth yn rhydd o ddefnydd ofnau,
Yn y gaerawl Salem nefawl,
Le dymunawl, wlad emynau.

Fy Iôn cymhwysa finau,
Yn fuan iawn i fwynhau,
Y wlad deg oludog hon,
Fro dawel trigfa 'r Dëon.

## CENFIGEN.

Can i fygwth cenfigen—a wnaethum,
Dinaethaf ei dyben ;
Llyna 'i swydd yw llunio sen
Ac annog pwt i'r gynhen.

Rhyw frâd mewn bwriad yn berwi,—hiraeth
Gwel'd arall mewn culni ;
Cloi adyn mewn caledi ;
Aflwydd yw ei harwydd hi.

Ni all heddwch na llwyddiant—fyw yno,
O'r fonwes ehedant ;
Llid a gwyn lle da a gant,
Anrasol yno 'rosant.

Rhyw greulon gyson ddigasedd—llwythog
Yn llethu tangnefedd,
Tystion gaf, tost iawn yw gwedd
Y dyn fo rhwng ei danedd.

Hen sorod gwaelod gelyn—fel dylif,
Neu orlif yn erlyn ;
Teryll ddig at arall ddyn
Brâd enaid yn brwd enyn.

Nid oes gwaeth surdoes ardal—am roesaw
Ymryson diattal,
Gan hon waith union ni thâl
Maddeuant heb ymddial.

## Y FYNWES LAN HEDDYCHOL EI PHERCHEN.

Mor lan yn moreu 'i luniad
O wydd Duw, ei newydd Dad,
Ydoedd dyn, y dydd y daeth
Fod dilwgr i fodolaeth!
Glan oll oedd galon a llaw,
Yn ddihalog ei ddwylaw;
Nid oedd i'w gael duedd gau
O fewn ei holl derfynau.

Ond drwy bechod syndod sôn
Yn mhob dawn aeth meib dynion
I rodio 'n ddirywiedig,
O ddeddf Iôn drwy ddwyfron ddig.
Aeth y dyn yn lliprynn llwyd,
A'i rym moesol ormeswyd.
Glynu o hyd yn glwy' wnaeth,
O dan waelod dynoliaeth.
Heintus glefyd enbyd yw,
Hen gramen Eden ydyw;
Ddolenodd ei olyniaeth
O Adda, hyd yma daeth.
Delw Duw deolwyd hon
Odd'ar ein hegwyddorion;
O'r cynllun da lun Duw lwyd
Irad fel yr adfeiliwyd;
I'r galon weithion yn wir
Ysywaeth fe roesawir
Ei llonaid o gynllwynion,
Anllad yw nodweddiad hon.
Pob llygredd, ymgeledd gant,
A drygau yma drigant;

Hyd nes troi 'r fynwes yn fan
Dieflig, neu dŷ aflan;
Yn fangre nythle noethlyd,
I heigio 'r byw ddrygau 'r byd.

Ond er hyn fe nodir rhai
A addefir yn ddifai
Yn nhyb pawb yn wyneb byd,
Yn ddifai gan Dduw hefyd.
Ail luniwyd hwy yn lanwedd
I loewach hawddgarach gwedd;
Nid o honynt eu hunain,
Ond o ras y rhow'd i'r rhai 'n,
O geudod pwll godiad pen,
I ryddid a gwawr addien.
O dir pechod sorod sur
A'i ddu halog hen ddolur,
Duw wnai eu trin a dwyn tro
Arnynt, ac ynddynt ganddo
Diferodd edifeirwch
Yn ddagrau hallt rydau trwch;
Drylliwyd, fe doddwyd y dyn
Hyd drwyddo at ei wreiddyn;
Lledaenodd trallod enaid,
Benyd byw o boen di baid,
A'r cyfan mewn amcan er
Dwyn aflendid yn flinder,
A suro blas amserol
Ar chwantau a ffurfiau ffol.

O dan y teimlad yna
Anhawdd dwyn un newydd da,
Yn fwy anwyl i'r fynwes,
Mal a llaw am 'hilio lles,
Na bod er mawr syndod son
Bair rhyfedd, neu bur afon,

Yn dwyn o liw du yn lân
Ryw gyflwr euog aflan.

Gwaed yr Oen gwyd yr enaid,
I fyw uwchlaw afiach laid;
Effaith hwn rydd berffaith hawl
Yn hyf i'r ddinas nefawl;
O'i daenellu daw 'n holliach
Y gwyw ddyn i agwedd iach.
Rhydd hefyd yn wir ddifai
O anian yr aflan rai;
Yn lle hagrwch a llygredd
Daw glanach rhagorach gwedd.

Iawn y groes nid oes ond hwn,
Ei les nac esgeuluswn;
A ddichon yn heddychol
Ein dwyn ni a Duw yn ol;
Rhinweddol o ran haeddiant
I dynu bai dyn i bant.
E ddwg yn rhad ddigon rhwydd
Y digred o'i euogrwydd;
Ei arwydd ef a wna ryddhau
Y dyn o'i holl gadwynau.

Yn ol llawn feddianu lles
Trwy fynu tir y fonwes
Yn lan, fe dry 'r canlyniad
Ar ol llaw yn hir wellhad.
Yna daw o fewn y dyn
Le da i bob blodeuyn.
Ar waith ceir ffrwythau cariad
Y lliaws hyn a'u lleshad,
O'r fron i'r galon yn gwau
Fel rhes o nefawl rasau.

Am fynyd ymofynwn
Fel ar ol y cyflwr hwn,

I ddi dwyll ddodi allan
Hanes lwyr o'r fynwes lan,
Ei ffrwythau hoffir weithion,
Dedwydd yw meddiannydd hon.
Diodid dyn da ydyw,
A glan o ran anian yw.
Hwn o'i fodd byth ni feiddia
Ymwneyd a dim ond y da.
Dwyn digter, llymder, a llid,
Neu fâr, ond drwy fawr wendid,
Fel gelyn yn erbyn neb,
Ni chais hwn na chasineb.
Ond dyn yw yn rhodio 'n ol
Diddichell fryd heddychol;
Elwa drwy annuwiol drais
O amgylch ni fedd ymgais;
Ni fyn ef anghyfiawn hawl,
Na thrafodaeth ry fydawl;
O'i fodd gwn ni faidd y gŵr
Weithredu yn athrodwr.
Nid yw am gael dim golud,
Na da neb dan aden hud;
A rhy aflan gan y gŵr
Drwy un dull droi yn dwyllwr.
Hynaws fydd mewn einioes fer
O'i wirfodd nid ymarfer
Byth a dim o beth y daw
Iddo warth oddiwrthaw.

Y fynwes brin o rinwedd,
Ni ŵyr hon am awyr hedd.
Pa fyd dystaw ddaw i ddyn
Dan nef a Duw 'n ei ofyn;
Ddeiliad hen o ddyled hir,
Difwyniant ei fyw anwir.
O ddal a chynal drwg chwant,
Ni fydd dda heb faddeuant.

Fe esyd byw anfoesol
Ryw lwyth anesmwyth yn ol.
Ni chaiff hedd a'i duedd da,
Drwy gamwedd drigo yma.

'Trwy 'r côf anhawdd troi 'r cyfan
O wir les yr asgre lân;
Na dadgan ar gynganedd
Yrwan ond rhan o'r hedd
A fwynheir o fewn i hon,
Fel annedd nefol hinon.
Dwg i'w pherchen lawen lwydd,
Fyd digrif di euogrwydd;
Byw yn fras heb boen i'w fron,
'N iachus ar ei chysuron;
Rhyw wersi yn rhoi arswyd
O'r galon iach hon ni chwyd;
Pa sydyn ddychryn a ddaw
I ddal y glan ei ddwylaw?
Y galon 'n ol ei glanhau,
Sy'n rhydd o ddefnydd ofnau.
Difraw pan ddaw ei ddiwedd,
Awr y farn, a thir ei fedd,
Wele 'r dyn o gyflwr da,
Uwch y rhai'n ni ddychryna.
Gŵr o hoender digryndod,
Cawr o fab y ceir ei fod;
Swm ei hyder nis muda,
Cryf fydd ef mewn crefydd dda;
Ei brif nerth wrth brofi 'n wan,
A ddeillia o'i Dduw allan:
Tangnef y neb wna ddwfnhau
Yn ddyfnach na gwraidd ofnau.

Rhyw lanhad o darddiad da,
Yw swm yr hyn sy' yma;

Arswydus, gofidus fod
Un dyn heb ei adnabod.
Dyma 'n awr nid dim yn is,
O fy Nuw, yw fy newis
Fwyniant, sef cael y fynwes
Hon yn lan, dyna wna les
Ar ol llaw mewn arall wlad,
Fro Sion caf roesawiad ;
I yfed iach wynfyd hir,
Heb brindod ar y bryndir,
Gyda'r hwylus flasus floedd,
Mêl foliant y mil filoedd.

---

## AWDL AR Y METHYGLYN,—DIOD YR HEN GYMRY.

Crefydd a phwnc yr yfed—yn fynych
 Ni fynent gydgerdded ;
Ceir dynion cryfion eu cred,
Duwiolion, heb gydweled.

Diod o wirod i ŵr—a'i gesyd
 Ddyn gwasaidd yn froliwr,
Rhag meddwdod ŷf ddiod ddwr ;
Di drwst yw y dirwestwr.

Er llesiant gwlybwr llysiau—y ddaear
 Yw 'r ddiod fain orau ;
Yn fynych hwn fyn iachau
Led eirwon anhwylderau.

Defnyddir yfir hefyd—o flasus
 Felysion celfyddyd,
A rhanau gwirf rhai'n i gyd
Yn feichiog o afiechyd.

Diodydd nid da ydynt—i'r bobol
    Yn feddwol pan fyddynt;
  Nid ydoedd y gwinoedd gynt
  At roddi niwed trwyddynt.

E gwynir fod y ganrif hon—megis
    Yn magu rhai'n feddwon;
  Gwneyd hanes egin dynion
  Yn warthus wŷr, di werth sôn.

Hanesion o'r cyn oesau—a gyrchwn
    I'r gorchwyl drwy lyfrau
  Weithion, er ffyddlon goffau
  Diodydd ein cyndadau.

Rhinweddol llesol yw 'r llyn—a yfant,
    Gelwir ef Methyglyn;
  Un iach a da 'i syched dyn
  Fel gwinoedd o fol gwenyn.

Nid ydoedd ein cyndadau—yn feddwon
    Anfuddiol eu moesau;
  Da oeddynt yn eu dyddiau—fel dynion,
  Ac nid afradlon lythion lwythau.

  E fu wedi dyfodiad
  Ein cenedl i lenwi 'r wlad,
  Y frodir ar fyr adeg
  A welwyd yn rhyw wlad deg.

Rhoddai man mor ddymunol—ei fwyniant
    Benderfyniad hollol
  I'r llu, rhag wynebu 'n ol
  Drwy fôr i'w gwlad arferol.

  Wrth weled mor hardded hon
  Ar led ei hir waelodion,
  Ei fflwch wir degwch digoll,
  A ffrwyth ar ei pherthi oll;

Mêl ddiliau hyd gangau 'r gwydd,
Yn colli dan y cyllwydd :
Pa ryfedd wedi profi
O'u harchwaeth ei thoraeth hi,
Hen freision y fro essyllt
Yn aml o gylch, a'i mêl gwyllt,
Weithion i'r Brython roi brys
I alw hon yn *Fêl Ynys ?

Eu bwydydd oedd ddarbodaeth—a leddid
Trwy lwyddiant helwriaeth ;
Mynent ddal eu cynaliaeth,—yma gynt,
Ni thueddynt at amaethyddiaeth.

Hefyd nid seguryd gwael
Dan gôf gaid yn eu gafael ;
Yr oeddynt yn ymroddwyr
Diwyd yn eu bywyd byr.
Yn mhlith eu haml law weithiau
Eu harfer oedd gwir fawrhau
Yn gynar driniaeth gwenyn,
E gaid eu hawch gyda hyn.

I borthi 'r rhai'n aberthant—eu dyddiau,
I raddau hwy roddant
Y drafferth dro a hoffant,
A thâl am ei gofal gant.

Diliau mêl yn dal am hyn
I wledda gant bob blwyddyn.

O gynyrch ffrwyth y gwenyn—i'r lluoedd
Darllawent Fethyglyn ;
Diod gloewiach diachwyn
O fêl a dwr i fol dyn.

* Un o'r enwau cyntaf ar y wlad hon.

Dyma 'r llyn dymhor llawnwerth,
A fu drwy Gymru mewn gwerth.
Hwn a yfai 'n hynafiaid
Hawddgar, ef yn gynar gaid

Gan y beirddion, a'r ofyddion,
A'n derwyddon, rhai dewr raddau:
Medd cartrefol, lyn iachusol,
Oedd eu dethol ddiod hwythau.

O feddwl hynaws ymfoddlonant
O hyd i gysur y wlad a gawsant;
Ei nwyddau a ddefnyddiant—yn ddi flys,
O'u hen Fêl Ynys byth ni flinant.

Am a yfant, neu a wisgant,
Ni hyderant ar wlad arall.
Mawrhau llawnedd Cymru lanwedd
Fu eu tuedd, fywyd diwall.

Ni rwygant donau 'r eigion—o drachwant
Am lesiant melysion;
Llynau o'r pethau poethion
Ni welwyd hyd y wlad hon.

Rhedodd rhyw arferiad ddrwg
A rhy wael ar ryw olwg
Hyd y wlad, rhyw afrad yw
Anaddas erbyn heddyw;
Dwyn o burŷd ein bara,
Hynod drwm yw hyn o dra,
I fod yn ddiod i ddyn,
I'w foddio, a'i droi 'n feddwyn.

Ochus gofidus iawn fod—hir lesol
Arloesi a thrafod
Tir i dderbyn had trwy ddarbod—braenar,
A thrin y ddaear i'w throi yn ddiod.

Aberthu deunydd ymborth dynion
I wneyd moethau, yr ydym weithion ;
Rhoi ffrwyth y ddaear i fyddar feddwon,
Yn llynoedd i'w cwpanau llawnion,
Drwyth hollol i drythyllion—i'w maglu,
A llwyr iselu llu 'r oesolion.

Ochain sydd o'r dydd y daeth
I un teulu o'n talaeth
Ro'i bryd mor ynfyd ar ol
I flysio peth aflesol.
Enbyd waedd y byd heddyw
Ydyw 'r gwancus foethus fyw.
Caru aberthu i'r bol,
Weis tewdeg yn wastadol;
A thaenu pob 'meuthynawn
I'w pesgi, a'u llestri 'n llawn.

Trwm yw y dinystr a ymdaenodd,
Y llynau meddwol oll a'n maeddodd,
Y ddiod gadarn ddododd—yr holl hil
Yn dra eiddil, fe a'n diraddiodd.

Nid yw gwin yn digoni
At ddyben ein hangen ni.
Twyllodrus, gwancus, a gau,
A phoeth, yw ei effeithiau.
Er ei yfed syched sydd
Yn ddidawl am ddiodydd.
'R ol ei flas rhyw ail flysiaw
Wed'yn o fewn i ddyn ddaw.
O bell un gwell i gylla
Yw Methyglyn, medd dyn da.
E flysia min flas y medd
O fronau ei fawr rinwedd.

Drwy yfed hwn daw 'r afiach—o'i ddolur,
Yn ddilesg nid hwyrach ;
Cwyd i'r lan yn fuan fach
O'i wan allu yn holliach.

Da weithion a bendithiol—yw y Medd
Fel moddion iachusol ;
Aed Duw a ni eto 'n ol
Trwy yfed llyn cartrefol.

Gwarthus a gofidus fod
Rhyw eistedd mewn dibrisdod,
Hyd y wlad gan dylodiawn,
Megis heb un ymgais iawn,
I gynal a thrin gwenyn—
Ni rhed eu bwriad ar hyn.
Tywyned eto unwaith
Ryw awel haf yr ail waith,
O gyffro mewn bro a bryn,
Gydag awch i gyd gychwyn
O newydd, mewn benywod,
Yn ddilai hwy ddylai ddod
O forau oes i fawrhau
Tai gwenyn, nid teganau.

---

## ARCH NOAH.

Cyn y diluw cawn adeilad—newydd
Gan Noah, ein cyndad ;
Yr hwn trwy ddoeth arweiniad
A godai hon i gadw had.

Duw Iôn yn gyson ddangosodd—rediad
Yr adail a geisiodd ;
A Noah a'i saerniodd
Yn ol y rheol a rodd.

Llong od, lled èang ydoedd—o fwriad
I forio 'r dyfnderoedd;
Trefniad ei llywyddiad oedd
Dan ofal Duw y nefoedd.

A phyg mae 'n debyg y dwbiai—yr Arch,
Drwy 'i orchwyl cyflymai;
Ac fel hyn y cyflawnai
Noah 'r cynllun heb un bai.

Y dydd ar ol diweddu—y gorchwyl
Chwai gyrchodd o'i ddeutu
Garnoliaid, ymlysiaid lu,
I gael eu diogelu.

Arch i ddal yr âch dduwiolion,—y byd
Arbedol o ddynion,
Y sawl oedd ddewisolion,
Dygwyd hwynt i gyd i hon.

Defnydd eu bwydydd ddarbodai—Noah,
Rhag newyn os deuai;
A digon ger bron pob rhai
O ddwr pur a ddarparai.

Yn awr caf wedi 'r cyfan—o'r gwasgar
I gysgod ddod yman,
O'r byw, y rhelyw bob rhan
I gyd oll gaewyd allan.

Yna dorau 'r dyfnderoedd—a fregynt,
Fe rwygwyd y nefoedd;
A mudfawr rym y dwfr oedd
Yn tori uwch y tiroedd.

Diluw dros bob adail draw—yn dyrchu
Hyd erchyll orchuddiaw;
Ni chaid i'r llygaid gerllaw
Tan nef ond tŷ yn nofiaw.

Wedi dystewi 'r tywydd—a darfod
  Holl dwrf y llifogydd
Dan awyr deg, dyna 'r dydd
D'ai Noah o'i dŷ newydd.

Sylwedd hon yw 'r Siloh ddaeth—i'n hachub
  O bechod a bariaeth;
Ein dal ni rhag diluw wnaeth
Uwch niwed a'i feichniaeth.

---

## AWDL MARWNAD Y DIWEDDAR FARDD IOAN POWYS (JOHN OWEN), LLYNLLEIFIAD,

*Yr hwn a fu farw yn* 1839.

Rhinweddau arweinyddion—llenyddol,
  Llawn hyddysg awduron,
Erioed sydd yn hyfryd sôn,
Rhaid addef, gan brydyddion.

Ond dylif du o alaeth—a gyfyd
  Pan gofir, ysywaeth,
Heddyw roi 'r cyfryw 'n wŷr caeth
I wyll daear neillduaeth.

O ddydd bwy gilydd gwelir
Yr oes hon ryw farw-res hir
Yn maes y llyfrau misawl,
O enwau a swyddau 'r sawl
A welwyd hyd y wlad hon
Yn gadeiriog awduron.

Y newydd am John Owen—fu ini,
  Sef hanes ei ddien;
Ni wnai cledd drwy Wynedd wen
Fwy briw i feib yr awen.

Un o feib yr awen fu,
A gŵr oedd yn gwir haeddu
Yr enw bardd, o ran ei bwys,
Er gweini ei fawr gynwys;
Rheolau da yr alwad
Wna ddynion gloewon mewn gwlad.

Owen er yn fachgen fu
Yn bwyllog fel heb allu
Rhoi fryd ar ynfyd anfoes,
I ofer waith efo 'r oes.
Athrawiaeth dda ei riaint
Duwiol, fu 'n ddifrifol fraint;
A'u haml lith dan fendith fu
Wr ufydd i'w arafu.

E fu addysg grefyddol—i lawer
O lewyrch bendithiol,
O'r bru i reddfu ar ol
Ddylanwad pur ddilynol.

I angof ni ollyngir—y pethau
A forau arferir;
Yr addysg gyntaf roddir
Rwyga 'r ffordd i argraff hir.

Fel llawer felly Ioan
Ydoedd lanc o nodwedd lân;
Ni wyrodd ef foreu 'i ddydd
I unrhyw fywyd penrydd.

Ni chyrhaeddodd chwar'yddiaeth—yn forau
I'w fwriad yn helaeth;
O fad gychwyniad ei chwaeth
Mab ydoedd am wybodaeth.

Y fan lle caf ei eni—o gelloedd
Swydd Gallestr fawrfri,
A'r lle a enwir Llwyni,
'Nol y sôn a glywais i.

Yno 'n wridgoch hyf iachgoch fachgen,
Gorfywiog a galluog llawen,
Mor ddiwyd ymrhoddai Owen—yn llanc
Tirion ieuanc at drin ei awen.

Ei ymgais da megis dyn
Yn wastad oedd ymestyn
At rodiad diwaradwydd,
Yn mhob man, uwch hunan chwydd.

Un a geirda am gywirdeb—oedd ef,
Drwy ddifwlch uniondeb;
Yn ddilai ni allai neb
Roi anair ger ei wyneb.

Nid marweiddyn musgrell diymrhoddiad,
A llaw esgeulus, yn llesg ei hwyliad,
Yn dra anystwyth ei dro yn wastad,
Ond un dieiddil;—dyna 'i nodweddiad;
A'i ofal twym ef fel tad—fu 'n helaeth
At fywioliaeth tŷ efo 'i alwad.

Ar ol boreuol barhau
Yn troi o fewn terfynau
Ei dyner wlad ei hunan,
A hir fyw mewn goreu fan
Walia deg, anwyled hon,
Hyfryd dir hen frodorion,
A iaith ei fam wrth ei fodd,
A'i dafod ynddi dyfodd—
Yr oedd hyn yn more'i ddydd
Yn baradwys i brydydd.

Gorfod fu 'r cyfnod cefnu—a'i daliodd
O dalaeth gwlad Cymru,
Ochus fodd yr achos fu
At alwad gofal teulu.

Gofwyaeth a gwasgfeuon
Mewn croesau a briwiau bron
Fu 'n nodi ei fynediad
I well lle, i arall wlad.
Goleuni mewn rhagluniaeth
Yn ddi wall i'w ddeall ddaeth.

Yn rhinwedd yr arweiniad—a gafodd
Ar gyfer Llynlleifiad,
Mynodd le mewn newydd wlad
I ddilyn ffyrdd ei alwad.

I'w briod diorfod oedd,
Caredig, cywir ydoedd,
E fu 'n sicr i fynwes hon
'N achos hir o'i chysuron.

Ffrwd ei serch i'w phriod Sion—a redodd
Yn rhydau o'r ddwyfron,
Ysywaeth drwy hiraeth hon
E geulodd nodd y galon.

Drwy wanychiad o'r un achos—a'i gŵr,
O gariad mor agos,
Y tiriodd ato 'i aros—trwy angau
Byth o'i hofnau o dan bythefnos.

Dysgu ei blant dewisgall—wnai Sion,
Mewn synwyr a deall;
Ac i'r rhai'n dangosai 'n gall
Hyderaf am fyd arall.

Hyfforddai, golygai les
Tufewnol blant ei fynwes,
I'w tueddu at addysg
O grefyddol dduwiol ddysg.

A hoffir weithion y ffrwythau—irnaws
A geir arnynt hwythau;
Yn addfwyn rho'nt eu gyddfau
O dyner oed dan yr iau.

Mal cyfaill mil a'i cofia,
Hynaws ddyn, a'i hanes dda
Bob amser ei fwynder fu,
Weithion hawdd tystioliaethu,
Yn llawn o ddawn i ddyddanu—a'i fin
E ddygai werin idd ei garu.

Ni fu ei holl gyfeillion
Heb beth sail am obaith Sion
Yn nhyb pawb, yn wyneb byd,
Safai drwy 'r eglwys hefyd,
Air da idd y brawd Owen,
Y bardd sy'n isel ei ben.

Credadyn cywir didwyll,
A diwarth o barth ei bwyll,
Di dramgwydd, di chwydd ychwaith,
Di ddolur ydoedd eilwaith;
A hawdd fel brawd ei addef,
Gywir un, a'i garu ef.

Y mae yn ddiamheuol—yn fesur
O foesau crefyddol
I dru hiraethu ar ol
Brodyr o radd ysbrydol.

Dyn oedd Sion yn gyson gaid
A thriniaeth ar ei enaid;
Un wedi profi mewn pryd
Ei hunanbeth yn enbyd;
Yn myned am ei einioes
Yn ŵr trist at Grist a'i groes:
Dwyn ei faich yn dwn, e fu
Dan bechod yn ebychu.

Rhedegydd am waredigaeth—ydoedd,
　　O wlad colledigaeth ;
　Diangfa mewn noddfa wnaeth
　Dawelu y du alaeth.

E arweiniodd yn ŵr unol
Eithaf diwarth fywyd duwiol,
Gyrfa addas o grefyddol ;
Hyn sy'n arwydd dyn synwyrol.

　Ond yr awen yn benaf
　Yn darddiad i'w godiad gaf ;
　Ei hanes ef ini sydd
　Yn flaenaf fel awenydd.

Ei beraidd ddawn barddonawl—ac enaid
　　Ei ganau gorchestawl,
　Oedd yn fwy i ddwyn ei fawl—yn ddiball
　Na dim arall ar wedd dymhorawl.

I faes o waith anfoesol—ni lithrodd
　　Fel athraw annuwiol ;
　Ni wnai Owen lawen lol
　Drwy wau caniadau cnawdol.

Moes addysg, nid masweddau—yn wastad
　　Oedd testun ei odlau ;
　Ni rhedodd ei fwriadau—'n ŵr diddal,
　Neu eiliwr gwamal, ar rigymau.

Rhy fynych drwy fy einioes—y gwelais
　　Dan g'wilydd feirdd difoes,
　A'u tynfa 'n gryf at anfoes,
　Yn ol anghrefyddol foes.

　E ddylai 'r beirdd ddal i'r byd
　Lwyr dduwiol wir ddyhewyd ;
　A rhodio 'n ddiwaradwydd
　'N ail i saint yn ol eu swydd ;

A throi ar wedd athrawon,
I wylied dysg y wlad hon.

Efelly y caf allan—wir rinwedd
Yr enwog fardd Ioan,
Fod ei glod am fywyd glan
Er cof yn well na'r cyfan.

Y fan lle byddai 'n canu—y dynion
Gydunant o'i ddeutu ;
A'i awdl wych yn fynych fu
Yn foddion i'w llawn faeddu.

Ei waddolog feddyliau—oleuant
Yn loewon syniadau ;
Ei ddifyr waith wnai ddwfrhau
Y werin a'i fêl eiriau.

Mesuron a grymus eiriau—ac eithaf
Y caethion reolau,
E feddai 'r gŵr fodd i'w gwau—'n hysain
A llaw gywrain yn y dull gorau.

Am glod i'r Eisteddfodau—yn fynych
Anfonodd ei odlau ;
E fu 'r rhai'n at ei fawrhau—ŵr medrus
Yn gyhoeddus am ei gywyddau.

Cerddi tlysion llawn o swynion,
Myr ddiferion mor ddifyrus ;
Gwir alluog waith blodeuog,
Eilydd enwog o lwyddianus.

E gnydiodd i'w ganiadau—ryw lawer
O loewon feddyliau ;
O aiddgar fodd i gryfhau
Ei gedyrn olygiadau.

O Wynedd! Wynedd! unwaith—yn rhagor
Braen rwygwyd dy obaith;
Trwm, trwm oedd tori ymaith—gan angau
Fwlch y' muriau dy falch Omeriaith.

Gweddwyd y Cymreigyddion—e'u daliwyd
A dolur digalon;
Gwall a saif o golli Sion
I Wyneddig lenyddion.

Trwy'r wlad ceir siarad am Sion—gan hadlyd
Genhedlaeth ei feibion;
Hir erys hyd orwyrion
Hynaws ŵr am dano sôn.

A mynwesir yn mhen oesau—ei waith
Hyd eithaf y dehau;
Ni ŵyra hwn hawdd sicrhau
Ar goll o'n llyfrgellau.
E gaiff o hyd ei goffau—er mwyn cant
O'r rhai ni wyddant am ei rinweddau.

Holl lafur ei einioes yn llyfr ini
Ei awdlau gorddwfn, a'i hudawl gerddi;
Pe deuant allan i lân oleuni
Yn gorph o lawnwaith mewn argraffleni,
A fyddai 'n awr yn foddion i—leshau 'n tir,
Ac er feddylir i'n crefyddoli.

Och! Och angau! briwiau bron
Yw dilynwyr d'olwynion.
Onid gofid meib y gân
Na ellid dy gau allan,
O winllan werdd y cerddwyr,
O blith llawn enwogiawn ŵyr.

Aml ydynt d'ymweliadau
I allt y beirdd, esyllt bau;

I fwriadol ddifrodi
Ei heirddion blanigion hi.
Unwaith eto daeth atom
A llaw draws dy fwyell drom,
A diwreiddiaist gedrwydden
Hardd ei gwedd o Wynedd wen.
Felly Sion, cyfaill y saint,
A hunodd, nid drwy henaint;
Pump deg ei adeg ydoedd
A dwy flwydd laith eilwaith oedd;
Dyna ran ei dyner oes—
Mor wan yw muriau einioes!

Cau ar fedd bardd crefyddol
Roes i ni y rhai sy'n ol
Alar dwys am lawer dydd
Ar ol y cywir eilydd.

At hir fod uwch tir ei fedd—y dodwn
Ryw nodedig garnedd,
Byth yno i gofio gwedd
Man y gŵr lle mae 'n gorwedd.

Fy Iôn! cymhwysa finau
Yn fuan iawn i fwynhau
Y nefol wynfydol fan,
Bro dawel y brawd Ioan!

---

## JUBILI Y FIBL GYMDEITHAS YN 1854.

Y FLWYDDYN i orfoleddu—a ddaeth,
Rhwydd weithion yw canu;
Llawn achos llawenychu
Gafwyd uwch pob gofid du.

Ha! ha! daeth y Fibl Gymdeithas—gefnog
I gyfnod cyfaddas
O oedran, uwch galanas
Dynion a'u hamcanion cas.

Daeth yr adeg deg a deugain—rhyddid
Gyrhaeddodd drwy Frydain;
Y brudd si dry 'n beraidd sain
Drwy dir y De a'r Dwyrain.

Chwi feibion Sion, bawb sydd—o galon
A'u golwg ar grefydd,
Rhowch i Dduw, cysegrwch ddydd
O foliant dihefelydd.

Daioni drwyddi dreiddiodd—yn gyflym,
Ac aflwydd ni phrofodd;
Ei hamcan yn fuan fodd
Hyd glawr y byd eglurodd.

Rhoi Biblau yn llaw 'r bobloedd—a gweini
I'r gwahanol ieithoedd;
Huliaw 'r gair yn hael ar goedd
At wellhau tywyll leoedd.

O'i thrysor aeth i Rwsia—ac eilwaith
At drigolion China;
Yn unwedd dug ei newydd da
I'r dwyreindir, a'r India.

Yn mhell heddyw am ei llwyddiant—taened
Dynion ei gwir foliant;
Ei chlod hi ar uchel dant
Dros wyneb daear seiniant.

## I DANIEL JONES, LLYTHYR-GLUDYDD O BENYBONT I BENCOED,

*Pan yn cyflwyno tysteb iddo wrth roi ei swydd i fyny o herwydd henaint, ar ol gwasanaethu yn ffyddlon ynddi am fwy nag ugain mlynedd, yn* 1875.

Hir glod i'r Llythyr-gludydd—ein ffyddlon
Hen gyson negesydd;
Cof o'i waith yn faith a fydd
Am eiloes rhwng ein moelydd.

Mae degau o'r gym'dogaeth—mewn cyffro
Am eilio 'i ganmoliaeth;
Llesol cymwynasol wnaeth
Oes ini o wasanaeth.

Newyddion fu y nwyddau—a gludai 'n
Glöedig i'n teiau;
Rhyw lwyth hir o lythyrau
Cyfeiriog i'r boblog bau.

Cyneirddyn cyn y wawrddydd—a'i allan
Er hylled y stormydd,
Gan ymdaith i daith y dydd
Drwy 'r llwydrew tew a'r tywydd.

I arw berig lawer borau—yr aeth,
Er eithaf pob rhwystrau;
Ni wnaeth 'rhin na tharanau
I'w feddwl ef feddalhau.

Hir fu hyd hwyr ei fywyd—yn gweini,
Mewn gonest gelfyddyd;
Dwyn i'n bro, dyn yn ei bryd
Fu hwn bron at y fynyd.

Ond aeth yn hen, daeth anhunedd—i mewn,
A mynych hir waeledd;
A'i 'n ŵr llwyd dan arall wedd
Elfenau 'r olaf annedd.

O hyn allan enilled—ei fara
Heb lafurwaith caled,
Heb ei swydd ei lwydd ar led
Hyd dalar bywyd eled.

---

## AWDL AR Y GAUAF.

Yr adeg ddifreg dda hyfryd—hafaidd
Fu 'n hufen ein hawddfyd,
Y dyddiau llawn dedwyddyd
Heddyw aeth yn gaeth i gyd.

Bwriwyd i'r ysguboriau—ddigonedd
O gynyrch y caeau;
Cynullwyd, cludwyd fodd clau
Hael luniaeth i'r ydlanau.

Cychod y morgrug cochion—weis taerwedd
Ystoriwyd a digon,
A hwythau mal llwythau llon—hyd y fro
Ynt oll heno mewn teiau llawnion.

Yr un diwyd wrandawodd—yr addysg
Fawreddog a gafodd;
Gaiff heddyw fyw wrth ei fodd,
Ar y bwyd a ddarbododd.

Mewn pryd rhaid mynu priodol—foddion
At feddu 'n ddilynol,
Rhag gweled niwed yn ol—mewn eisiau,
Neu adfydau yn y dyfodol.

Tachwedd hen lawn tawch a ddaeth—a Rhagfyr
  A'u drygfyd yn helaeth;
Tywydd gwlawiog niwliog wnaeth
Hynt arall ar naturiaeth.

Yn rhwym y tymhor yma—o'i thrapherth
  I orphwys aeth *terra ;*
Ei maesydd a'i dolydd da
Hir orwedd dan yr eira.

Yr hen fam, yr hon a fu
Wrth alwad cri ei theulu
Yn barod heb orfod i
O'i gwenith lawn ddigoni
Eisiau a ffaeleddau 'i phlant,
A'u hamaethu rhag methiant,
Yn hir o'i thir a'i thoraeth
I'w hangen ei hufen aeth ;
Ond, ysywaeth, daeth y dydd
Erch anaf ar ei chynydd.
Gorddrwg yw ei golwg heb
Wir gynyrch ar ei gwyneb.
Ei maesydd hi 'r misoedd hyn
Geryddwyd hyd y gwreiddyn.
Marw a hesp am ryw yspaid
Ei gweddw fron ei goddef rhaid.

Mae 'r cyfan allan yn wywllyd—o'r bron,
  A'r bryniau 'n rhedynllyd ;
A'r wlad gain ar led i gyd
Yn groenllwm mewn gwisg grinllyd.

Weithian os allan syllaf
Golwg wyw a gwael a gaf ;
Pob bre a pharthle ffrwythlawn
Ydoedd gynt yn lleoedd llawn,
Y llawr, a phob lle araul,
Gynau oedd a gwenau haul,

Cydwedd ynt y coedydd hen
Yn ddiolwg heb ddeilen.
Ymddengys ar frys y fro
Yn oer ei grân ar grino.
O brudd iawn fyd, braidd yn fyw
Heneiddiodd anian heddyw.
Aeth ei llun yn chwith a llwyd,
A'i thegwch a waethygwyd;
Gwyneb wedd ei hegin byw
Erch heddyw a orchuddiwyd.

Aeth yrwan gaeth ddirywiaeth
Ar y bwydydd heb arbediaeth;
Ow! gwel diroedd ein gwladwriaeth,
Gwanwyd dwyrudd teg naturiaeth.

Onid mud yw 'r ednod mwyn
Yn tolach dan y tewlwyn;
Adlais trist, llais o bob llwyn,—weithian gaf,
Fynychaf yn achwyn

Och! Och mae 'r awchlym edlym ôdwlaw
Iasaidd tra aethaidd oer yn trwythaw,
A'r gwynt main o'r dwyrain daw—'n ystormus,
Un gerwin blwngus geir yn blingaw.

Dryllio 'r coedydd wnaeth y stormydd,
Yn swrth uswydd y syrthiasant;
Llwm a moelion ydynt weithion,
Fel ysbrydion noethion aethant.

Deifiwyd anurddwyd yn awr—holl lwyni
Dillynaidd ein gorawr;
Gorchuddiwyd lliwiwyd y llawr
'N oer wyn gan eira Ionawr.

Efelly os af allan
Irad y modd i'r ôd mân
Caf wisg, hir arwisg yn rhad
Hoff irwen fel offeiriad—

Gwisg angel i groen melyn
Rhywiog wedd o eira gwyn;
Bydd fy ngrân yn fuan fach
A'm gwyneb yn amgenach.

Gwyliwch yn awr fugeiliaid—hwyr olwg
I areilio 'r defaid;
Mwy i ddofion ymddifaid
Gweini b'och i'r gwan heb baid.

O'ch tai i awch y tywydd
Yn weis da ewch nos a dydd;
Mewn pryd ewch er mwyn y praidd,
I'w hareilio 'n rheolaidd,
Gyda'u dwyn i gyd i dir
Darn wastad o'r ynysdir;
Y tyner wyn tyner hwy
I'r hafodir porfadwy.

Och! 'does enyd o ddedwyddyd
Na chysurfyd achos oerfel;
Oer, oer aethus, yw 'r gwrth'nebus
Wyntoedd blwmgus awchus uchel.

Os â gŵr i segura—ei ddwylaw
A'i ddeulin a ffera;
O'i fwthyn y dyn nid â
Rhag garwed rhew ac eira.

Ar ei 'stol yr erys dyn—i dwymo
Hir dymhor fel plentyn;
Rhaid adrodd o'i fodd ni fyn
O'i le gwych roi ail gychwyn.

O fewn y tŷ ar fin tân—heb laesu
Bydd blasus ymddyddan;
Trin hanes yn gynes gan
Nos byncio ac ysboncian.

Rhyw dymhor llawn o soriant
Meddaf yw 'r gauaf i gant.
O'i fod y mae gofidiau
Nychlyd iawn, a chaled iau;
Daeth a chwerw gaeth garchariad,
A phrinder, lawer i'r wlad;
Tru iawn yw tŷ yr unig,
A llwyr yw poen llawer pig.

O lethrau deufryn hwyl weithia 'r dyfroedd
Yn llyr hyd waelod yr holl ardaloedd;
Ffynonau 'n berwi llenwi 'r llynoedd,
Gan bostio allan drwy bistylloedd,
Arswydus y flwngus floedd—ddydd a nos
Yn awr heb aros gawn o'r aberoedd.

Hir archoll pob rhyw orchwyl
Yw 'r gauaf chwerwaf ei chwyl.
Mae 'r barug mawr y borau
Yn flawd oer fel wedi 'i hau,
Rhyw gnwd o beth ar gnawd byw
Flawd anoddefawl ydyw;
Bydd oerder pob offeryn
Fel yn seriaw dwylaw dyn.

Trywaniad trwy ei 'winedd—yr anwyd
Yn crynu ei ddanedd;
Rhyw wenegawg iasawg gur
Difesur hyd ei fysedd.

Cymylau yn dyrau dwys
O hyd yn oerllyd arllwys;
Crogedig grugiau ydynt,
Fel yn gwau o flaen y gwynt.
Yn hir ni welir haulwen
Drwy y niwl yn uchder nen.
Byr, addoer, yw 'r boreuddydd,
Heinif y cau dorau 'r dydd.

Yna 'n ddiaros d'ai'r nos i nesu,
A'i duwch ar unwaith i'n dychrynu;
Tywyllwch tew ogylch yn mantellu,
A'r tawch awyrawl i hwyrawl yru,
A stormydd o dywydd du—y gauaf,
Oll am danaf i erchyll ymdaenu.

Ow eisioes, dyma noswaith
Arw ei lliw, oer yw a llaith.

Mae 'r awel lem yrwan—awch aethus
Yn chwythu drwy anian,
A'r iâs oer yn eres wân,
Pa ellyll, pwy á allan?

Llwyd a gwyw ydyw 'r adyn—yn edrych,
A'r didref gardotyn;
Cysurus dirus yw 'r dyn
Sy'n foethus yn ei fwthyn.

O lawer aelwyd fe welir wylo
Am gyflwr unig y morwr heno;
Yn mro dywell y llyr yn mordwyo,
A'r heli tonog oer waelod tano,
Trwy 'r nos heb un diddos do—er garwed,
Neu dŷ o nodded, i dynu iddo.

Un nos gauaf gaf fi gofio—weithian,
Un aethus aeth heibio;
Ces achos dios, do, do,
Roi mynych air am hono.

Curo yn hir fu 'r corwynt—chwibanu
Uwch ben fu 'r gogleddwynt;
A'r gwlaw yn gweithiaw drwy 'r gwynt,
A'i chwalu gan uchelwynt.

Diorfod erchyll dyrfau—trwy y nos,
Tr'enysawl ruadau;
A'r byllt tân gyrwyllt yn gwau
Hyd oruwch uchelderau.

A minau 'n oer fy mynwes,
Fy nhrin modd gerwin a ges;
Trwy y tewdrwch d'wllwch du,
Wb wedd! yn ymdrabaeddu;
Mewn ardal anial unig,
Hyd heol drwy ganol gwig,
Yn helbulus ofnus ŵr,
Anystwythaidd nos deithiwr;
Yn llwyd gan arswyd y nos,
Ac oerni 'r rhewog hirnos;
Yn cwynfan un gwan dan gel,
Ar ddarfod ar wedd oerfel.

Oer irad ydyw 'r aros
I maes ar neb amser nos,
Ond odid bydd niwl dudew,
Llymwynt ddwyreinwynt a rew;
Peryglus i fab briglwyd
Ar gul le, droi heibio 'r glwyd;
Ac iddo lithro ar lwyn,
Drwsgl ei agwedd, dros glogwyn;
A'i fwrw 'n fud farw 'n y fan,
I'r tew wyll y tu allan;
A'i gael yn farw gelain,
Yn bennoeth dranoeth mewn drain.

E allai fod ellyllon—ddechreunos
A ddychrynant ddynion;
Sibrwdir fod ysbrydion
Drwy 'n gorawr, arswydfawr sôn!

Y llongwyr ni ollyngant—i'r afon,
Eu rhwyfau orphwysant;
Felly yn hir sefyll want,
Am adeg ni symudant.

Mewn porthladdoedd fel coedwigoedd,
Yno 'n llengoedd cawn y llongau:

Yma tynant lle cysgodant
Yn rhwym moriant ger y muriau.

Ar gyfer y gauafu,
O lawer cyfyngder fu,
Cael dianc i'r clud dawel,
Orphwysfan dan gyfan gel;
Rydd anadl i'r môr ddynion,
'Nol cymysg derfysg y don;
I'r haddef pan gyrhaeddant,
Mawrhau 'r tir yn hir a wnant,
A'i alw 'n dref, am lawn dro
O'r adwythig fórdeithio.
Rhyw gyfnod byr rhag ofnau
O'r curfeydd er eu cryfhau,
Yn wrolion yr eilwaith,
Llawn mêr ar gyfer eu gwaith.

Er misoedd o ormesu—ar gysur
Drwy 'r gwasaidd weinyddu;
Melysder 'nol caethder cy'd
O'r gwaefyd, yw'r gauafu.

Er gwewyr hir y gauaf—a'i ddurfing
Ddu oerfel creulonaf,
Rhai a fydd, ni rhyfeddaf,
A gar hwn o flaen gwawr haf.

Ha! dyma 'r myg dymhor mad,
Hir fu hwn mewn erfyniad,
Medd rhywun, a'i gynllun gwaith,
A'i fwriad ar ddifyrwaith;
Ei ferw lef a'i ofer lol
At ei fudiad dyfodol.
"Caf heddyw hoenfyw iawnfodd
Diwarth fy myd, wrth fy modd;
A llai o ofal llafur,
A mesur cylch amser cur;

Yr hir gaeth oriau gweithiaw,
Yn fyrion i ddynion ddaw.
Mewn hyd am hwn o dymhawr
Byrhant, ac ni fyddant fawr.

Daeth yr hirnos, caf yn ddios
Fwy fwy aros i fyfyrio ;
Mewn ymroad llawn o deimlad
Duwiol fwriad i lafurio."

I'r plantos llios llawen,
Y dewr-weis bach, twym dros ben ;
Ac ereill gwŷr rhagorach
Fydd yn nghlyn â'r bechgyn bach ;
Byw redant eu bwriadau
Gan son fod gaua'n neshau ;
Ar y llyn fe geir y llu
Byr oesawg yn brywusu ;
Rhai ar lawr mewn cur ar led,
Yn dwyn O ! o dan niwed ;
A mwy eilwaith yn 'smala
Mewn gwyn fyd ar hyd yr ia ;
A gweis mawr heblaw rhyw blant
Gwasg yrant gaseg eira.
Dosbarth arall, nid callach,
Dynion fel o uchel ach,
Hen dylwyth y Nadolig,
Goriach wŷr am gwrw a chig.

Dynion blysig, tra sychedig,
A berwedig eu bwriadau ;
Am y mwyniant hir ddysgwyliant,
Yn dwym galwant am y gwyliau.

Hyrwyddaw llwyth o roddion—i'w gilydd
Y gwyliau bydd dynion ;
Hir fawrheir yr arfer hon
Hyd heddyw gan wladyddion.

I'r wledd Nadolig ein pendefigion,
Yn hir o fwriad, drwy hen arferion,
Yn ddiwall unant, gael byrddau llawnion,
Yn fwynwedd ddegau o foneddigion,
Rhai o gymeriad, a brig y mawrion,
Nid o weis taeog, ond gwir westeion.
O wraidd a sylwedd ein hurddasolion,
Rhai cun i archwaeth geir eu cynyrchion,
Nid cul o brisoedd, ond cael y breision,
Yn seigiau rhywiog, o'r naws goreuon,
A'u trin yn fedrus, flasus, felysion,
Ac yn eu mysg iawn hyddysg weinyddion,
A blawdog geinwallt, boledau gwynion,
A thaeniad o ameuthynon,—gwir dda,
Er brysiawg wledda, i'w bras goluddion.

Am gyson hirion oriau—dilynant
I lenwi' r cwpanau ;
O'r llynoedd diod a'r gwirod gorau
Meddwant, a phoethant, dan eu heffeithiau ;
Llyna y gwestwyr, yn llawn o gastiau,
Diras ymwriant am draws y muriau,
Ysgubant, hyrddiant, holl lestri 'r byrddau,
O'u cellwair gwelir hwy 'n colli 'r golau,
Y gwirf yn eu gorgryfhau,—yn benrydd,
I sathru 'u gilydd nosweithi'r gwyliau.

Dydd calan mewn rhyw fanau
Gwledd a fydd am ddydd neu ddau ;
Yn giniaw rydd y gwneir hon,
I wladwyr o dylodion.
Hen gloddwyr fydd yn gwledda,
Yn iach ar y darpar da ;
E fyn rhyw un, fwy na'i raid,
Gawellaid idd ei gylla.

Y Duw mawr roes dymhorau—i'r ddaear
O'i ddewis drefniadau ;
Hir redodd eu tröadau—heb ffaeledd,
Na dyrysedd, ar hyd yr oesau.

O dymhor i dymhor daw
'R olaf awr i lafuriaw,
Yn ddiwyd hyd y ddaear hon,
A'i gafaelog ofalon.
Cefnu y mae pob cyfnod
Ar ddyn, i derfyn mae 'n dod.
Rhyw esgud symud y sydd,
Bryd hau, a phob rhyw dywydd.
Brysio i arall breswyl,
Myn'd o hyd mewn nod o hwyl.
Fy Ner, dod gymhwysder mau,
Fo 'n hawdd i'm rifo 'n nyddiau ;
A byw ar gyfer y bedd,
Ar fin awyr fy niwedd,
O wydd enbydrwydd y byd,
A chalon i'w ochelyd ;
A'm creu 'n ol crefyddol fodd,
Mewn troi a myned trwyodd,
O gyflwr gŵr digariad,
I fwynhau Duw, gyfiawn Dad ;
I lan i'r drigfa lonydd,
Gwlad y saint, lawn golud sydd ;
I ddydd hir, diddiwedd haf,
O'r gauaf yn dragywydd.

## TROSGLWYDDIAD CRISTIONOGAETH I YNYS PRYDAIN O RUFAIN, FEL Y TYBIR YN OL HANESION.*

Henffych ddedwydd ddydd pan ddaeth—i'n Hynys
Wen anwyl Grist'nogaeth;
Ein rhesu 'n uwch ris a wnaeth,
A duwioli y dalaeth.

O Rufain bell y rhwyfodd—rhyw long fawr
O drysawr in' drosodd;
Y perlau gorau gariodd,
I Frydain y rhain hi rodd.

Trysorau nwyfau nefawl—a gafwyd,
Gwir gyfoeth encidiawl;
Nid toraeth byd daearawl,
Y golud gwell gwlad y gwawl.

Hir ofid eglwys Rhufain—fu edrych
Ymddifadrwydd Prydain
O'r Efengyl symyl sain,
'R un oreu er ein harwain.

Er tyst hir o'u tosturi—bwriadant
Ein brawdol waddoli,
Drwy roi 'r ffydd newydd i ni,
Oedd ddi ail i dduwioli.

Yn gangen o iawn gynghor—etholant,
Wyth aelod fel pwyllgor,
I wirio 'r myn'd draw i'r môr
Heb wall i arall oror.

* Ymddangosodd rai o'r Englynion hyn eisoes dan enw arall mewn camgymeriad.

Lluniwyd holl gynllun y daith—hon allan
Linellwyd yn berffaith;
Anturwyr, gweithwyr y gwaith
Fu 'n dwym am fyned ymaith.

Rhol afrwym hir o lyfrau—a gludant
O'u gwlad yn ysgrifiau;
A'u bryd oedd i barod hau,
Y teilwng epistolau.

Edrychwn eu hymdrechwaith—yn peri
Darparion y fordaith;
Penu amser dechre 'r daith,
Ar frig y wawr foregwaith.

Y llongwyr ni ollyngant—i'r eigion
Dan regu ni wnaethant;
Toddir hwy, at Dduw yr ânt
A'u haml weddi am lwyddiant.

Yna cawn gloch yn canu—a'r angor
Yn dringed i fynu,
Ac i'r llong gwel acw 'r llu
Dinasaidd yn dynesu.

Brân ac Ilid breiniawg welaf—a'r gwir
Ragorawl dad Cyndaf;
Dyna 'r gwŷr yn gynar gaf
Fel hyn yn cychwyn flaenaf.

I bant ymwthiant weithion—a'u hwyneb
Ar Ynys y Brython;
Dechreu 'r daith hyd ochrau 'r don,
A'r hwyliau i'r awelon.

Arwyddai y boreuddydd—yn siriol
Gysurus am dywydd;
Gwyneb llon y don bob dydd
Fel llyn yn eithaf llonydd.

Dysgu, pregethu fu 'r gwaith—a gadwant
Drwy gydol y fordaith;
Canant. gweddiant ddwywaith
Yn y dydd, hyd ben y daith.

I fynu rho'w'd y faner wen—a'r chwyf
Dyrchafawg fel breinlen;
Er eilbrawf ar yr hwylbren,
O gyson nod gweis y nen.

Ar ol rhyw ddirwystr hwyliaw—uwch aflwydd
A chyflym iawn foriaw,
Cyrhaeddwyd man y glaniaw
Yn iach ar draeth yr ochr draw.

Ha! ha! crechwena ferch unig—ar hyn,
Drwy 'r Ynys Brydeinig;
Yn hwy i'th ran, gwarth ni thrig,
Na'th dud yn wrthodedig.

Anwybodaeth hen a beidia—bellach,
Heb allu hi drenga;
Llenyddiaeth a'i thoraeth dda
A'i phenod hir a ffyna.

Gwir amod y gwŷr yma—oedd adrodd
Am dded'ryd Calfaria;
Hwn yw 'r dydd daeth newydd da
At drigolion tir Gwalia.

Eu gwarant hen, agorant hi—i ddal
Gwan ddeiliaid trueni;
Diorfod awdurdod i
Gymeryd am gamwri.

Ond gwelaf îrwaed o Galfaria—'n rhoi
Yr euog o'r ddalfa;
Hynod yw dawn y Duw da,
Dirwymwyd y rhai yma!

Nid hir y bu 'r tir heb roi toraeth—lawn
Ar ol hau Crist'nogaeth ;
Grasol ffrwythau 'n ddiau ddaeth
Yn gnwd drwy y genadaeth.

Hoffir weithion y ffrwythydd—a welir
Hyd waelod y bröydd ;
Llwythog a chyfoethog fydd
Cynhauaf y cae newydd.

Parod iawn fu 'r Prydeinwyr—o galon
I goelio 'r cenadwyr ;
Casglwyd, cyfodwyd ar fyr
Gôr dawnus o gredinwyr.

Rhanau helaeth o'r anialwch—dröwyd
I rywiog brydferthwch ;
Braenarwyd llyfnwyd yn llwch
Y wlad o'i hen galedwch.

Hen bwdyr anwybodaeth—a giliodd,
Ac olion paganiaeth ;
A diwreiddiwyd derwyddiaeth,
Ar frys o'r Ynys yr aeth.

Lefeiniwyd holl elfenau—yr Ynys
O ran eu daliadau ;
Bu glan a chyfan iachau
Ar duedd y credöau.

Rho'w'd amledd mawr o demlau—'n rai diwerth
Drwy 'r duwiol genadau ;
E luchiwyd y cromlechau
Luniwyd ger eilunod gau.

Eglwysdai ar y glasdon—dyfasant
Hyd faesydd Crist'nogion ;
Teimla'r oes at demlau 'r Ion
Yn rhwydd drwy eu cydroddion.

Ni ddaliai eilunaddoliaeth—yn hy
Dan awyr Crist'nogaeth ;
Goleu hon yn union wnaeth
Hir newid ar annuwiaeth.

Ofergoelion y fro giliodd—ar fyr
Drwg arferion beidiodd ;
Dwl a ffug chwedlau a ffodd,
Efengyl a'u cyfyngodd.

Golud euraidd ein gwladwriaeth—enwog
Yw rhinwedd Crist'nogaeth ;
Ein rhyddid da drwyddi daeth,
I'n tir er gwir ragoriaeth.

Diwygio a newid agwedd—dynion,
A'u denu at sylwedd ;
Wele hon, efengyl hedd,
Bia 'r enw am bob rhinwedd.

---

## ANERCH I LYFR BARDDONOL MR. WILLIAM JONES, CAERPHILI (Gwilym Ilid),

*A ddysgwylid drwy y Wasg—hen gyfaill mynwesol yr awdwr yn moreu ei oes.*

Yn Llyfr gwelir llafur Gwilym—Ilid,
Hyd eiloes bydd genym,
Gynghanedd o ryfedd rym
Gan brydydd, derwydd deurym.

Weithion drigolion Gwalia—e huliwyd
I'n helaeth gyfleusdra,
I gael caeth farddoniaeth dda,
Goremawg y gŵr yma.

O'i lafur mwy ni lyfwn—y casgliad
O'r cwsgle fawrygwn;
I weled holl waelod hwn,
Ei ddalenau ddilynwn.

Llwyddianus allu ei ddoniau--ffrwythlon,
A'u gryfion ysgrifiau;
Ddyrneidiodd addurniadau
Yn rhes hyd ei fynwes fau.

Adgofion dibaid gyfyd—i'm meddwl
O'r moddau gorhyfryd,
Y buom forau bywyd
Yn prydu, cynghanu 'nghyd.

Dilyn, ymofyn a * Myfyr--yn mhellach
Am wallau dechreuwyr;
Dynodi doniau awdwyr,
A thrin gwaith yr enwog wŷr.

Mawr helynt am reolau—a gweuad
Rhyw gywydd, neu awdlau,
Maes eurwedd y mesurau,
Dynai 'n deg ein bryd ni 'n dau.

Dau enaid wedi 'u hunaw—dau gyfoed,
Dau gyfaill diwyraw;
Dau feddwl yn cyd-foddiaw,
'R un syniad llygad a llaw.

Fel hyn yn dra aflonydd—ni fyddem
Am faeddu ein gilydd;
Diniwed o un awydd
A mynwes dwym nos a dydd.

* Ieuan Myfyr ein hathraw barddonol.

Hafaidd arafaidd foreufyd—ydoedd,
Ac adeg ieuengtyd ;
Cyn i aur, neu bethau 'r byd,
Yn ofalon afaelyd.

Ond darfu maethu esmwythyd—bu rhaid
Drwy briodi gymr'yd
Mynyddau o bwysau 'r byd,
A'i ddyfal ofal hefyd.

Ond yn awr o dan hiraeth—yr ydwyf
Er adeg marwolaeth
Y Bardd t'lysog, enwog, aeth
I gell dywell neillduaeth.

I'r oer fan 'r eir a finau—yn fuan
O fywyd fel yntau;
Yn hir gadewir ni 'n dau
Fel ereill yn faluriau.

Ond ar ol fy nghnawd dreuliaw—a'm hesgyrn
Gymysgawl faluriaw,
Credaf, hyderaf i'm daw
Arddelwad o'r ddeheulaw.

---

## ENGLYNION I'R GOLAU DYRAU (Lighthouses), adeiladwyd yn 1837, ar fin y môr, gerllaw Marcroes, Morganwg.

Ar lan môr geulan gwelaf—yn mro gain
Morganwg, pan sylwaf;
Dau o Dyrau golau gaf,
A'u daioni adwaenaf.

Y tyrau ydynt arwydd—o hirbell
I arbed enbydrwydd,
I forwyr anghyfarwydd
O'r graig hir geir ger eu gwydd.

Dau binacl a'u dybenion—diyngawl,
Er dangos i ddynion
Yn eglur fod peryglon
Ar y môr drwy 'r oror hon.

E ga y morwyr gymerant—rybudd
Ryw obaith cyrhaeddant
Ben y daith, a bendithiant
Y Tyrau a'r golau gânt.

Arbedir eu bywydau—o gyni,
Drwy geinwawl y Tyrau;
Ofnant arswydant neshau
Yn rhy agos i'r creigiau.

Yn mhell o'r draethell draw weithion—i'r de'
Mordwyant yn union;
Hwyliant er digter y don
O gyrhaedd lleoedd geirwon.

O bell gwelant ddau bill golau—yn esgyn
Uwch ysgwydd y tonau,
A'u gwawl craid yn danbaid, a'u
Tywyniad ar y tonau.

Teryll wlad y trallodion—a goror
Y garwaf beryglon,
Yn hir ogylch fu 'r eigion,
Ger Marcroes hyd yr oes hon.

Erch wylofus grochlefau—a gawsom,
Gan gwyswyr y tonau,
Er arswyd glywyd yn glau
Odd y mynych ddamweiniau.

Ond mwyach yn iach i ochain—marwol
Y morwyr, a'u llefain ;
Ar ol adeiladu 'r rhain,
Ni dd'ai yma un ddamwain.

I nen y Tyrau anturiaf—ar war
Y môrwerydd byddaf ;
Am unwaith yma mynaf
Wel'd yr oll o * Wlad yr Haf.

Drwy ryw gywrain dra rhagorol—seiri,
A meini dymunol,
Y Tyrau flynyddau 'n ol
Ddodwyd yn gelfyddydol.

---

## CYWYDD AR DDAMMEG YR HAUWR.

Rhyw ŵr o hauwr hywydd
Aeth yn dal i'w waith un dydd,
Ar dymor teg, adeg hau,
Ni bu rheidiach bwriadau ;
Ac union oedd amcaniad
Y dyn hwn i daenu hâd.
I'r perwyl fe ddarparodd
Yd iachus ofalus fodd.
Nid afrif gnwd o efrau
Ar y grwn wnai hwn eu hau.
Ac heb ddim trai rhoddai 'n rhydd
Dda fesur idd ei faesydd.
E brynai had heb brinhau
I gyd o'r gwir-ŷd gorau.

* Somersetshire, ar gyfer y Tyrau y tu arall i'r môr.

Er hyny, medd yr hanes,
Diau 'r gwir yn gywir ges,
Trwy fod hwn yn trafod hau
O fewn gwahanol fanau.
Methodd yn rhywfodd i'r had
Gyrhaedd man gwir ddymuniad
Y gŵr, er mor gywir oedd
Ei law mewn amryw leoedd;
Ond cyfran fechan ryw fodd
Ar lethrog dir a lithrodd;
Dros y ffin am draws y ffordd,
Hynawd anffawd i'r gefnffordd;
I le serth, di werth yn wir,
Ar galedwch rhyw gleidir,
A bu fo yno enyd
Wenith gwỳn, yn noeth i gyd.
Wedi 'r hau o eisiau âr
Yn dew hyd wyneb daear,
Yna 'r adar yn heidiau
O ddyffryn a glyn yn glau,
Yn daerion yno dyrant,
I'w gipio a'i bigo 'i bant;
Ar fwyd adar haf ydoedd,
Llawer pig o'r goedwig oedd;
Felly mae 'n bur eglur i'n
Na fragodd hwn fawr egin.

A pheth drwy nod anffodiog
A syrthiodd i'r creigdir crog;
Ar le noeth, crasboeth, crin,
Yn edrych yn anhydrin.
Garw oedd hwn er gwreiddio had
Fron erwin ddifraenariad;
Ac yno yr eginodd,
Daeth i'r lan yn fuan fodd;
A bu am dro yno i'n
Olygus argoel egin.

Ond gwelwyd yn deg eilwaith
Yn ymyl y grwn aml graith;
Gwywo 'n hoedd yr oedd er hyn
Yn raddol dan ei wreiddyn;
Yna y dydd pan y daeth
Yr haulwen fawr reolaeth,
Uwch ben gan rwygo 'r lleni,
'Noeth a brwd mewn eitha' bri,
A gyru i bob gorawr
Nerthol wres er lles i'r llawr,
Deifiodd, e ddarfyddodd fod,
A gwywodd fel un gawod.

Ac er gwall peth arall aeth
I'r dreiniog dir di driniaeth.
Rhyw dud agored ydoedd,
Llawn o chwyn anhyddyn oedd;
Anmharod i gym'ryd had,
Diau trwy eisiau trwsiad;
Ac yno pan eginodd
Am y drain efe ymdrodd,
Mieri d'rysi 'n drawsion,
Godai fyrdd gyda 'i fôn;
A'r had yma er damwain
Lethwyd draw yn mhlith y drain.

Ond peth modd difeth dyfodd
Ar y maes, a dyma 'r modd—
Fe gadd hwn drwy 'r grwn i'r gwraidd
Dir âr, a daear iraidd,
Forau a hwyr i'w ddwfrhau,
Ef ydoedd mân gafodau;
A heulog ffres awelon,
Yn gu i faethu ei fôn;
Nes ei ddod o nos i ddydd
I egino ar gynydd.

A dyna wnaeth dwyn i ni
Doreithiog ffrithiog ffrwythi ;
Cain addfed gnwd cynyddfawr,
Tew, a llyfn, yn toi y llawr.

Yn awr f' awen dyben da
Yw'th amod y waith yma ;
Nid i enill clod dynion,
Neu gyrhaedd aur yw'r gerdd hon ;
Cul yw dyn, anhawdd cael dau
I ddal yr un meddyliau.
Dieithr dyb, y doeth a'r dwl
Ni fyddant o'r un feddwl.
'Nawr er gallael cael un call,
Ni fydd ŵr wrth fodd arall.
Mae 'r rheol yn amrywio,
'Nol teimlad rhyw feirniad fo ;
Waith dyna yw iaith dyniawn,
" Waeled i ddoeth wel'd ei ddawn."
Ni ddylai deddf cynneddfau
Yn sal iawn ein hiselhau ;
Ni all dawn enill dynion
Drwy wir flas at ras yr Iôn.
O am fod drwy hynod hawl
Yn ddyn f'ai yn feddianawl
O lais da, neu felus dôn,
Hefelydd i'r nefolion ;
Gyda threiddiol dduwiol ddawn,
I dwym agor dammegiawn.

Yn awr wedi'i ni yn ol
Allu 'i thrin yn llyth'renol,
Ein nod fydd dyfod yn deg
Oddi yma at y ddammeg ;
Rhaid eilwaith ysbrydoli
Hon yn awr, a'i hagawr hi.

Gair yr Iôn mewn gwir yw'r had,
Yn goeth drwy ei bregethiad ;
Y dirion genadwri
O orsedd Ner sydd i ni.
Dyna'r had o daeniad dyn
Wedi 'i wasgar, sy'n disgyn
Yn hoedd i leoedd lawer,
Gan ffyddlon genadon Ner.
Nid oes dir yn wir sydd waeth
Na dynion digrediniaeth.
Gelynion o galonau,
Yn byw ar gefn y llwybr gau.

Rhai dylem briodoli
Eu drych hwynt nid hwyrach i
Fin y ffordd, anhydrin âr
Ger y berth, ddiwerth ddaear ;
Ar yr hwn pan r'oir yr had,
Tra ëon yr un t'rawiad,
Ymosod am ei ysu
Wna 'r adar erlyngar lu.
Wel onid yw calon dyn,
Noeth galed nyth y gelyn,
Yn fan rhy gyfan i'r gair,
Rhy daeog i'r had diwair ?
A mwy anhawdd, mae yn hon
Lu anwar o elynion ;
Gwŷr deurym yn gordaraw,
Yn arfog llidiog gerllaw.
Ni faidd y gair diwair da
Drwg ammarch drigo yma.
Er eonder i'w wrando
Ni thrig hwn yn faeth i'r cô' ;
Y diafol sydd yn dyfod,
Un o'i fath gwae ni ei fod,
Gelyn drwg ei gilwg yw,
Hen edyn gair Iôn ydyw.

Nos a dydd e fydd yn faith
Oll am ei enill ymaith,
A'i gael o dir y galon,
Y gair o hyd gyr o hon,
Rhag iddo yno enyn,
A dod i gymell y dyn,
I droi ei gred i dir gras,
Am nodded i'r man addas.
Cyn i'r gair enyn yno
Gwaith hawdd oedd ei ddiffawdd o.

Y rhes o'r tylwyth nesaf
Yn y gair eu henwau gaf;
Gelwir hwynt y creigdir cras,
Dyna iddynt enw addas.
Dyma 'r sawl am dymhor sydd
Yn gwrandaw 'n llawn llawenydd.
E allai 'r ant oll ar ol
Cywir foddion crefyddol.
At yr eglwys y treiglant,
Yn dal i blith duwiol blant;
A rhoddant rai arwyddion
Eu bod hwy 'n adnabod Iôn.
Os tywydd digerydd gant,
Fel duwiol hwy flodeuant.
A mynegant mewn agwedd
Oddi allan ran gwir hedd;
Ond amser gorthrymderau
Ddaeth ysywaeth i neshau;
Trabludd, arludd, ac erlid,
Rhwystrawl a gelynawl lid;
A thrwy y dieithr dywydd,
Oerai ddiffoddai eu ffydd.
Yn nydd hyludd ni ddaliant,
Coeliwn hyn, encilio wnant.

Eto caf er gwaethaf gwall,
Enwi tir o bwynt arall.

Tir lled ddrwg i'm golwg i,
Man dinerth mewn daioni;
Un noeth sal yn eitha' sur,
Yw hwn eto wrth natur.
Glyn yw ef, heb fawr glanhad,
Na mesur o gymhwysiad;
Yn ddrain byw o ryw aml rith,
A chnaif wyllt, chwyn y felldith.
Daear dost i hau 'r had da
Yw y dreiniog dir yna.
Wrth weled waeled ei wedd,
Y dreiniog dir di rinwedd,
Sy'n addas enw iddo,
Un heb well i'w atteb o.
Wrth y dreiniog dwynog dir,
Yn ddilys y meddylir
Y dynion digred hyny
Heb driniaeth ysywaeth sy'
Yn galed, heb argoelion
Unrhyw friw yn nhir y fron;
Yn oer, ac heb dynerwch,
Pechadur yn llyfu 'r llwch.
Y mae 'r rhai'n mawr o honynt,
Ië 'r dyrfa fwyaf ynt;
E adwaenir y dynion
Yn mhob lle yn mhebyll Iôn;
Yn gyson ymddangosant,
Heb fethu mynychu wnant
I dŷ Dduw, yn lled ddiwyd
Dan y gair, dyna i gyd;
A difraw y gwrandawant,
Heb wir effaith ymaith ant;
Nid ydynt enwaededig
Yn ddynion o galon gig;
Ni cha'r had da chwareu teg
Yn y bryd ond byr adeg;

Yna yn frwd dan y fron
Gafaelyd wna gofalon ;
Parhaus swn y presenol,
Yno fydd ddilonydd lol ;
Dyna 'r pethau feiddia fod
Yn fawrdwrdd drwy 'r myfyrdod ;
Masnachu, prynu, trin pres,
A fynent gael y fonwes.
Bwyd y serch yw 'r byd, a'i son,
A'i aml leisiau melysion ;
Aeth ysbryd y byd rhy bell,
Yn llanw i bob llinell ;
Aeth y gair ymaith i gyd
Heibio fel heb afaelyd.

Och, weithian, mi wela 'n wir,
Nid toreithiog y trithir
A nodwyd, dyna 'u hadwyth,
Gwyw a phrin i heigio ffrwyth.
Di lwydd a fu 'r dygwyddiad,
Ni fu er hyn fai yr had ;
Digyrith o'r ŷd gorau
Yn gnwd hael y gwnaed eu hau ;
Eithr ni ddaeth yr un na ddo
I atteb yn dda eto.

Ond yn awr nid da i ni
O gael hyn ddigaloni.
Dyma dir da o'r diwedd,
Hyfryded weled ei wedd.
Maes yw hwn cymwys i had,
Tra enwog o ran triniad ;
Llaw forau y llafurydd
Mal ar dasg am lawer dydd,
A'i fyw nerth fu 'n hoew wrtho,
Er ei glod i'w drafod dro ;

Nes iddo'i drwsio drosodd,
Yn ol ei arferol fodd ;
Daeth i ddrych llyfnwych 'nol llaw,
Wedi 'r oged ei rwygaw,
Yn bridd, a phob ireiddiwch,
Ynddo 'n llawn o'i arddu 'n llwch ;
Gwelir ef fel gwâl i'r had
Bryd hau dan barotôad ;
Tyf pob rhith o'r gwenith gwŷn,
Bywydir ef bob hedyn.

Ond nid tir da naturiol
Sydd wedi ei nodi 'n ol ;
Eithr dynion yn Sion sydd,
Dreiglasant i'r eglwysydd,
Ac yno 'n blodeuo 'n deg,
Heb edwi ar bob adeg ;
I gyd yn dygyd digawn
O ffrwythau yn llwythau llawn.
Toddiadau 'r cystuddiedig,
Yn aml drwy y teimlad drig ;
Diferion edifeirwch,
A'u ceidw 'i lawr gerllaw 'r llwch ;
Drwg haeddiant argyhoedda
Ddyn yn llym o'i ddiddym dda ;
Lefeiniwyd dôl y fynwes
Ar ol er dilynol les ;
Hawdd yw dweyd y newydd da
Hyn am y dynion yma ;
Eu bod hwy yn byw o dan
Driniaeth Duw Iôr ei hunan ;
Parod dir drwy 'r Ysbryd ynt.
Maes i had cymwys ydynt :
Ar gael yn awr eu glanhau
I ddidwyll dueddiadau ;
Gwydau gant o'u tyfiant ir
Yn raddol a ddadwreiddir ;

Dirgelaidd dir y galon,
Gwellheir ef a gallu 'r Iôn.
A daw i heigiaw egin,
'Nol y draul o'i fanwl drin ;
Mil o hwynt yn amlhau,
Yn freision îr dwf rasau ;
Heirdd o liw a'u gwraidd i lawr,
Yn addfed a chynyddfawr,
Gwyrdd eu brig, o gyrhaedd braw
Y gauaf, byth eu gwywaw ;
Dewisolion pigion per,
Yn rudd-daeu mewn ireidd-der ;
O ansawdd dwym hinsawdd deg,
Dihafal ardal ôrdeg.
Dan awyr bur dyner bau,
Eur groth y rhagoriaethau,
Y gwreiddiol fan lle ganwyd
Pob rhagorol nefol nwyd.
Planhigion tirfion ein tir
Yma 'i wared gymerir ;
A'u himpio 'n dwym, gamp ein Duw,
I dir enaid yr annuw.

Dyna wna dir da o'r dyn,
A'i ddarbod fel i dderbyn,
I'r fynwes res o rasau,
O fewn hon i'w dwfnhau.
A'r rhai'n yn wir gain eu gwedd,
Wrth linell o ffrwythlonedd ;
Rhosynau per a swynawl,
Goludog ardd gwlad y gwawl ;
Ei grefydd Ef gerfiodd Iôn,
O'r golwg ar y galon ;
Daeth i'r wyneb burdeb wedd.
Mewn trefnus iachus fuchedd ;
Yn rhydd ddigerydd gariad,
Ufel yw o'r nefol wlad.

Hyn weithion, O dirion Dad.
Wan was, yw fy newisiad ;
Yn rhwydd o ran egwyddawr
Iti berchenogi 'n awr
Y galon hon, i'w glanhau,
Yn dir i dderbyn d'eiriau.

---

## ENGLYNION COFFADWRIAETHOL AM Y PARCH. DAVID HOWELLS, O ABERTAWE;

*Gweinidog parchus iawn, a hynod o dduwiol, gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a chyfaill mynwesol i'r Bardd.*
*Bu farw Awst 4ydd*, 1873.

Ow! irad deimlad amlwg—o alar
Yn gwelwi pob golwg ;
Ochus dro fu 'r achos drwg
I'r genedl drwy Forganwg.

Y brawd Howells Abertawe—alwyd
I'w olaf orweddle ;
Aeth ar naid i eitha 'r ne',
I'r eglwys fry a'i thrigle.

Gallu dal y golled hon—i'w hadrodd
Ni fedraf yr awrhon ;
Ysig friw y bwysig fron,
Esgora loesau geirwon.

Un o'i frodyr yn friwedig—ydyw
Yr awdwr siomedig ;
Am dad ymadawedig
Adgofion o'i droion drig.

Y glaswellt a'r teg lysiau—a daenwyd
Hyd wyneb y caeau,
Eneiniwyd a defnynau
Y rudd hallt i'w hireiddhau.

Dyn anwyl, anwyl ei hanes—a'i ddull
Oedd hollol ddirodres;
Dyfeisio, cynllunio lles
Oedd fwyniant idd ei fynwes.

Gŵr a'i ofal am grefydd,—oedd Howells,
Hen dduwiol wyliedydd;
Un o fil o'i hefelydd,
Yr oes hon yn aros sydd.

Dyn ydoedd yn dwyn nodau—gwir bwysig
Y nodedig dadau,
Dynion heb argoelion gau,
Cain weision y cyn oesau.

Un toddadwy cystuddiedig—ei wedd,
Yn wreiddiol grynedig;
Diail frawd duwiolfrydig,
Drwy 'r wlad hon ei droion drig.

Rhy gyrith y ceir geiriau—neu ddawnus
Farddonol feddyliau,
Er rhoi gwerth rhagoriaethau
Ei lafur ef heb lwfrhau.

O'n degau gweinidogion—a urddwyd,
A'n hyfforddus weision,
Os gwnaf, ni chamsyniaf sôn
Roi Howells o'u goreuon.

Am lawn driugain mlynedd—'n awyddus
Cyhoeddai dangnefedd,
Hyd ganol De a Gwynedd,
Daliai 'n faith hyd lan ei fedd.

Cyn iddo dreulio drwy waeledd—henaint
Ei enwog wir fawredd,
O ganol ei ogonedd,
A'i waith ar ben, aeth i'r bedd.

Cof hir o'r gŵr cyfarwydd—ei archwaeth
At orchwyl ei Arglwydd ;
Rhaid yw son na chariwyd swydd
Arch esgob ar uwch ysgwydd.

Pynciau a phethau effeithiol—y gair
Egorai 'n iachusol,
Dilys hir erys ar ol
Bennodau 'i waith bendithiol.

I'r gweryd dan aur goron—o buredd
Y bwriwyd y Cristion ;
Addfed oedd i wyddfod Iôn,
A theulu 'r perffeitholion.

Byw mwyach heb amheuon—heb bechod,
Heb achos helbulon ;
Man ei sedd yw mynwes Iôn,
Trigfanau 'r gynau gwỳnion.

Hyderaf finau dirio—o'r fordaith
Ar fyrder byth ato,
I'r urddasol freiniol fro,
O'r lludded gerllaw iddo.

---

## DIOLCHGARWCH AM GYNHAUAF Y FLWYDDYN 1845.

Can newydd i'r cynhauaf—o ddifri
Eleni a luniaf ;
O'r llwch diolwch dalaf
Weithian am fendithion hâf.

Hin deg, ac adeg codi—ŷd bara
Duw barodd ei roddi;
Dileniad o'i haelioni
Helaeth, yw 'n cynaliaeth ni.

Adlanwyd yr ydlanau—â gwenith
Hael gynyrch y cnydau;
Dewrym wŷr fu heb drymhau.
Yn cywain ŷd y caeau.

Meib y lle fel yn mhob llun—rhai heinif
Rhyw hanner noeth lymun,
Gweithwyr pybyr fu pobun,
Y glew a'r tew yn gytun.

Y wlad drwy 'r holl waelodion—a welir
Un olwg yr awrhon,
Crugiau ŷd a gwair hyd hon,
Rhwng tai yn rhengau tewion.

Ofer yn wir in' fraenaru—hau 'r had,
Aredig, a llyfnu,
Oni rhydd Duw 'r cynydd cu,
Ffydd amaethydd sy'n methu.

'Rol yr hirfaith draul ar erfyn—a chael
Dychweliad y flwyddyn,
Llawn fwynhad i deimlad dyn
Bair gwyneb yr eginyn.

Llaw forau y llafurydd—a'i ludded
A lwyddai o newydd;
Chwys ei dal, drwy 'i ddyfal ddydd
Wobrwywyd hyd ein bröydd.

O'i chwys a'i flin achosion—gwasgedig,
Ysgydwodd yr awrhon;
Ni theimla 'rawg serchawg sôn
Un o fil o'i ofalon.

Adwaenir yn mhryd ei wyneb—fwyniant
Tufewnol sirioldeb ;
Dweyd a wnaf, na waded neb
Mai llawnder yw mam llondeb.

Haf a chynhauaf newydd—haul a'i wên
I loni 'r amaethydd,
Yn is a'i dod nos a dydd
Yn nyled ei Gynalydd.

Pa werth i Dduw ein porthi—ac estyn
Ei gostus ddaioni
O hyd yn awr, a'n gwel'd ni
Heb archwaeth at ei berchi ?

Yn ganmil uwch ei ganmol Ef—ddylem
Ei ddeiliaid rhaid addef ;
Iddo 'n hawdd trwy nawdd y nef,
Yn danllyd rhown glod unllef.

Dwyn ebyrth i'w gydnabod—yn ddilai
A ddylem mewn syndod ;
Mwyhau ei fawl am ei fod
Yn ddi ail i eiddilod.

---

## AWDL AR FYWYD A NODWEDDIAD Y BRENIN DA JOSIAH.

Hysbysu hanes bwysig—yr ydwyf,
Am rodiad nodedig,
Gŵr swyddawl, o freiniawl frig
A dyfodd yn bendefig.

Dwyn allan fywiog hanes—dda eirwir
Ddyddorawl a chynes,
I'r byw y gyfryw gofres
Ar ol hyn all enyn lles.

O had breninoedd Judah,
Ar droion cawd dynion da,
Yn aml dan wir deimlad dwys,
I gamu, a byw 'n gymhwys,
I'r alwad o reoli
Y wlad hen, a'i deiliaid hi.

Y gŵr da, Josiah 'r sant,
Mawl iddo am ei lwyddiant;
Hwn gaiff fod yn nod i ni,
Am eiliad i ymholi,
Am arogl ei gymeriad
Fel llywydd, golygydd gwlad.

Yn ddiniwed ddyn ieuanc,
Pan oedd o alluoedd llanc,
Ar dyner doriad einioes,
Yn rhiaidd fab, hardd ei foes;
Daeth i hawl uwch swyddawl sedd,
Yn frenin o fawr rinwedd.

Dyn ieuanc o dŷ annuwiol—ydoedd,
A godai 'n grefyddol;
Fore 'i oes ni fu ar ol
O ddewis buchedd dduwiol.

Rhyfeddawl na ddarfu iddo—gym'ryd
Hyll gamrau 'i dad ato,
Ac i'r drwg anhygar dro
Wan enaid ei wenwyno.

Mae hanes mor ddymunol—am bendod
Yn mhob undeb gwladol,
I gyd yn addysgiadol—i'r oesau,
A dalenau y byd dilynol.

Nid arwain nosawl deyrnasiad—ereill
Drwy erwin lywyddiad ;
Ond ceisio ail lunio 'r wlad
Oll trosodd ar well trwsiad.

Rhyw fwriad duwiol neu orfrwd awydd
Sydd egniol yn y swyddog newydd,
Yn groes i lawer fel grasol lywydd,
Mewn ymdrechion cryfion yn mhlaid crefydd,
Mawr o dda yn more 'i ddydd—drwyddo gaid,
Iachau ei ddeiliaid wnai'r arch addolydd.

Wele y pen fachgenyn
O flaen ei ddod fel yn ddyn,
Yn unwedd a'i eneiniad
O'i fyn'd ef i fan ei dad.

Mewn oedran llanc ieuanc oedd,
Rhyw wyth oed o nerth ydoedd ;
Rhy dyner ar gyfer gwaith,
Neu ludded ei lywyddwaith.

Ei ddifai arafaidd foreufyd—roes,
A'i wresog ieuengtyd,
Ei ddyddiau goreu i gyd,
Yn ddifwlch i Dduw hefyd.

Wrth weled anferth waeledd
Achos Iôn, a'i nychus wedd,
Hen grefydd Dafydd ei dad,
Yn drwyadl mewn dirywiad ;
Ei bywyd a'i hysbryd hi
Adwaenid yn dihoeni ;
Teml Iôn, y tŷ molianu,
Anadl fel i'r genedl fu ;
Hwn welid yn anialwch,
Duwiol le yn dew o lwch ;
Oll yn ddrwg ei olwg aeth,
Yn hen dŷ mewn andwyaeth.

Y pen uchelwr pan y chwiliodd
Hanes fanwl o'i deyrnas fynodd,
Ei ofal drosti, drwyddi dreiddiodd,
Ar feddal enw nid hir foddlonodd,
Am ei ddeiliaid meddyliodd—a thrwyddynt
Am eu helynt y llwyr ymholodd.

Y genedl mewn drygioni—ymhoffodd,
Mae effaith hyn arni;
Gan Dduw lwyd gadawyd hi
I ddilyn gau addoli.

Drych y wlad drwy ei chaledwch—lwyddodd
I ladd ei phrydferthwch;
Aeth yn ol i rith anialwch—gwywyd,
Ac anurddwyd, ei holl gyn-harddwch.

Darfu gweled holl dyrfa y gwyliau
Drwy 'r oesoedd gynt ydoedd gan y tadau,
Ganoedd a miloedd hyd yr ymylau,
Y tramwyasant y tir am oesau,
Yn orfyw rhedodd yr arferiadau,
Yn dwym i addoli Duw y duwiau,
Meib y tir fu 'n hir fwynhau—y gwleddoedd,
A duwiol ydoedd ffurf eu daliadau.

Ond ysywaeth cyn dyfod Josiah
Drwy iawn osodiad ar deyrnas Judah,
Oer iawn yw adrodd, daeth arni wywdra,
Rhyw irad oerfel ac awel gaua';
Rhywfodd aeth y grefydd dda—yn nychlyd
Yn hir y' mywyd hen Jeremiah.

Addoliad ro'ent i ddelwau—eu Baalim,
A'u bawlyd au-dduwiau;
Dilynant eu duw-luniau—mewn t'w'llwch,
A gwarth galedwch gwrthgiliadau.

Ar ol agor arolygiaeth
Ar y deiliaid drwy y dalaeth,
Oerwedd rewog hir ddirywiaeth,
Yrodd ddiwedd ar Iuddewaeth.

Dwyn yr oes, dyna 'r eisiau,
Ar well llun, a'i gwir wellhau;
Y draul hir o droi y wlad
O wyrni cyfeiliornad,
Cofier anhawsder oedd hyn,
I'w gynyg gan fachgenyn.

Gwrhydri gwir yw adrodd—a deunerth
Fel dyn a ddangosodd;
Yn ei flaen aeth ni flinodd—nid dynion
Na dig gelynion a'i digalonodd.

Grymysu a gorymosod—a wnaeth,
Yn eithaf digryndod;
Mewn ymdrech cryf a phechod—bob amser
Gwnaeth arfer dewrder ac awdurdod.

Eiddigedd am ddiwygio—du wyrni
Y deyrnas oedd arno;
Ei fwriad roes a'i lafur dro—at hyn,
A throi 'n offeryn i'w thrin a'i phuro.

Ymröid gŵr mor ieuanc,
A'i aidd llawn yn nyddiau llanc,
Y cryfder o arfer hyn,
Roes syndod ar ras undyn.

Bu 'n un didderbyn wyneb—di orbarch
Hyd arbed anmhurdeb;
Ni feddai hwn foddineb—un amser
Am iselder y wlad a'i moesoldeb.

Gweddiwyr y gau dduwiau—dderbyniodd
Orboenus fflangellau;
Y lliaws gwŷr i'w llesghau
Dialodd ar eu delwau.

Y bobl luniant bob eilynod—mudion,
Ymwadant a'r Duwdod;
Y dynion oll, dyna 'u nôd,
A werthant Dduw, a'i wrthod.

Y teyrn Josiah trwy hyn neshäodd,
A'i barod feddwl ddyn brwd e feiddiodd
Ar wedd gyhoeddus yr eiddigeddodd,
Holl ffurf diwygiwr y gŵr a gariodd,
Y gau addolwyr rhai drwg a ddaliodd,
A'u hir allorau yn gandryll yrodd,
I waith y driniaeth Duw a'i harweiniodd,
Offeiriaid eu Baal grwn haid gernodiodd,
Ac er mor gedyrn eu hesgyrn losgodd,
Eu bywydau nid arbedodd—yn ol
E lwyddai 'n wyrthiol ei Dduw a'i nerthodd.

Daeth i Bethel dawel dŷ,
Y fan heulog fu 'n wely
Gan Jacob, pan mewn penyd
A mawr boen yn tramwy 'r byd;
Symudodd megis meudwy,
A'i amcan i fan oedd fwy,
Yma trodd ac enwodd ef
Wrth enw Porth y wiwnef.

Man enwog iawn mewn hanes
Fu Bethel ar uchel res;
Ei chrefydd yn uwch rifwyd,
O un lle nid gwan a llwyd;
I Dduw Iôr hen allor oedd,
Drwy 'i weision hyd yr oesoedd;

Ennillodd hon gynulliad
Pobloedd, drwy leoedd y wlad.

Eithr yn oes a theyrnasiad—Josiah
Aeth sawyr dirywiad;
Byth i lawr aeth Bethel wlad,
Ofnadwy gyfnewidiad.

Er bywyd Jeroboam
Bethel gadd ei bythol gam;
Caledwyd, llygrwyd y lle,
I hen olwg anaele;
Yn waeth ar hyn aeth yr oes,
Hi dyfodd yn fwy difoes;
Gwanhäodd pob egniad,
Fyth o le fe aeth y wlad.

Y lloi aur a'r allorau—i Baalim
Gabolwyd yn dduwiau;
Aeth rhediad bwriad y bau
Ar eilynod aur luniau.

Ond diwedd drwy andwyaeth—a ddaliodd
Hen ddelw addoliaeth;
Josiah o'i dda pan ddaeth,
Fwriadodd ar ddifrodaeth.

Yn frwd ei deimlad difrodai demlau,
E regodd ddial ar y gau dduwiau,
Dyrnu i'r llawr a darnio 'r allorau,
Chwilio y llenyrch, chwalu y llwynau,
A llosgi deiliaid lliosog y delwau,
Hen feibion y tir yn fyw bentyrau,
A'r offeiriaid gwylliaid gau—a laddodd,
Eu cyrff a rwymodd er creu offrymau.

Anneddau y swynyddion,
Tyngedwyr, brudwyr o'r bron,

A daniodd, a'r dewiniaid,
Addig felldigedig haid.
Hwy laddodd yn ei lwyddiant,
Hyrddiai bawb o'r urdd i bant.

Y beius Jeroboam,
Fe yw 'r gŵr wnaeth foreu gam;
Terwyn oes fu teyrnasiad
R'annuwiol ŵr yn y wlad;
Y duwiau aur awdurodd,
I'r tir fe a'u paratodd;
Moddion fu i lygru 'r wlad,
A'i rhoi dan hir ddirywiad;
Effaith hyn yn faith a fu,
Am oesoedd yn gormesu.

Wedi hir arloesi 'r wlad,
A'i throi o'i chaeth ddirywiad,
Trwy losgi noethi nythod
Dynion o anunion nôd,
Aeth ragddo gan frysio 'n frâs,
I feddianu 'r brif ddinas;
Dinas Jebus ddestlus dda,
Hen wynfan y freninfa;
Tref Dafydd ganiedydd iawn,
Y gwreiddiol fardd goreuddawn;
Man fu 'n dal am ddyfal ddydd,
Uwch rhyfyg gyda chrefydd.

Lle gwelwyd llu y gwyliau—rhyw ganoedd
O'r genedl drwy 'r llwythau,
Yma 'n hir fel yn mwynhau,
Bawb wrth eu byw aberthau.

Am oesau yn dwym ysol—dilynwyd
Haelioni crefyddol,
Heb wanhau mewn byw yn ol
Manion y ddeddf orch'mynol.

Ond o oddefiad ddwyfol—eneiniwyd
Breninoedd annuwiol;
Aeth crefydd o newydd yn ol—a'r wlad
I wan ddirywiad ac yn ddireol.

Cawn i'r deml cyn hir deimlo,
Niwed trwm o wneyd y tro.

Ei thegwch a waethygwyd—a'i swynol
Wasanaeth attaliwyd;
Aeth y lle yn noeth a llwyd,
Urdd y fan hir ddifwynwyd.

Gwarth ydoedd y gwrthodiad
O air Duw, y gorau Dad.

Drwy ddrwg y genedl fe dorodd rhwygiad,
A'i diofalwch wnaeth yr adfeiliad,
Di-lun aeth, a di lanhad—ei thegwch
A'i chain hawddgarwch yn ddigyweiriad.

Ei Duw a'i llwyr adawodd—a'i hebyrth
Yn ddibarch wrthododd;
Ei gefn draw yn gyfiawn drodd,
A'r fan a warafynodd.

Yna Josiah nesäodd—yn dwym,
Yn y deml ymaflodd;
'N ewybr y tŷ barotodd,
A'i gyrau a gyweiriodd.

Aur ac arian gan y genel—archodd,
I'r achos goruchel;
Daeth a'r tŷ i fyny fel
Dan ddiwygiad yn ddiogel.

Y brenin a lawn brynodd—ddefnyddiau
O fanau pell fynodd,
Cerig naddedig ddododd,
O'r eithaf werth, wrth ei fodd.

Y cludwyr mewn caledwaith
Fu 'n ffyddlon gyson i'w gwaith ;
Y seiri a'r mesurwyr
Efo 'u gwaith yn fywiog wŷr ;

Y brenin yn bur unol—a'i forau
Arferiad ddiwygiol ;
Mynai roi pob man ar ol
I'r graddau y bu 'r gwreiddiol.

Tufewnol y tŷ fynodd—yn brydferth
Briodfan fe 'i dygodd ;
Yn fyrddiog fe a'i harddodd—yn helaeth,
Mewn adwyaeth mwy ni adawodd.

Astudiodd osodiadau—a dyfodd
O'r dwyfol reolau ;
Offeiriaid doniol, a pharod enau,
Byw gydweis oeddynt, bawb gyda 'u swyddau,
Y modd dododd hen dadau—cyntefig,
Hwy 'n dorf unedig dan drefniadau.

Ar ol hyn yr ail luniad
O fawr les fu ar y wlad ;
Y gloewi wnaed, ar glanhau,
Ar y llawr a'r allorau ;
Yn y demyl cawd yma
Yn ei blyg mewn diwyg da
Lyfr y gyfraith, unwaith oedd
Gan y tadau, gynt ydoedd
Yn rheol ddwyfol i ddyn
Addoli Duw, a'i ddilyn.
Yna, Josiah yn syn
Ymhyfai i ymofyn
A'i ofynion oedd fanol
Wrth ryw wŷr o barth y rhol,
A chynwys yr achwynion,
Ynddo sydd drwy unwedd sôn.

Rhyw fodd cyfododd ar fyr
Deryll ofid, o'r llyfyr.

Hallt iaith am ryw felldithion—i ddyfod,
At ddifa 'r trigolion ;
Y llyfr sydd yn llafar sôn—am wae-res
Sy' i orddiwes yr Iuddewon.

Trowyd y genedl at ryw deganau,
Y tai a lanwyd o'u tew wael luniau,
Eu tuedd oerodd at Dduw a'i eiriau,
Yn is y dodent ei osodiadau,
Eu nefoedd oedd anufuddhau—'r alwad,
A'u hymadawiad oedd am eu duwiau.

Josiah o'i dda wnaeth ddal
Yn gryf fel mewn gwir ofal,
Am lesiant mil o'i weision,
A'u rhagod rhag dyrnod Iôn.

Arswyd Duw arosai dan
Ei fynwes ef ei hunan,
Rhag neshau dyrnau dirnerth
Ei farnau, mynyddau 'i nerth.

Llyna y brenin llawn berw ei enaid,
Rhag i ddialedd rwygo ei ddeiliaid,
Eu halltudiaw a'u gwthiaw yn gaethiaid,
I'r bobyl anwar y Babiloniaid,
Rhyw greulon fygythion gaid—ysywaeth,
A throsi 'u triniaeth i ryw estroniaid.

Cyn neb, amcanai wybod
Yn ei ddydd beth oedd i ddod
I gwrdd a hwy 'n geryddol,
Rhyw galed niwed yn ol ;
Gan fod barnol ddwyfol ddig
Ofnadwy 'n 'sgrifenedig,

Ar ddalenau rhwymau 'r rhol,
Adfydau y dyfodol.

Y brenin yn flin aflonydd—gwynai
Ar y genedl beunydd;
Rhag i Dduw am ddrwg i'w ddydd
Ddwyn estron yn ddinystrydd.

Dilwyddwyd dialeddau—i aros,
Gohiriwyd y gwaeau,
Yn ei oes ef, rhag neshau
Flin haeddiant am flynyddau.

Buchedd dda Josiah 'r sant
Ail lwyddodd fel o haeddiant;
Er ei fwyn yn derfynol
Gohiriwyd, neswyd yn ol,
Lid haeddianol ryw wlad o ddynion,
A gwae anelawg i annuwiolion,
A rhwygo 'r euogion—am eu camwedd,
O dalu mawredd i'r delwau meirwon.

Yna Josiah, was Iôn,
Y gŵr a wisgai 'r goron,
Yn ol ei freninol nôd,
Nwyd ordwym mewn awdurdod,
A wnaeth fawr helaeth alwad,
Ar goedd at luoedd y wlad,
Henuriaid, rhai yn arwain
A'u llaw yr oes, oll o'r rhain;
A pharodd i'r offeiriaid
Yn y blaen ddod o un blaid;
Swyddwyr, efrydwyr y fro,
Yn gryno, a'r gwroniaid.

Bwriadai, mynai am unwaith—roi llawn
Ddarlleniad o'r gyfraith;
Cynwys hwn y memrwn maith—i'r werin,
O enau brenin, heb air o weniaith.

Ail unwyd yn ganlynol
Y dorf fawr yn awr yn ol
A Duw, mewn twym ymrwymiad,
Holl lwythau taleithiau 'r wlad.

I werthu ac ymwrthod—a'u duwiau
A'u dewis eilynod,
Gan gashau delwau, a dod
O'u camwedd i dir cymod.

Eu hoff frenin fu yn offerynol,
Agorai feddau yr oes grefyddol,
Hwy a gymerwyd fel o gwsg marwol,
I wir amodi yn ymrwymiadol,
Dan ufuddhau i'w Duw yn foddhäol
Heb y delwau a'r lluniau allanol;
Trefnu, gweinyddu yn ol—rhol y ffydd,
I gyd o'r newydd yn gadarnhäol.

Adegau y diwygiad—a hiliodd
Fawr helaeth ddeffröad;
Arall wedd o hir wellhad,
Ddilynodd yn ddylanwad.

Ar fyr yr hen arferion—annuwiol
Wanhawyd yn gyson;
Gwawdus anroesawus són
A delid i hudolion.

Y lloi aur a'r holl arian—a doddwyd,
Diweddodd eu hamcan;
Rhoi delwau eu duwiau 'n dân,
Fu 'r cynwrf hyd fro Canaan.

Y gorau offeiriaid a gorphorodd,
Gwŷr dewisedig o'r da osododd,
Yr enaid duwiol yw 'r hwn adawodd,
Wrth geisio eu nithio ni wenieithodd,

I buro y tŷ, fe bar'todd—swyddwyr,
Ar y llwyn addolwyr llawn ddialodd.

Dilwythwyd i helaethion—o'r demyl
  Rho'w'd ymaith i Cidron,
 I'w dwr aeth, ffieidd-dra hon
 Yn yfed i'r hen afon.

 Awydd fythol ddifethu
 Yn ei feddwl fanwl fu ;
 Myn'd allan mewn diwylliad,
 I lanhau ffaeleddau 'r wlad ;
 Troi yn ol annuwiol nos,
 A gwellhau drwg y llïos ;
 Hyfrydu gwel'd drwy'r frodir,
 Achos Duw ar iachus dir.

Dwyn ëang gyfnod newydd—neu arall
  Gyfeiriad i grefydd ;
 Newid ffurf a nôd y ffydd,
 Arwyddwyd drwy 'r ddeddf-Roddydd.

Y gwelliant hyd y gallodd—i'r deiliaid,
  Drwy 'r dalaeth ddilynodd ;
 Y delwau 'n amlwg o'r golwg giliodd,
 Hwy yn ddiofal ni wan oddefodd,
 Addoliad dwyfol ddieiddil dyfodd,
 Hyn o lwyddiant yn fwyniant fynodd,
 A phurdeb wyneb wenodd—hyd yma
 Y gŵr Josiah a'u gwir roesawodd.

Parhau i wellhau y lluoedd—geisiai
  Am gyson flynyddoedd ;
 Newid da rhag niwed oedd,
 Ysgydwad o gwsg ydoedd.

Ar ol creu rheolau cred—y genedl,
  A gwyneb agored,
 O'u bodd dilynodd ar led
 Y dalaeth i gydweled.

Myn'd ogylch mewn diwygiad,
A cheisio goleuo 'r wlad;
Dylanwad duwiol yni
Y llywydd ddaeth a'i llwydd hi;
Rhoi syniad i'r oes anwir
O fawr nerth a gwerth y gwir;
Anturio at eu harwain,
Lu yr oes, drwy lywio 'r rhain,
Dychwelant à chywilydd,
O ran y ffurf, i'r iawn ffydd;
Ar ol yr Arglwydd yr ant,
A'i enw 'n unig eneiniant;
Pydron ofergoelion gau,
A'u duwiau, a adawant.

Fe arweiniodd fawr wahaniaeth
I'r oes hono drwy 'i wasanaeth;
Irwedd dduwiol ar Iuddewiaeth
A ddilynodd ei olyniaeth.

Y genedl megis gynau—yn oesoedd
Hoenusawl y tadau,
Weithian o'i chyfan iachau
Gynaliodd hen gynwyliau.

Y brenin mewn bri hynod,
Yn ol ei ryglyddol glod,
Hen wyl y Pasc gynaliodd,
Mewn enwog, gyfoethog fodd.
Drwy anrhydedd mawredd mwy,
A chyflawn orlawn arlwy,
Fu 'n o'i bath o fewn y bau,
Ymddengys er ys oesau.

Priodol ddarpariadau—a gafwyd,
Ar gyfer yr eisiau;
Er mawr syndod, dyfod oedd
Fynyddoedd o ddefnyddiau.

Gosodwyd megis adeg
Y pedwerydd ddydd ar ddeg,
I ladd y Pasc at wledda,
Wrth y rheol ddwyfol dda.
I'r tai fe barotowyd
Yr wyn bach, yn rhan o'u bwyd;
Dianaf oen, dyna fu
At alwad y pen teulu.

Darn ydoedd diranedig—oen parod
O nôd amcanedig;
Un glan, yn gyfan ei gig,
Greadur cysegredig.

Astudiwyd oes y tadau—o Dafydd
Trwy 'r dwyfol reolau;
Dirwyn hyn i'w cadarnhau
O barth y Pasc aberthau.

Addfedwyd at ddefodau—y demyl,
Fe dwymodd calonau;
Aml un oedd yn ymlanhau
Weis hyddysg at eu swyddau.

Trefnwyd amcanwyd cynal—yr wyl hon
Drwy luniad digystal;
Ei chlod aeth ar uchel dant,
Addefant hi 'n ddihafal.

Hwyl ferwai unol fwriad
Drwy achau tylwythau 'r wlad,
I'r wyl fod o fawrglod fel
At ogoniant y genel.
Cyflawnder o bob ebyrth,
Yn aml o bell, i'r deml byrth
Yno gawd drwy ëang gylch,
Anrhegion gan rai ogylch.
Offrymau yn llwythau llawn,
Faith ddygai cyfoethogiawn;

Yn eidionau dianaf
Filoedd o'r amgylchoedd gaf.

Wyn blwyddiaid, defaid dofion—wynebant,
Yn ebyrth rai breision;
A'u rhiwiau o'r goreuon
O dir y wlad, i'r wyl hon.

Y mawrion ymgymerant—ac hefyd
O'u cyfoeth cyfranant;
Pasc roddion ddigon ddygant—mewn mawrfri,
Wrth haelioni y nerthol lynant.

Diflino dyfal lynwyd
Wrth bobi a berwi bwyd.
Llwydd gawd mewn lladd a gwaedu
Nos a dydd afonydd fu.
Gwaedu 'n ddidor, lliwio'r llaid
Orlifai syrnau 'r Lefiaid;
Rhedai goris megis môr,
A'r oll o gylch yr allor.

Yn enwau y breninoedd,
Josiah yn ei dda ydd oedd
Benaf, ar uchaf y rhes,
Fel hyn medd dwyfol hanes,
Ddychwelwyd wraidd a chalon
Yn hollol ar ol yr Iôn.
Ei enaid yn danbaid dân,
I'w gelloedd fewn ac allan.
Hir ddygai wir eiddigedd,
Nôd y gŵr oedd newid gwedd
Y deyrnas o'i du wyrni,
Ar gyfer ei hadfer hi.
Ond ar ol crefyddol fyw
Arwyddir na cheir heddyw
I'r pur ŵr ni rho'ir parhad,
Er bywydol arbediad.

O'r ol einioes dduwiol dda,
Neshäodd tranc Josiah ;
Er na chawd yr un o'i chwaeth,
Yn hanes y freniniaeth ;
Dyn oedd, mae Duw yn addef,
Ufudd lawn i'w feddwl ef ;
Ni chamai dros orch'ymyn,
Neu enw Duw, er mwyn un dyn.

Yn achos Pharaoh Necho—Josiah
Ysywaeth gadd deimlo,
Am y gâd yn Megido,
I'w fywyd traws fu y tro.

Galwad o byrth y gelyn—hen Bagan
Yn bygwth goresgyn,
A nerth ei arfau y fro i'w therfyn,
Diau yn orbell aethpwyd i'w erbyn,
Diles fu 'r hanes hyn—o'i olaf waith
Yn gwysio 'i ddylaith i'w agos ddilyn.

Amddiffyn terfyn y tir
Yn ofalus fe welir ;
Cychwyn yn ei erbyn wnaeth,
Yn greulon mewn gwrolaeth,
Yn unol a'i eneiniad,
Fel arglwydd ar lwydd y wlad.
Mewn gwir amcan allan aeth
Fel arwr i'r filwriaeth ;
O'i fodd ni oddefodd o
I ddyn estron ddinystrio
Godidog wlad ei dadau,
Liwdeg barth oludog bau,
Goreufan byd am grefydd,
Llaeth-fron neu ffynon y ffydd.
Ar y maes drwy'r ymosod,
Mewn gwir amcan dyna 'n dod

Yn ei erbyn sydyn saeth,
Dirwanwyd ei wroniaeth.
Claf ydoedd, un clwyfadwy
Yn dwyn ei gledd dan ei glwy';
Ar hyd yn ei gerbyd gaf
Ar weled yr awr olaf.

Wele 'n llonydd luoedd penrydd,
Heb arweinydd yn eu brenin;
Cadd ei daro, darfu syrthio
Anaf iddo yn y fyddin.

Ei hen weision mynwesol,
Dirion wŷr, ei droi yn ol
O'r fyddin yn flin ddi floedd,
Yn ei waed gwanhau ydoedd.

Trydanwyd trwy y dynion
Y wir eres hanes hon;
Ergyd hir, neu rwygiad oedd,
Trwst taran tros y tiroedd.
Ceryddawl law 'n cwrdd y wlad,
Gwasgedig ei hysgydwad.

Y flin waedd pan gyrhaeddodd—i'r seiliau
Jerusalem grynodd;
A'i dynion drwy fudion fodd
I welw lewyg wael liwiodd.

Am dro pob llunio llawenydd—oedwyd,
A chaniadau 'r maesydd;
Afles fyw a diflas fydd—pob achos
I'r werinos heb yr arweinydd.

Rhyw gerydd ar gerddoriaeth—ddilynodd,
Olwynion marwolaeth;
Dros y tir yn ordrist aeth
Y deiliaid hyd y dalaeth.

Ni chrëir un chwareuon—o newydd
Yn rheiau y mawrion ;
Uwchlaw 'r tir ni chlywir tôn—per seiniau,
Na chaniadau, ond ocheneidion.

Elfen o'r gyflafan hyn,
Lesteiriodd lais aderyn.
Dwylaw 'r wlad mewn teimlad du
Oll eisioes wedi llaesu.
Yn ddi lun mewn un mwynhad,
Yn fyr o hoen neu fwriad,
Galar tost hyd glawr y tir,
Dwyn wylo, dyna welir.
Poen yr helynt drwyddynt drig
Yn symudiad siomedig.

Esgorodd pwysig hiraeth—ar benod
Orboenus o alaeth ;
Rhyw donau o ddagrau ddaeth
O lygaid y boblogaeth.

Eneidiol alarnadau—a ddodent
Doddedig deimladau ;
Y baich hwn fu heb iachau,
Arosodd amryw oesau.

Meib galar yn mhob gwaeledd,
Yn eu gwisg, ac yn eu gwedd,
Wŷr eiddil yn arwyddo
Hiraeth trist oddiwrth y tro.

Ar ei ol yn arwylion—gwŷr enwog,
Arweinir adgofion ;
Am dda Josiah ceir son
Yn nylaith rhai anwylion.

Fel hyn medd dwyfol hanes
Diau 'r gwir diwyro ges,

Y suddodd ein gorseddwr,
Diail lyw fu 'r duwiol ŵr,
Yn nghanol defnyddioldeb
O fewn un oes fwy na neb;
Y brenin mewn byr einioes
I'r wlad ei rodiad a roes
Oleuni, a dylanwad,
Ar ol llaw o hir wellhad.
Daliant bawb i gydweled
'N iach eu cri am wrthrych cred;
Blinant ar bob eilynod,
Drwy y tir fu 'n hir eu nôd;
Dewisant Dduw y duwiau,
Nid y gwag eilynod gau,
Ar hyd ei lwybrau rhodiant,
Wrth ei air a'i gyfraith ânt.

Gwedd arall egwyddorol,—a ledodd
O loewder crefyddol;
Ffurf a moes yr oes ar ol,
Unionwyd uwch anianol.

Yn yr eglwys arogla—hyd heddyw,
Nodweddiad Josiah;
Eneiniad hwn, a'i enw da,
Fel einioes ni ddiflana.

---

## ENGLYNION COFFADWRIAETHOL AM Y PARCH. JOHN ELIAS, O FON;

*Gweinidog o hynodrwydd mawr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; yr hwn fu farw yn* 1841.

Ein glew gorenwog Elias,—y gŵr,
Fu 'n goron cymdeithas;
Haul oedd, gwae ni ei luddias,
A'i ddwyn o'i le, ddoniol was.

Ni chrëodd ei ddechreuad—gwan niwlog
    Un helaeth ddysgwyliad,
  Am ddyn mawr hyd lawr y wlad
  O wreiddiol swynol syniad.

Eithr gwelwyd wrth argoelion—gwir fuan
    Gryfhäol obeithion,
  Drwy ddystaw siaw rhyw sôn
  O hyd am ei hynodion.

Athraw neu bregethwr y nef—a'i ddawn
    Yn ddeunerth rhaid addef,
  Ac anian gu y wiwnef
  Yn dân yn ei enaid ef.

Un o feib y daran fu—un tanllyd
    At winllan yr Iesu;
  Ag ael wleb y galwai lu
  I'w hachub a'u heddychu.

Ei ddi ail ddrych feddyliau—a'i ystum
    Oedd frasder i'w bethau;
  Bu ei ddawn fel yn boddhau
  Ddyn hynod Dduw a ninau.

Galluog gefnog gyfnerth—i'r achos,
    Fel rhychwr o fawrwerth;
  Gorddoniog ŵr o ddeunerth
    Yma fu o'r mwyaf werth.

Ar y maes fel grymus filwr—neu yn
    Freninol genhadwr,
  Gyda'r gwaith Duw godai'r gŵr
  Yn goronog arweiniwr.

Un cryf oedd fel cawr y fyddin—a'i sedd
    Uwch swyddwyr cyffredin;
  Daliai'i ddangos agos ach
  A chyfrinach a'i frenin.

Heulog gedyrn olygiadau—y gŵr
 Wasgarant effeithiau,
Dynai nôd, dwyn eneidiau
I'r iawn er eu llawn wellhau.

Dyn yn hanu dan eneiniad—nefol
 Mewn nwyfus gynyrfiad,
I geisio ail lunio 'r wlad,
A ffrewyll o ddeffröad.

Hen lol anuwiol wyliau,—diflanent
 O'i flaen, a'r mabsantau
Ei halen ef wnai lanhau
I fesur ynfyd foesau.

Darparai fwyd i'r profiadol,—llonai 'r
 Holl weiniaid diffygiol:
Gorddwys yw'r eglwys ar ol,
Gwers eiriau y gŵr siriol.

Hir erys hyd orwyrion—aml Oio!
 Am Elias ffyddlon;
Ail gyfyd rhyw ôl gofion,
Na phaid mwy am brophwyd Môn.

---

## ANNERCHIAD I LYFR PRYDYDDIAETH DEWI HARAN, yr hwn a elwir "TELYN DEWI."

O DORAETH Dewi Haran—a'i lafur
 Fe lifodd in' allan
Er ei fawl ragorawl gân,
A'i thyniad o groth anian.

Hydoliaeth sydd yn dilyn—ei awen,
 Mewn cywydd ac englyn;
Cyweiria dalia 'r delyn
Yn wastad at deimlad dyn.

Eneidiodd ei ganiadau—yn wastad
Mewn ystwyth frawddegau;
Tyfa'i ddawn fel at foddhau
Ei genedl yn ugeiniau.

Dylanwad ei delynu—a gynull
Ryw ganoedd o'i ddeutu;
Ger bron ei acenion cu
Saif neb heb wyneb wenu.

Y dymer dyner dania—a galar
O'r galon a gilia,
Argraff fydd ar gorph o ia,
A'r dyn oer a dynera.

Eled hon ar ledaeniad—y Delyn
Hyd hwylus wasgariad,
Dros ein tir i lenwi 'r wlad,
Drwy fanol wyrthiol werthiad.

---

## "MINAU ARFERAF WEDDI."

*Cyfres o Englynion.*

Atat ti, dydi, O Dad—wynebaf,
Dan obaith gwrandawiad;
Fy ngweinion eirchion na âd
Ddir Benaeth heb dderbyniad.

Och ydwyf! yn bechadur—di yni,
Adwaenaf fy nolur;
Dan y cwymp a'i gyfan gur,
Lygredig wael greadur.

Cyffes y fynwes anfonaf—uchod,
Fy achos ddinoethaf,
Fy holl ddrwg yn amlwg wnaf,
O flaen Duw fel hyn deuaf.

I'r ddeufyd yr addefaf—fy nyled
Yw fy nolur mwyaf;
Drwy ymlysgo ato af,
Ar Dduw yr hir weddïaf.

Ni phwysaf ar gyffesu—yn ddirgel
Heb ochel mwy bechu,
Amodaf i ymwadu
A phob chwant yn fwyniant fu.

Ni âd agoriad geiriau—di enaid
Ond dynol effeithiau;
Uwch nôd yw ocheneidiau
O fewn i ŵr yn dwfnhau.

Aur wersi wrth yr orsedd—a gefais,
Wrth gyfarch ei Fawredd;
A mwynhad twym iawn o hedd,
Difyrwch dioferedd.

Cenhedlu, bathu gobeithion—wna Duw,
Dan dywyll ammeuon;
Ymlid ef ryw aml i dòn
Yn gyfan wrth gyfnerthion.

Angofio Duw, fy ngofid hyn—yn benyd
Wna beunydd fy nghanlyn;
Fy llygredd hyd fedd e fyn
Er fy nolur fy nilyn.

Gwridaf na allwn gredu—ar unwaith
Yr hwn sy'n llefaru;
Llwythog groes drwy f' oes a fu
Fy null, a fy anallu.

Er rhoi bwriad ar buredd—nid ydyw 'r
Credadyn heb lygredd ;
Wrtho byth hyd borth y bedd
Glŷn arogl ei anwiredd.

Gomedd pob ffurf o gymod—fyddwf,
Hyd faeddu fy mhechod ;
Daliaf at y dylai fod
Grymysawg wir ymosod.

Y dreth o lywodraethu—f' anwiredd
Fo'n aros mewn gallu ;
Yr anian fychan a fu
Ymladded am lywyddu.

Nid y llnniad allanawl—ar fuchedd
A ffurf iechyd moesawl,
Rydd i ddynion union hawl
I dynged rhai diangawl.

Rhaid eilwaith er duwioli—fy enaid
O'i fewnol drueni,
I Dduw Nâf gofynaf fi
Yn flaenaf am f' aileni.

Wedi unwaith newid anian—o fewn
I fynwes y truan,
Ei feiau âd yn fuan,
A dyna 'i lef, bod yn lân.

Ymroddiad mewn marweiddio—fy mhechod
Fy muchedd fo 'n tystio,
A'm hysbryd yn fywyd fo
Drwy wylied am ei dreulio.

Gwaelodaf ddysgwyliadau—disiomiant
O swm fy ngweddïau ;
Dal a wnaf mewn dilyn hau,
Yn dew am hir dymhorau.

Dyn a'i ran dan arweiniad—Iôn, fyddwyf
Yn foddus fy rhodiad;
Yn ddyn a Duw iddo 'n Dad,
Anadlydd adgenedliad.

---

## COFFADWRIAETH GALARUS A BRAWDOL AM Y PARCH. JOHN JAMES, O BENYBONT, MORGANWG;

*Gweinidog cymeradwy iawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Bu farw Mehefin*, 1878.

Angau fudodd fy nghyfoedion—duwiol,
A'm dewis gyfeillion;
Eu hanes sydd boenus sôn
Anhyfryd i fy nwyfron.

Fel hwylbren yn mhen mynydd—un unig
Yn wyneb y tywydd,
Dyna 'n llawn yw nawn fy nydd,
A nodau fy niwedydd.

Ymweliad llym o alaeth—ddaeth imi,
A thymhor o hiraeth;
Hynaws ŵr o'n mynwes aeth
I wyll daear neillduaeth.

Gweinidog enwog ei hanes—gollwyd,
Di gellwair ei neges;
Gŵr o genad gwir gynhes,
Ei dymer oedd dwym o wres.

Ni chodwyd ond ychydig—rhagorach
Na'r gwron parchedig;
Yn y dref ei enw drig,
Di ail frawd duwiolfrydig.

Dyn sanctaidd gwylaidd galon—un ydoedd
Dan nodau 'r gwir Gristion;
Cawd ei ffydd yn grefydd gron,
'R un ddelw a'r hen dduwiolion.

Porfëydd pur ei fywyd—neu felus
Fywioliaeth ei ysbryd,
A'i lafur dyddiol hefyd,
Yn y gair bu 'r rhain i gyd.

Ychydig o'i serchiadau— a fwydodd
Ar fydol drysorau;
Ariant a'u gogoniant gau
Ni rhydodd ei fwriadau.

Gwerthu y byd a gwrthod—ei oreu
O herwydd cydwybod;
Mynu byw a mwynhau bod
O dwrf yr hyn sy'n darfod.

Dyma ŵr diymyraeth—ni cheisiodd
Achosion gwladyddiaeth;
Ei fwriad ef yn frwd aeth,
Ddyn hoedd, ar dduwinyddiaeth.

O res y cywir weision—o linach
Y ffyddlonaf ddynion,
Hyn wnaf, mi osodaf Sion
Dilai o'r rhai goreuon.

I afael nerth fel yn wyrthiol—yn aml
Yn neimlad y bobol;
Gwirir hyn, pwy geir o'i ol
A phethau mor effeithiol?

Dilenwyd ei olyniaeth—dinoethwyd
Dan eithaf crediniaeth,
Ei godiad i'w alwad aeth,
Uwch mwyach i amheuaeth.

Llaw Duw yn ei neillduaeth—a'i feddwl
  Fu iddo yn helaeth;
 O anfon hwn efe wnaeth
 Frâs enaid fawr wasanaeth.

Ei swydd fu 'n achos iddo—o'r galon
  I'r golwg fawr deimlo,
 Bob amser mewn dwysder do
 Ni feiddiodd hunan foddio.

Ei orloewaf arlwyaeth—a'i flasus
  Felysaidd ddarpariaeth,
 Oedd dduwiol grefyddol faeth
 Wrth rëol pur athrawiaeth.

I lys y dduwiol weision—o'r ddaear
  Rhyddhawyd y Cristion;
 Daeth i'r gwas drwy râs yr Iôn
 Y gareg wen a'r goron.

---

## Y TAFOD.

"*A'r tafod, tân ydyw, byd o anghyfiawnder.*"

CYWYDD.

Yn lluniad dyn llanwyd ef
Rho'w'd iddo rhaid yw addef
Ragoriaeth gwir benaeth byd
Yn neddfau y newyddfyd;
Dyna faes y dyn i fod
Yn d'wysog y byd isod;
Rhaglywydd i'w Arglwydd oedd
Wrth raid ar ei weithredoedd.

Anfonai ei ofynion
A'i lais red i lys yr Iôn ;
Daliai, egorai y gŵr
Noeth eiriau a'i Wneuthurwr ;
A'i frenin gwnai gyfrinach,
Yn moreu byd dymhor bach ;
Er syndod ei dafod oedd
Yn nwyfol iaith y nefoedd ;
Yn medru parablu 'n rwydd
Yn orglir a'i ben Arglwydd.
Ni choffeir trech offeryn
Wnaeth Duw at wasanaeth dyn.

Ond wedi digio 'r Duwdod,
Ac i lygredd ddyfnwedd ddod,
Rhoi defnydd annedwydd wnaeth
O dan waelod dynoliaeth ;
Llygrwyd, andwywyd y dyn
Trwyddo hyd at ei wreiddyn ;
Rhyw arllwys o gynwys gau
Orledodd drwy 'r aelodau ;
Gwyrodd eu cyn-ragoriaeth,
Y tro eu dinystrio wnaeth ;
Heb addurniant aethant hwy
Fyth wed'yn yn fethadwy ;
Cymerant eu cam arwain,
Hollol ddi reol yw 'r rhai'n.
Y tafod, mae'n syndod sôn,
Aeth ef i ryw eithafion
O lygriad dan halogrwydd,
Drwy wŷn sur i drin ei swydd,
Yn hynod barod ei big,
Gan enyniad gwenwynig.
Gyda gwrid myn godi gwrych
A rhuthro ar ei wrthrych,

Yn llawn gwŷn fel ewyn arth,
A digofaint i'w gyfarth,
Mewn rhegau geiriau gerwin,
Di râs y modd dros y min;
Bratha bawb heb rith o barch,
I ddyn gwna emyn ammarch;
Duo fyn, a difenwi,
O'r bron ein boneddion ni;
Ysgeler was y galon
Am ei swydd o hyd mae sôn.

Anrhydeddwyd, rhaid addef,
Deulu dyn a daliwyd ef
A deheuder nodedig
I oeri a dofi dig
Gwylltfilod, a'r ednod rhydd,
Adwaenir ar adenydd.
Llaw dyn ar y llewod dig
Hudda 'u bâr yn ddiberig;
O fodd i'w air ufuddhant,
A'i law hefyd a lyfant;
Y rhai gynt o honynt hwy
Fu 'n nwydwyllt ac ofnadwy,
Dirionwyd o dan driniaeth
Dyn, a'u dwyn yn addfwyn wnaeth.
Ond dofi dig tafod dyn,
A dwyn ei rym dan rwymyn;
Huddo 'i 'stwr i ddystawrwydd,
A iachau ei hunan chwydd;
Dan haul, b'le mae 'r dyn welir
Yn ŵr at hyn drwy y tir?

Gwarthnodiad gwrthun ydyw,
Anghyson i berson byw
Yw gosod ei dafod i
Draddawd pob rhyw fudreddi,

Drwy hyfaidd ffiaidd goffau,
Hen ddrewllyd chwydlyd chwedlau.
Arfer ffurf o eiriau ffol,
Gwenwynig, ac anynol;
Bras syniad mewn brys annoeth,
Yn dân byw a'r nwydau 'n boeth:
Cynwyso 'i air cyn siarad,
Welais i o fawr leshâd:
Ail dda yw meddwl ddwywaith
Cyn dod a'r tafod at waith;
Hyn arbed aml anwirbeth,
Cyn agor mae puro 'r peth;
Pan ddaw allan lydan lol,
Ffrwd daena'n gyffredinol,
Ni ddaw 'n ol yn eiddo'i ni
O leiaf i'w ail loewi.

Os o ddygwydd tramgwyddir
Rhyw ddynsawd o dafawd hir,
I'r dyn gwae 'rioed ei eni
O neb dan haul i'n byd ni;
E beidia 'i enw bedydd,
Ar ei ben nid hir y bydd;
Rhoi 'r enwau rhyw rai hynod
Fu 'n ol dan annuwiol nôd;
Dan dded'ryd gesyd y gŵr
Yn frawd i Judas fradwr;
Neu ryw fwrddwr, gŵr fu gynt
Ddyn wyddis ddienyddynt.
Hefyd dichon fod achau
I'r cyff hwn rai i'w coffau,
A'r rhai'n o dan ryw anair
Heb ddal yn gystal eu gair;
Y si drwg o'r oesau draw
Fu 'n debyg o fyn'd heibiaw;
Ond arweiniwyd i'r wyneb,
I'r byd noeth heb arbed neb;

Ail grafwyd hen lwgr afiach
Gyda'r croen, a gwaedu 'r crach;
Agor aethus hen greithiau,
O ran chwydd oedd bron iachau;
Hoeddi, dinoethi, nythoedd,
Ac aml ddrwg o'r golwg oedd;
Dyna chwerdod tafod dyn,
A'i ddialedd i'w elyn.

Rhyw ŵr a ddyru eiriau
Fel brath cleddyf cryf mewn crau;
Yn finiog eu hanfoniad
I greu briw, neu agor brâd,
Yn ergydiol rwygedig,
O geudod rhyw dafod dig.
Y traws air at roi sarâd
A gam arwain gymeriad;
Anwiredd am un arall,
Hyd y byd yn enbyd all
Niweidio ei holl nodwedd,
A duo 'i barch hyd y bedd.

Wrth weled y niwed wnaeth
Yr aelod ddi reolaeth,
Nid yw ryfedd ei drafod
Yn ddi rás dan adgas nôd;
Rhydd y Gair iddo gerydd
Arno fyth yn erwin fydd;
Ei nodwedd ni newidir,
Bydd ar gael tra byddo'r gwir;
Yn fynych ef ei hunan
Wnaeth roi cym'dogaeth ar dân;
Lledu si rhyw oerllyd sôn
Ef allai rhwng cyfeillion:
Efe sydd drwy anfoes sen
Yn geni pob rhyw gynen.

Nid clod yw tafod difyr,
Nid yw hon goron ein gwŷr.
Arabedd nid yw rywbeth
Nodedig, neu bwysig beth ;
Nid call o hyd yw cellwair,
Llawer gwell yw ambell air ;
Da i chwi wrthod chwerthin,
Dalier mwy hyd wylio 'r min ;
Gochel gawr uchel grechwen,
Ond iachus gweddus yw gwên.
Mynu sibrwd mewn sobrwydd
Ddylai sant a ddaliai swydd.
Geiriau swrth rhai garw sydd
Dirboenant y derbynydd ;
Iaith dyner wrth y dynion,
Yn well sydd at enill sôn.

Gresyn fod y tafod heb
Wirionedd ar ei wyneb ;
A'i wedd yn wyn ddianaf,
Heb rwd yn ol bwriad Nâf ;
Gwasgwyd hwn dan gysgod tô
Yn nawdd amddiffyn iddo ;
Mae 'r danedd fel mur dinas,
Rhag peryg drwg gynyg cas ;
Neu fel dwy res o filwyr,
O ran nerth yn gedyrn wŷr ;
Rhai di fwlch yn barod fydd,
Er gweini i'r trigianydd.

Eglwys Dduw, mi glywais ddwyn
Afiachus ochus achwyn,
Fod yrwan dan dy dô
O dy fewn rai' 'n difwyno ;
Dy wisg wen, a'i diosg hi
Yn aethus er dy noethi.

Cyhoeddus yw 'r cyhuddiad,
Rhed i lawr ar hyd y wlad,
Fod dy feib yn fwy di foes,
Ar dafod yn rhai difoes.
O frodyr, llawn fwriadwn
I farwhau yr anfri hwn ;
Gwerthwn ef, gwarth yw ei nôd,
Aberthwn bawb i'w wrthod.
Gwyddelig i dduwiolion
Ochus yw fod achos sôn
Byth am y gwael beth yma,
Yn Sion a'i dynion da.
Arferwn rif o eiriau,
Cymwys call, nid cymysg wau
Brâs seiniau byr o syniad,
Gwael eu rhyw, heb eglurhad.
Yn mhob llun gwnawn ymbellhau
Rhag arogl rhyw wâg eiriau ;
Annoeth ddyn ar unwaith dd'wed
Rwyg eiriau rhy agored ;
Yn d'rawaidd a direol,
Gorlawn o ddiffygiawn ffol ;
Di ddarpar ar ei eiriau,
A di blyg mewn cynyg cau ;
Ei dafod rhag dyfod i
Wneyd annoeth niwed ini,
Yn frwd hyll fe red allan
O'i enau donau o dân.

Gwridwn yn gyssegredig
Blant Sion, o'r bron i'r brig ;
Echrys hyll a chroes hollawl
I fywyd sant fod y sawl
Ddilynant aur ddalenau
Hen Lyfr Iôn a'i hael fawrhau,
Ac yn byw heb amcan bod
Yn rhai difai ar dafod.

Ni rhydd tafod parod pur
Res wâg o eiriau segur;
Ymlanhawn yn mlaen o hyd,
A chiliwn i ochelyd
Halogrwydd cnawd a'i lygriad,
Yn mhell awn fel am wellhad;
Talfyrwn at lefaru,
A phob gair mewn cywair cu;
Ymadrodd pur gymedrol,
Yn bêr heb lawer o lol;
Geiriau glan na egyr glwy
O rediad cymeradwy.
Yn sawru wrth eu siarad
Arogl hedd drwy eglurhad;
Rhaid dethol geiriau 'r doethion,
Denant serch, hwy dynant sôn;
Mynwn bigion ceinion call
Fo 'n aros o fewn arall;
Gair ofer y digrefydd
Yn y fan dihoeni fydd;
I'r rhuddin ni chyrhaedda,
Yn ddieffaith ymaith â;
Hoel fo 'n hol i fewnol fan
Ddiollwng ni ddaw allan;
Y dyn grasol nefol nôd,
Wr difai ar ei dafod,
Ei air ef drig ar ei ol
Yn hir benod dderbyniol.
Daw 'r olew gyda'r halen,
Drysor pur, i drwsio 'r pen;
A'i drin yn iawn drwy enaint
Iachus sydd yn mlwch y saint.

Gwyliwn yn ddiesgeulus
Yn mhob modd rhag adrodd us;
Ceir bellach ein crebwyllion
Yn seiniaw mewn dystaw dôn;

Brawddegau byr a ddygant
Wrandawiad, agoriad gant;
A dd'wedom bydded ddidwyll,
Gwiredd pur a greodd pwyll;
Rhy wâg fydd heb ragfeddwl,
Dyna nôd y tafod dwl.

Diau fyth nid da yw fod
Yn tyfu o'r un tafod
Ffrwythau, neu rasau breision,
Gynyrch haf goreuaf rawn,
Yn rhai addfed a gwreiddfyw,
Fel o radd y nefol ryw;
A'r un tir yn rhoi toraeth
Yn barfu gwyllt borfa gwaeth;
Yn esgor cnwd o ysgall,
Wedi 'u hau gan fodau 'r fall.
Ni phoenir i gael ffynon
O ddwr hallt o'r ddaear hon,
A'r un un yn rhanu 'n rad
Ddwr croew odd'ar y cread,
Ond, er syndod, tafod dyn
Drwy ddal am dro i'w ddilyn,
Rhoddir ef hir radd ar ol
Ein tir, a'n dwr naturiol!
Anghyson arferion fedd
Am wasgar pob cymysgedd;
Weithiau mae 'n aberthu mawl
Fel nôd o dafod dwyfawl;
Brwd eiria ar bryd arall
Ymadrodd wrth fodd y fall;
Heddyw rhuo 'n gyson gaf,
Yfory yn fwy araf;
Ond dranoeth oll a hyd drenydd
Hyd eitha 'i ddawn melldithia 'i ddydd;
'N afrywiog gynddeiriog ddyn,
Llwyr galed yn llaw 'r gelyn.

Deulu Duw, ein dyled hwn
O'r eiddom llawn ymroddwn
I wylied yn fanylach,
Er mwyn bod o dafod iach.
Drwg gynyrch drwy y genau
Yw siarad gwâg sorod gau:
Nid yw 'r tafod fod yn fan
Dan daflod hen dŷ aflan;
Yn neuadd na lanhawyd,
Awyr y lle 'n oer a llwyd.
Ond diwael fan dylai fod,
Dihalog hyd ei waelod;
Pob rhan yn gyfan i gyd,
O buredd a syberwyd;
Gwell i bawb yw gallu bod
Am eiriau yn anmharod.
Rhy enbyd y cyfyd câs
O doraeth geiriau diras;
Y brysiog eiriau breision,
Gorwyllt twym fel gyrwyllt dôn;
Nid tafod mewn chwerdod chwyrn,
Trwsgyl sy'n tori esgyrn;
Ond dawn y tafod tyner,
Hwn yw 'r mîn sy'n gwân i'r mêr.
Mud draidd ei ymadroddion,
Rhwyga friw i'r euog fron.
Bwriad dyn mewn ysbryd da
I ladd ei elyn lwydda.

---

## Y BARDD YN EI GLEFYD.

Wedi cael arbediad cy'd—rhesymol
Wers imi yw clefyd;
Plant Addaf a gaf i gyd
Yn feichiog o afiechyd.

Fi welaf y wialen—anelog
 Yn nwylaw fy merchen ;
Dan yr oll ei dyner wên
Dry'n olwg drwy y niwlen.

Llawer llai na'r bai o bell—yw'r cerydd,
 Er curo o'r fflangell ;
Daw im' les drwy 'r gyffes gell
Os dof fi o'm hystafell.

Nôd cariad ydyw cerydd—yr aelwyd,
 Ar ol mab anufydd ;
Tadawl lais i'w fantais fydd,
Addefa'r dioddefydd.

Ar ol a thrwy'r wialen—a iasau
 Gorysawl y fedwen,
Gorwedd ef fy llygredd hen
Ar waelod y pair halen.

Nid og ddaneddog weinyddodd—fy Nuw,
 Fy niwed ni cheisiodd ;
Cwr ei fys, nid cur o'i fodd,
Yn dadawl arnaf dododd.

Wrth drin y cwmin cymer—y dyrnydd
 Fod arno fawr bryder,
Ei arf fydd yn araf er
I'w wylio dan law dyner.

Ffyrdd dwl y meddwl maddau—O fy Nuw
 Cyfnewid ei lwybrau ;
Gan faich hir gwna fy iachau,
O g'ledwch gwrthgiliadau.

Dyweyd diolch hyd y diwedd—a fyddwyf,
 Dan faeddu grwgnachedd ;
A monwes lawn amynedd
Yn ffrwythlon o hinon hedd.

O Dad! tueddiad toddi—yn dyner
Dod ynof, nid chwerwi;
Dyn mwyn o dan y meini
Ufydd fab a fyddwyf fi.

---

## MARWOLAETH FY NGWRAIG.

Gwers arw groes o hiraeth—a gefais
Drwy gyfyng argyllaeth;
Rhyw orfod ddyrnod a ddaeth,
A chaled oruchwyliaeth.

Y goreu o bawb gerais—O! ngwaefyd,
O ngafael a gollais;
Un a fu ar fin fy ais,
A foreuol fawrheais.

Af yn ol i fanylu—ar hanes
Yr hen gyfeillachu
Melus a difyrus fu,
Y swynol ymgysanu.

Dewisiad bwriad borau—fu ynof
I enill serchiadau,
A mynu hon, a'i mwynhau
Am oes hir ei mesurau.

Nid ei golud, ond y galon—fynais
Drwy fanwl ymdrechion;
Bob amser tyner at hon
Fodd hyfryd fu y ddwyfron.

Helaeth fagwraeth i gariad—roddwyd,
A gwreiddiol gydsyniad;
O forau oes hir fawrhâd
Frwd deuserch fu 'r dewisiad.

Ufel o wres nefol ryw—yw cariad,
Er cerydd dynolryw ;
Un na thâl ei attal yw,
Gorfodawl o gryf ydyw.

Brwd weithiad cariad sy'n curio—yn fynych
O'r fynwes mae'n treio ;
Ond nodd y gwraidd ni faidd fo
Ymadael na symudo.

Hoenynu ei enyniad—a rhysu
Ei wresog gynhyrfiad ;
Anhawsder llawn yn wastad
Yw byrhau ei dwym barhâd.

Anwylder ei phresenoldeb—fyddai
Yn foddion fy llondeb ;
Mynwent oedd pob mwyniant heb
Ei gwenau hi a'i gwyneb.

Dattod yr amod a'r rhwymau—cedyrn
Fu 'n cydio 'n serchiadau ;
Oer, oer rwyg, oedd tori 'r iau,
Wisg ydoedd ddi-wasgiadau.

Y llys lle bu 'r arllwysion—i'r gwaelod
Ddirgeloedd y galon
A fythol ddarfu weithion,
Fe gaeodd pan hunodd hon.

Prudd ydynt bob breuddwydion—fynychaf
Yn ochau hiraethlon ;
Rhedeg gaf ryw adgofion
Gwir gynhes o hanes hon.

Yn gŵyro i'r un gweryd—a hithau
Wyf weithion bob mynyd ;
I'r tir oer, atti yr âf
Fan olaf, fy anwylyd.

## TREM OLAF Y BARDD AR Y BYD.

Cenad yr alwad olaf—o ardal
Yr awdurdod uchaf,
Anufyddu ni feiddiaf,
I wyddfod y Duwdod âf!

Canu 'n iach bellach i'r byd—a fyddaf,
Heb feddwl dychwelyd;
Y daith bell hirfaith ei hyd
I ddalfa 'r tragwyddolfyd.

Fyd daearol, fe fu dy orau—imi
Do am hir flynyddau;
Gwedd fy ngwyneb heb brinhau
Rad faethwyd drwy dy foethau.

Tra helaeth bob tro hiliwyd—y byrddau,
A'r bardd a ddiwallwyd;
Unrhyw flasus felus fwyd
Yn un modd ni omeddwyd.

Morwynion, mawr o honynt—a gweision
I gwysaw 'm tir oeddynt,
Wrth fy llais a gefais gynt,
Gweinyddwyr nid gwan oeddynt.

Ar hyd einioes meistr dynion—i'w gwyliaw,
Fu 'm galwad yn gyson;
Ni fu 'm swydd caf yma sôn
Droi a chelyd orchwylion.

Diwydrwydd da i odro—y ddaear,
Yn ddeheu gwnes weithio;
Mae genyf weithian dan dô
Helaethrwydd llawn heb lithro.

Diolch am gynyrch daear—fu imi
Yn famaeth mor gynar;
Ond bellach 'r wyf hwyrach ar
Fantoli ar fin talar.

Min dod mae cyfnod cefnu—a dianc
Bro daear a'r teulu;
Wedi 'r fath gyflawnder fu,
Dydd ofnus yw'r diddyfnu.

Dinoethi clydion nythoedd—ymadael
A ch'lymedig gylchoedd,
Ac aml orchwyl anwyl oedd,
A thoraeth tai a thiroedd.

Brysio myn'd heb aros mwy—rhaid imi
'R hyd ymyl y trothwy;
Dieithr i droed yw 'r daith hir drwy,
Ow! fynediad ofnadwy!

Cam rhyfedd yw cwm yr afon—arw-le
A'i gyrlif echryslon;
Gwylied wyf rhag gwaelod hon,
Rhaid ofni'r deifr dyfnion.

Cael esgyn o'r glyn a glaniaw—uchod
Yn iach heb longddrylliaw,
Ar lyfn draeth yr heulfan draw,
Brâs waelod i breswyliaw!

Da genyf i deganau—a chnawdol
Chwyn nwydwyllt syniadau,
Yn gynar gael o'u gwyniau
Yn moreu oes eu marwhau.

Can' diolch cyn y diwedd—i Dduw Iôn
Am ddenu fy nhuedd,
A'm breinio fel mab rhinwedd,
A byw ar gyfer y bedd.

Odd y mwyniant mor ddymunol—hir dasg
Yw'r dysgu yn hollol,
Gado 'r aur i gyd ar ol
Idd y linach ddylynol.

Ow ! ddaear pwy ni'th gara—pa elyn
Pwy welaf ni'th barcha ?
Wyt famaeth o doraeth da
I epil eiddil Adda.

Yma eilwaith ymwelaf—a'r fynwent
Yr oer fan lle byddaf ;
Fy hen gorph i fyny gaf
Ar alwad yr awr olaf.

Hyd byth y byd a'i bethau—adawaf,
A'r dewis fwynderau ;
Fy nos sydd, wyf yn neshau
I byrth trag'wyddol barthau.

Ha ! fawreddog foreuddydd—ymunaf
A'm hanwyl Waredydd ;
Byth yn ngwlad perffeithiad ffydd,
Dan awyr y byd newydd !

Cloddiwyd a muriwyd fy medd—yn barod,
I beri im' orwedd,
A maen o ryw mynor wedd
Saif yno dros fy annedd.

Y lluniad yn allanol—weinyddir
Yn weddus ryfeddol,
Yn gadarn ddarn addurnol
I foddio 'r rhai fydd ar ol.

Mynydd Duw, y man oedd dêr—ac anwyl
Iawn genyf bob amser,
Iach drem ar **Salem* is sêr
Sy'n ol a'i nefol nifer.

* Y capel y perthynai y Bardd iddo.

Caf well ac uwch cyfeillion—hyderaf
Hyd oror bryn Sion ;
Di ail lys holl deulu Iôn
Fro a thir hen ferthyron !

---

## BEDD-ARGRAFFIADAU, &c.

*Ar feddau dau o hen flaenoriaid ffyddlawn a duwiol y Corff, yn mynwent Pencoed.*

Bugeilydd byw ei galon—fu 'r diwyd
Frawd duwiol a ffyddlon ;
Un ydoedd o'r hynodion,
A gloew sant yn eglwys Iôn.

*Y llall.*

Gorwastad ddidwyll Gristion—henadur
Hynodawl o ffyddlon ;
Addfed oedd, a deddf Duw Iôn
I'w gweled ar ei galon.

*I flaenor duwiol arall yn mynwent Llangrallo.*

Hir oes dan faner Iesu—hyd angau
Fe dyngodd i lynu ;
Diwyd drwy ei fywyd fu
I'r talar gyda'r teulu.

---

WREXHAM : ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON.

LCelt Howell, John
H5495co Colofn y bardd.

535893

UNIVERSITY OF TORONTO
LIBRARY

DO NOT
REMOVE
THE
CARD
FROM
THIS
POCKET